ECO'R WYDDFA

Rhif 135 EBRILL 1988 Pris 20c

MENTER FACHWEN – CYNLLUN YN DEILLIO O'R GYMUNED LEOL

Nos Fercher, Mawrth 3 gwnaeth Is-bwyllgor Cyngor Bwrdeistref Arfon benderfyniad a fydd yn sicrhau cyflogaeth mewn rhan o'n cymuned leol sydd wedi ei heffeithio'n ddrwg dros y degawdau olaf gan ddirwasgiad. Ar y noson, rhoddwyd cnaaniatâd cynllunio amlinellol i Fenter Fachwen, cynllun cymunedol gyda'r nod o atgyweirio adfail bwthyn Bryn Peris a'i addasu'n weithdy gan ddefnyddio'r tir a'r goedwig o'i amgylch i ddatblygu sgiliau coedwigaeth a sgiliau cefn gwlad i rai sy'n cael anhawsterau i sicrhau cyflogaeth oherwydd eu anghenion arbennig.

Yn wreiddiol, syniad pedwar o drigolion Fachwen, Simon Higgins, Dick Jones, Mary Jones a Karen Wood oedd y brosiect, pan achubwyd y safle rhag ei werthu a'i ddatblygu er budd rhai o'r tu allan i'r ardal. Beth i wneud â'r safle fu'r broblem nesaf? Oherwydd eu cefndir hyfforddiant a'u cefndir gwaith, yn y gwasanaethau cymdetihasol ac ym maes cadwraeth, buan iawn y datblygwyd y syniad o briodi yr elfen o gadwraeth natur, (gan bwysleisio ar gadwraeth coedwig) gyda phroblemau cyflogaeth rhai ag anghenion arbennig. Oherwydd sefyllfa unigryw y safle mewn rhan o goedwig hynafol ar lannau Llyn Padarn ac ar gyrion Parc Gwledig Padarn gwelwyd hyn yn gyfle delfrydol i ehangu gorwelion rhai sy'n aml, yn y gorffennol wedi eu hanwybyddu tra'n datblygu cynlluniau gwaith dychymgus.

'Roeddynt yn awyddus iawn i gael y farn leol ar y posibiliadau o ddatblygu cynllun hyfforddiant a chyflogaeth mewn rheolaeth coedwigaeth a sgiliau cefn gwlad i rai ag anghenion arbennig ac i rai ag anfantais meddyliol yn bennaf.

(PARHAD AR DUDALEN 11)

APÊL

I'r rhai ohonoch sy'n cael benthyg camera'r Eco i dynnu lluniau digwyddiadau yn eich pentrefi. Da chi, gofalwch eich bod yn anfon gwybodaeth inni am y lluniau hynny. Mae wedi digwydd, sawl tro yn ddiweddar, i'r golygyddion dderbyn lluniau heb bwt o eglurhad na dim amdanynt ychwaith yng ngolofnau'r pentrefi. Mae llawer gormod o amser prin yn cael ei wastraffu yn holi a chwilio ar adegau fel hyn.

EISTEDDFODOL

Llongyfarchiadau i bawb yn y fro fu'n cystadlu'n ddiweddar yn eisteddfodau cylch a sir yr Urdd a llongyfarchiadau arbennig i'r rhai ohonoch sydd wedi llwyddo i gyrraedd y profion terfynol yn y Drenewydd ddiwedd Mai.

COFIWCH AM GYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL YR ECO NOS IAU, MAI 5 NEUADD BETHEL AM 7 O'R GLOCH

RHEDEG DROS EI WLAD

Llongyfarchiadau i Colin Maurice Jones, Pontrug sydd wedi ei ddewis i gynrychioli Cymru mewn cystadlaethau rhedeg Traws Gwlad yn yr Alban. Trowch i'r dudalen gefn am ragor o wybodaeth ac i'r dudalen ganol am adwaith ei chwaer, Caroline, i'r newyddion da am ei brawd mawr.

GWYLIWR AR Y GLANNAU



Beth mae'r plismon yn ei wylio o'r coed ar lan y Seiont? Ydy o'n aelod o'r sbesial bransh tybed? (Maddeuwch!) Mae cliw da i'r hyn oedd yn digwydd i'w gael ar yr arwydd 'na uwch ei ben. Trowch i dudalen 7 am fwy o wybodaeth a lluniau.

ECO'R WYDDFA

RHIF 135
EBRILL

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL: Twrog Jones, Pros Kairon, Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-Nant, Pontrhythallt, Llanrug. (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI: Nant Roberts, 'Arwel', Pontrhythallt (870760)

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun (Llanberis 872407)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug. (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: Jonn Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST: Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580.

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel, (Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLEN: W.O.Williams 6 Rhyd fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian. (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir, Llanberis.

LLANRUG: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Tal-y-bont. (Caernarfon 76075)

NANT PERIS: Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrig-y-drudion, Nant Peris. (871327)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU EBRILL 28ain
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH EBRILL 19EG
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

CAIS AM GYMORTH

Annwyl Syr,

Yn dilyn llwyddiant ysgubol cyhoeddi'r Dyddiadur Desg am y tro cyntaf y llynedd, bwriadwn gyhoeddi Dyddiadur Desg 1989 erbyn yr Eisteddfod Genedlaethol eto, eleni. Bydd y Dyddiadur Poced hefyd, wrth gwrs, yn ymddagnos yr un pryd.

Er mywn i'r ddau Ddyddiadur fod mor gywir ag sy'n bosibl erfyniwn am eich cymorth, yn Fudiadau, Cymdeithasau, Papurau Bro ac yn y blaen. Gwnewch yn siŵr fod eich sefydliad chi yn cael ei gynnwys drwy anfon y manylion perthnasol at y cyfeiriad isod erbyn 20 Ebrill 1988.

Byddem hefyd yn gwerthfawrogi beirniadaeth adeiladol ac unrhyw sylwadau a fyddai'n gwneud y ddau Ddyddiadur yn fwy defnyddiol.

Diolch ymlaen llaw i chi am ein helpu i ddarparu dyddiaduron safonol a defnyddiol yn yr iaith Gymraeg.

Meinir Vittle
Y Lolfa
Talybont
Aberystwyth
Dyfed.
SY24 5HE

Apêl y Faner

Fel y gwyddoch , y mae grant Cyngor Celfyddydau Cymru i'r **Faner** *yn dod i ben ddiwedd Mawrth eleni ac yr ydym yn chwilio am ffynonellau ariannol eraill i'n galluogi i barhau gyda'r gwaith pwysig o gyhoeddi'r* **Faner** *yn y dyfodol.*

Am ymron i gan mlynedd a hanner y mae'r **Faner** *wedi brwydro'n gyson dros Gymru, ei hiaith a'i hiawnderau. Pery i wneud hynny heddiw. Y mae ei thraddodiad radicalaidd yr un mor bwysig heddiw ag ydoedd yn nyddiau Thomas Gee ganrif yn ôl.*

Llwyddodd y papurau bro i ddenu miloedd lawer o ddarllenwyr Cymraeg gan brofi bod yna angen deunydd diddorol a pherthnasol yn yr iaith. Yr ydym yn sicr y byddwch o ddarllen y **Faner** *hefyd yn cael blas mawr ar yr hyn sydd gennym i'w gynnig yn wythnosol — deunydd difyr ac amrywiol, rhywbeth at ddant pawb. Y mae'r Faner wedi bod yn gefnogol iawn i'r papurau bro: gwelir pytiau dethol ohonynt yn fisol drwy gyfrnwg tudalen gyfan dan y pennawd* **Bro-dorion.**

Prynwch gopi er mwyn i chi gael gweld beth sydd gennym ar eich cyfer. Yr ydych yn siŵr o gael blas ac fe welwch ar amrantiad ei bod yn werth ei hachub. Darllenwch gopi ac yna tanysgrifiwch. Fe'i cewch drwy'r post yn gyson a phrydlon.

Hafina Clwyd
Golygydd
Gwasg y Sir
Y Bala.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

CYMDEITHAS CYMRY ARIANNIN

Annwyl Syr,

Mae'n sicr y gŵyr llawer o'ch darllenwyr am Gymdeithas Cymry Ariannin gan fod y mynd a dod rhwng y ddwy wlad wedi cynyddu unwaith eto. Cymdeithas sy'n gweithredu'n ganolog yw hon, ond bellach sefydlwyd cangen leol ar gyfer y rhai sy'n byw o fewn cyrraedd i Fangor.

Ein bwriad yw cynnal cyfarfod bob chwarter a bod yn fodd i groesawu ein cyfeillion o'r Wladfa pan ddeuant i'r ardal. Cafwyd cyfarfod agoriadol cynnes a difyr a chynhelir yr ail gyfarfod nos Fercher Mai 18 am 7.30 yn festri Capel Penuel, Lôn y Cariadon, Bangor. Mae croeso i'r sawl sydd â diddordeb ym Mhatagonia ddod i'r cyfarfod hwn a chael gweld drosto'i hun beth yw amcanion y gymdeithas.

Gellir ymaelodi â changen Môn ac Arfon o Gymdeithas Cymry Ariannin drwy anfon tâl aelodaeth o £3 i Robin Roberts, Tyddyn Dylifws, Tynygongl, Ynys Môn.

Yn gywir,
Cathrin Williams
(Ysgrifennydd)
Glandŵr,
Ffordd Cynan,
Porthaethwy,
Ynys Môn.

EISTEDDFOD YR URDD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990

PENTREF YN CYRRAEDD Y NÔD

Mae un o ardaloedd Dyffryn Nantlle ac Arfon sy'n croesawu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i'r fro ym 1990 eisioes wedi cyrraedd y nôd ariannol a roddwyd iddi.

Derbyniodd Pantglas a Bwlchderwin yr her i godi £400, ac o fewn dim o dro roedd yr ardalwyr wedi torchi llewys, a chodi'r arian i gyd. Dyma'r ardal gynta i gyrraedd ei nod ariannol!

Dywedodd Nesta Jones, Nantcyll Ucha', Pantglas; cadeirydd y pwyllgor lleol "Fe aethom ni ati reit sydyn i sefydlu Pwyllgor, a gyda chydweithrediad pawb yn yr ardal yma roeddan ni wedi casglu pedwar cant o bunnau mewn dim o dro".

Dywedodd i'r Pwyllgor drefnu casgliad o gwmpas cartrefi'r fro, derbyniodd y gronfa elw'r Sioe Gŵn leol; a chafwyd noson Calan Gaea', noson o gawl a chystadlaeuthau ar noson y gwrachod. Fe fu Rhys Richards yr actor sydd wedi ymsefydlu'n yr ardal yn chwysu dros yr Urdd. Fe aeth o'n ôl i'w dref enedigol i redeg yn Marathon Llyn Tegid, o gwmpas llyn Y Bala. Cafodd ei noddi'n hael, fe lwyddodd i orffen y ras a chafwyd hwb arall i'r gronfa.

"Cyn i ni wybod, roeddan ni wedi cyrraedd y nôd", meddai Nesta Jones. "Er mai ardal denau ei phoblogaeth ydi hon, mae yma frwdfrydedd mawr, a chafwyd fawr o drafferth i godi'r arian".

Roedd Howel Roberts, Trysorydd yr

FFURFLEN TANYSGRIFIO

Dymunaf danysgrifio i'r

FANER

EBRILL 1, 1988 - MAWRTH 31, 1989

Tanysgrifiad 12 MIS – £40.00
Tanysgrifiad 6 mis – £20.00, Tanysgrifiad 3 mis – £10.00
Tanysgrifiad misol (trwy archeb banc yn unig) £3.50

Gellir defnyddio Archeb Banc i archebu am 3 neu 6 mis yn ogystal)

Enw .....

Cyfeiriad .....

.....

.....

Amgaeaf Siec – Arian Parod £..... am ..... mis

TANYSGRIFIAD – ARCHEB BANC

I Fanc .....Rhif y cyfrif yw.....

Cyfeiriad .....

.....

.....

Byddwch cystal â thalu'r swm o £ .....(neu swm a nodir o dro i dro) pob ..... i Fanc Barclays, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd. Rhif 20-03-61 i gyfrif Y Faner Rhif 60389706 yn dechrau ar y 1af o fis ..... 198... ac wedyn hyd nes y'i dilëir.

Enw .....

Cyfeiriad .....

.....

Llofnod .....

Anfoner y Ffurflen hon i
ADRAN TANYSGRIFIO, Y FANER
GWASG Y SIR, Y BALA, GWYNEDD LL23 7PG

LLYTHYRAU (PARHAD)

Eisteddfod, a rheolwr y Midland yng Nghaernarfon wrth ei fodd. "Mae un neu ddwy o ardaloedd eraill ar fin cyrraedd y nôd, ond Pantglas a Bwlchderwin oedd y cynta y tro yma a phob clod iddyn nhw am hynny", meddai.

Rhydhawyd gan Dei Tomos ar ran Eisteddfod 1990.

Ty'n Twll,
Nant Peris,
Caernarfon,
Gwynedd.
LL554UI
Llanberis: 871250

CASET CYNTAF

Annwyl Syr,

Hoffwn gyflwyno i chi gaset cyntaf Catrin Davies, unawdydd a fagwyd yng nghanol bwrlwm ardal y Preseli, bro hud a lledrith hen chwedloniaeth gyntefig, bro magwrfa bobl annibynnol eu barn ac amryfal ei diwylliant, ac mae traddodiad bro ei mebyd yn drwm ei ddylanwad arni hithau.

Cafodd llais a chanu naturiol Catrin a'i chymeriad cynnes gryn argraff ar feirniaid a chynulleidfaoedd canu gwerin, cerdd dant a chanu ysgafn ledled Cymru. Eisoes mae'n wyneb cyfarwydd ar lwyfannau eisteddfodau a chyngherddau, ac y mae wedi ymddagnos ar nifer o raglenni teledu yn y gorffennol, e.e. Taro Tant, Rhaglen Hywel Gwynfryn, O Fôn i Fynwy, a chyn bo hir fe fyddwn yn ei gweld ar gyfres newydd o Elinor.

Mae'n aelod gweithgar o Aelwyd Crymych a gwelir yr un brwdfrydedd a'i afiaith yn ei gwaith fel athrawes yn Ysgol Beca, yn y capel, yn y gymuned, ac yn ei chanu sy'n gyfuniad o draddodiadau gorau ein cenedl a chanu cyfoes Cymru.

Os oes gennych ddiddordeb mewn archebu'r caset yma, Trwy Dy Lygaid Di (RFAS0028), cysylltwch â'ch Swyddog Dosbarthu Sain agosaf neu cysylltwch â ni yn bersonol ar Aberteifi (0239) 614691.

Fe edrychaf ymlaen i glywed oddi wrthych.

Yr eiddoch yn gywir
Wynford
Cwmni Fflach,
Llys-y-Coed,
Heol Dinbych y Pysgod,
Aberteifi,

AR LWYBR DEDDF NEWYDD I'R IAITH

Annwyl Olygydd,

Ysgrifennaf atoch ar ran Grŵp Statws Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fel rhan o'r ymgyrch dros DDEDDF IAITH NEWYDD. Yn ddiweddartynwyd sylw y Gymdeithas at nifer o gwynion yn erbyn y D.V.L.C., yn arbennig y prinder o ddogfennau dwyieithog a gyhoeddir ganddynt. Yn naturiol teimlwn mai hawl sylfaenol bob Cymro yw cael dogfennau perthnasol yn ein hiaith ein hunain, ac felly galwn ar y D.V.L.C. i weithredu polisi iaith cyflawn a fuasai'n golygu cyhoeddi pob dogfen a ffurflen perthnasol i Gymru yn ddwyieithog.

I'r perwyl hwn yr ydym yn lansio ymgyrch i bwyso ar y D.V.L.C. i weithredu polisi iaith ac apeliwn am gymorth PAWB yn yr ymgyrch bwysig hon. Ein bwriad ar EBRILL 25 yw bod cannoedd o ffurflenni cofrestru cerbyd (sy'n uniaith Saesneg) yn cael eu dychwelyd i'r D.V.L.C. yn Abertawe er mwyn dangos bod barn gyhoeddus gadarn o blaid gweld y D.V.L.C. yn gweithredu polisi iaith cyflawn. Hyderwn y bydd hyn yn gorfodi'r D.V.L.C. i adolygu eu polisi iaith.

Apeliwn atoch felly i bostio eich ffurflen gofrestru cerbyd yn ôl i'r ADRAN DRAFNIDIAETH, DRIVER AND VEHICLE LICENSING CENTRE, LONGVIEW DRIVE, ABERTAWE, GORLLEWIN MORGANNWG erbyn EBRILL 25ain er mwyn dangos eich hanfodlonrwydd ynghylch sefyllfa bresennol yr iaith Gymraeg o fewn y D.V.L.C. Gwerthfawrogwn hefyd pe byddai modd i chi adael i ni wybod yma yn y swyddfa os ydych yn dychwelyd eich ffurflen. Nodwn ei bod yn bwysig iawn bod y Gymdeithas yn cadw cofnod o bob ffurflen a gaiff ei dychwelyd.

Rhan yw hyn o'r ymgyrch dros DDEDDF IAITH NEWYDD — deddf a fuasai'n gorfodi corfforaethau megis y D.V.L.C. i weithredu polisi iaith cyflawn.

Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth.

Dros Gymru,
Alun Llwyd,
Cadeirydd Grŵp Statws
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg,
Pen Roc,
Rhodfa'r Môr,
Aberystwyth.

CEUNANT

Gohebydd: Ifan Parry, Morwel (Waunfawr 321)

PRIODAS RUDDEM: Llongyfarchiadau i mam a dad, Mr a Mrs Roberts Jones, Penhafodlas ar ddathlu eu priodas Ruddem ar Fawrth 21ain oddi wrth Glyn, Sandra, Karen a Paul.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau ichwi am y dyfodol Mr a Mrs R Jones.

DIOLCH: Dymuna Mrs N Jones, Hafodol, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddagnoswyd iddi yn ei phrofedigaeth o golli ei hunig chwaer Mrs Mary Humphreys, Llanrwst.

PENODIAD NEWYDD

Ddiwedd Chwefror penodwyd Dr Dafydd Roberts yn Geidwad Amgueddfa'r Gogledd yn Llanberis. Bydd yn gyfrifol am drefnu a gweinyddu gwaith yr Amgueddfa Genedlaethol yng Ngogledd Cymru.

Ganwyd Dr. Roberts yn Aberporth, Ceredigion ac fe'i addysgwyd yn Ysgol Gyfun Aberteifi ac Ysgol Dyffryn Ogwen Bethesda cyn iddo ddilyn cwrs gradd mewn Hanes yng Ngholeg y Brisfysol, Aberystwyth. Yno hefyd y derbyniodd radd doethur yn 1982 am draethawd yn ymdriñ a hanes cymunedau chwarelyddol Gwynedd rhwng 1911 a 1939.

Bu Dr. Roberts yn gynorthwydd ymchwil yn Adran Amaethyddiaeth a Bywyd Gwledig yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan (1981-1982) ac yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis (1982-88). Ers y llynedd bu'n gyfrifol yn ogystal am weinyddiaeth Oriel Eryri a ail-enwir bellach yn Amgueddfa'r Gogledd.

Bellach bydd Dr. Roberts yn gyfrifol am dair o ganghennau'r Amgueddfa Genedlaethol yng Ngwynedd, sef Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, Amgueddfa Caer Rufeinig Segontiwm ac Amgueddfa'r Gogledd, ynghyd â dwy o Longau Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru, sef Seiont II a Nantlys. Rhagwelir y bydd Amgueddfa'r Gogledd yn datblygu'n sylweddol ac ynddi bwriedir arddagnos nifer o wrthrychau o'r Gogledd a arddagnosir ar hyn o bryd yng Nghaerdydd.

Mae Dr. Roberts, sy'n 32 oed, yn briod ac yn byw yn Nhregarth. Ar wahân i'w waith gyda'r Amgueddfa Genedlaethol, y mae hefyd yn diwtor gyda'r Brisfysgol Agored yng Nghymru.

CYMDEITHAS RHIENI AC ATHRAWON YSGOL BRYNREFAIL

Cynhaliwyd Ffair Wanwyn lwyddiannus iawn yn yr Ysgol, Nos lau 25ain Chwefror a oedd wedi ei threfnu gan Gymdeithas Rieni ac Athrawon yr Ysgol. Gwnaethpwyd elw o dros £500.00 ac fe hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd y noson.

Enillwyr y Raffl fawr oedd:
£50 – Pauline Roberts, Y Bryn, Y Grugan , Groeslon; £25 – Nerys, Cil Coed, Llanberis; £10 – Tammi Jones, 62 Glanffynnon, Llanrug; Torch – mr D W Williams, 26 Hampton Road, Caernarfon. Potel o Baileys Cream – A. Lawrence, Llys Elan, Clegir, Llanberis; Ticed Crwydro K.M.P. – Steven Wroe, Ysgol Brynrefail; Bisgedi – Mrs Megan Roberts, Ysgol Brynrefail.

Enillwyr raffl y noson:
Bocs o ffrwythau – Enid, Llanberis; Potel o Sieri – Aled Robetts, Llanrug; Bocs o siocled, Sioned James, Llanrug; Bocs o siocled – Hefina, Penisarwaen; Potel o Sieri – Aled Griffiths, Bethel.

Am ddyfalu "Pwy oedd y babi", yr enillydd oedd Mared Sutherland.

Enillydd Ynys y Trysor oedd Mrs Vera Griffiths, Llanberis.

PLAID CYMRU
CANGEN LLANRUG A'R CYLCH
FFAIR WANWYN
yn yr Ysgol Gynradd
Nos Fercher Ebrill 13
am 7 o'r gloch
GYDA MARI GWILYM
GEMAU, STONDINAU, RAFFL
PANED A SGWRS
25c a 10c(Plant)
CROESO CYNNES I BAWB

E.W.Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

BILL ac EILEEN GRIFFITHS

Antiques
Ivy Cottage
BETHEL
Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU
Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir

YMGYRCH Y SGANIWR: Noson arbennig yn hanes ymgyrch Llanberis tuag at Gronfa y Sganiwr Ysbyty Gwynedd oedd Nos Fawrth, Rhagfyr 15fed. Dyma'r noson pryd y cyfarfu Mr J.H. Hughes (Cadeirydd y Pwyllgor lleol) a Mrs Heather Jones (Ysgrifennydd) â Dr. Jim Davies yn Swyddfa'r Ymgyrch yn Ysbyty Gwynedd, i gyflwyno siec o £2,629.96c i Dr Davies, sef y gweddill o'r arian a gasglwyd yn yr ardal. Ni allai Mr W Roberts (Trysorydd) fod yn bresennol oherwydd gwaeledd.

Y nôd a roddwyd i Lanberis gan gynnwys Nant Peris, oedd £6,000. Gwnaed Ymgyrch llwyddiannus iawn gan drigolion Nant Peris a chasglwyd y swm o £2,270 yn y pentref.

Bu Llanberis hefyd yn weithgar iawn a chasglwyd y swm o £6,035.57c gan drigolion y pentref.

Do aed tros y nôd gan i'r cyfanswm a gasglwyd gan y ddwy ardal gyrraedd y swm anrhydeddus o £8,305.57c.

Cydnabyddir y llwyddiant hwn i'r gwahanol fudiadau a weithiodd yn dawel a diwyd yn ystod cyfnod yr ymgyrch, a mawr yw gwerthfawrogiad y Pwyllgor lleol ac hefyd Dr Jim Davies i'r rhai hynny a fu'n llafurio yn gyson drwy'r misoedd.

Agorwyd y Gronfa Leol pan y cyflwynwyd siec o £400 ar ran ysgol Dolbadarn gan Mr J.H. Hughes (Prifathro ar y pryd). Ysgol Dolbadarn oedd yr ysgol gyntaf yng Ngwynedd i gyfrannau i Apêl y Sganiwr.

Rhaid hefyd yw cydnabod caredigrwydd teuluoedd a fu mewn profedigaethau, gan ddiolch iddynt am gyfraniadau er cof am annwyliaid.

Mae ymgyrch Llanberis wedi dod i ben â'r gwaith wedi ei gyflawni. Erbyn hyn y mae coffrau cyffredinol yr Apêl bron yn filiwn o bunnoedd ac yn sicr bydd tros y swm enfawr hwn wedi ei gasglu cyn Mawrth y flwyddyn nesaf. Bydd digon o gyfalaf i bwrcasu'r peiriant, ai gartrefu mewn ystafell addas, ac hefyd i'w gynnal am ddeng mlynedd.

Drwy gyfrwng yr holl ymdrechion a chyfraniadau caredigion eraill, yn ogystal a gweledigaeth Dr Jim Davies, a'i lafur diflino ef a'i staff, achubir bywydau a gochelir llawer o loes a phoen yng Ngwynedd.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror yng Ngwesty Padarn Lake, lle buom yn dathlu Gŵyl Ddewi. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Hannah Jones a darllewnyd y cofnodion a'u harwyddo. Diolchwyd i Mrs Glenys Jones a Mrs Helen Morris am drefnu'r Cinio. Dymunwyd gwellhad buan i Mrs Lizzie Jones sydd yn yr ysbyty.

Ar ôl gwledd ardderchog croesawyd Mr John Hugh Hughes, a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn ar gyfieithu y Beibl i'r Gymraeg gan Esgob William Morgan yn 1588. Diolchwyd i Mr Hughes gan Mrs Jan Davies a Mrs Dilys Jones.

YMDDEOL: Estynnir dymuniadau gorau i Mr Selwyn Pritchard, Madryn, a ymddeolodd ar Chwefror 29 fel Dirprwy Bennaeth Ysgol Dolbadarn, Llanberis. Bu'n gwasanaethu yn yr ysgol am ugain mlynedd. Ar ôl gadael y Coleg Normal ym 1960, bu Mr Pritchard yn athro ysgol ym Mwcle Clwyd, am dymor, cyn cael ei wahodd i fod yn athro dosbarth ysgoloriaeth yn Ysgol Gymraeg Dewi Sant, Y Rhyl, am saith mlynedd. Fe'i apwyntiwyd yn athro ar Safon 4, ysgol Dolbadarn, yn 1968, a'r flwyddyn ganlynol fe'i penodwyd yn Ddirprwy Bennaeth yr ysgol. Dymunwn iddo bob iechyd a hapusrwydd i'r dyfodol a diolchwn yn gynnes am ei wasanaeth.

PERSONOL: Dymuna Mr Selwyn Pritchard, Madryn, Stryd Newton, ddiolch o galon i blant, athrawon a staff y gegin, Ysgol Dolbadarn, am eu rhodd iddo ar achlysur ei ymddeoliad. Diolch hefyd i gyfeillion a chyn-ddisgbylion am eu cardiau , rhoddion a dymuniadau da.

MARWOLAETH: Roedd yn ddrwg iawn gennym glywed am farwolaeth Mr Twm Ifor Price, 8 Strys Siarlot, ar y 17eg Ionawr yn dawel yn ysbyty Gwynedd. Yr oedd yn hynod o boblogaidd yn y pentref ac yn gymwynasgar dros ben gyda'i gymdogion a'i ffrindiau. Fe'i ganwyd a'i magwyd yn Llanberis a gweithiodd yn y chwarel am rai blynyddoedd ac wedyn bu'n gweithio gyda Manweb.

Dymuna Ruby a theulu'r diweddar Thomas Ifor Price, 8 Stryd Siarlot, ddatgan eu diolchgarwch am y caredigrwydd a ddagnoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch am y cardiau, llythyrau a'r cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at y Sganiwr. Diolch hefyd i'r meddyg teulu a meddygon a staff Ward Gogarth, Ysbyty Gwynedd. Diolch i'r Parch Gwynfor Williams am ei wasanaeth ac i Mr Myrddin Pritchard am drefnu'r angladd.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i'r rhai canlynol sydd yn yr ysbyty wedi dychwelwyd adref neu yn glaf yn eu cartrefi: Mrs Vera Hughes, Siop Chips Stryd Fawr; Richard Owen, 8 Rhes Victoria; Iorwerth Jones, Pant Du; Mrs Annie B Jones, Ffordd Capel Coch; Mrs Enid Roberts, Maes Padarn; Mrs Mary G Pritchard, Styrd Turner; Miss Rhiannon Pritchard, Stryd Newton; Miss Lliwen Huws, Stryd Tomos, Anwen merch fach Carys a Keith Williams, Bryn Celyn, Rallt Goch; Gareth Foulkes, Maes Padarn; Mr Thomas Owen Thomas, Maes Padarn; Neil Owen, Stryd yr Wyddfa; Mrs Lissie Jones, Coed; Mrs Margaret Jones (Formag) Llainwen; Nigel Roberts, Becws Eryri, Mr Teddy Williams, Llain Wen; Mr Gareth Joned, Coed y Glyn:

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn â Nerys Roberts, Y Bistro a'r teulu yn ei phrofedigaeth o golli ei thad.

Mrs Megan Owen, Maureen a John, a Mrs Lowri Davies a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid a brawd sef Mr Griffith Evan Owen (Guto Bryn Bedw), 59 Maes Padarn.

Mr Robert Jones, Nancy a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli priod, mam a nain sef Mrs Annie Mary Jones, 31 Stryd Newton.

LLONGYFARCHIADAU: Llongyfarchiadau i'r canlynol ar achlysur eu penblwydd yn ddeunaw oed yn ystod y mis: Alison Edwards, Maes Padarn, Darren Price (Padarn Cabs) Pen Bont, Belinda Griffiths, Summer Hill, hefyd Nicola Thomas, Llain Wen ar achlysur eu penblwydd yn ddeunaw oed. Dymuniadau gorau hefyd i Mrs Annie Jones Dol Eilian ar ei phenblwydd yn 80 yn ddiweddar.

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Whitiker, Stryd Newton ar enedigaeth eu merch fach.

Heather a John Gwynedd Jones, Stryd y Ffynnon ar enedigaeth eu merch fach Elin Mai.

Ann a Ken Huws Siop y Glorian ar enedigaeth eu merch fach Carys Wyn.

Rhian (Parry) a Sion ar enedigaeth eu mab bach, hefyd ei brawd Iwan a Menna ar enedigaeth eu merch fach hwythau Sioned.

ac i Merfyn (Allsup) a'i wraig ar enedigaeth eu mab bach.

BINGO; Cafwyd noson bingo llwyddiannus yng Ngwesty Gwynedd mis diwethaf tuag at Ymchwil Clefyd y Siwgwr, pryd y gwnaed elw o £162. Dymuna Mrs Carys Hughes ddiolch o galon i'w ffrindiau am y rhoddion tuag at y Raffl a'r gwobrau ac i bawb am eu cyfraniad a wnaeth y noson yn un mor llwyddiannus. Diolch o galon.

WU SHU KWAN: (CHINESE BOXING) Llongyfarchiadau i Amanda Ward am lwyddo i basio ei Belt Du gyda Wu Shu Kwan, yn Llundain yn ddiweddar. Cafodd y marciau uchaf allan o'r holl gystadleuwyr, oddi wrth mam, Graham, a Tim a'r teulu oll.

Llongyfarchadau i Melanie Sellars am basio ei hail 'Felt Glas'. Bydd yn trio am ei 4ydd belt yn ystod mis Ebrill neu Fai.

PRIODAS ARIAN: Dymuniadau da i mam a dad, sef Bobi a Lorna Owen, Dol Elidir ar achlysur eu priodas Arian ar Mawrth 31, oddi wrth Pat, Stephen, Yvonne a Colin.

PRIODI: Llongyfarchiadau i Graham Hare a June Guy ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

DIOLCHIADAU: Dymuna Elwyn a Sandra ddiolch yn fawr iawn i'w teulu, ffrindiau cymdogion am y llu o garidau, anrhegion a dymuniadau gorau a dderbyniwyd ar achlysur eu dyweddïad. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Mrs Enid Lloyd Roberts, 56 Maes Padarn, ddiolch o galon i bawb am y cardiau, anrhegion a blodau a dderbyniodd tra yn ysbyty Gwynedd yn ddiweddar ac ar ôl iddi ddod adref.

Anfonwyd y llun yma i'r Eco gan Mr Keith Roberts, Dol Elidir, Llanberis. Ei dad sydd ar un benglin ar y dde yn y llun. Os oes rhywun yn adnabod rhai o'rhogiau eraill efallai y carech anfon atom erbyn y rhifyn nesaf.

DECHRAU CANU DECHRAU CANMOL

GWAHODDIAD

Byddai cynhyrchydd y rhaglen uchod yn hoffi clywed gan unrhyw Gapel, Eglwys neu sefydliad arall fyddai'n dymuno gwahodd y camerau teledu i recordio'rrhaglen boblogaidd ym ayn eu hardal. Os gwelwch yn dda, a fyddai unrhyw rai â diddordeb yn cysylltu'n union â:

"Dechrau Canu Dechrau Canmol",
BBC CYMRU (Gabalfa), Llandâf, Caerdydd. CF5 2YQ

HOFF EMYN – EICH DEWIS CHI!

Hefyd os dymunwch glywed eich hoff emyn ar y rhaglen a fyddwch gystal â chysylltu â'r un cyfeiriad cyn gynted ag y bo modd.

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

* Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

W.H. JONES
TRYDANWR
Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS
FFÔN:
LLANBERIS 871470
Contractau
Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

LLANBERIS – parhad

Dymuna Enid, Delfryn, Ffordd Capel Coch, ddiolch o galon i bawb am bob caredigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch hefyd i feddygon a staff Ward Ogwen, Ysbyty Gwynedd.

Dymuna Mrs A B Jones , Y Dreflan, Capel Coch Road, ddiolch o galon i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati yn dilyn ei thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Dymuna Ken, Eryl, Karen (K.M.P.) ddiolch yn ddiffuant i berthnasau, teulu, cymdogion a ffrindiau ardal Llanberis a'r cylch , a thref Caernarfon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddagnoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mab a wyr Jonathan Wyn. Diolch am y llu o alwadau ffôn, cardiau a blodau, hefyd am y swm enfawr o £500 a dderbyniwyd tuag at Ysbyty Plant, Great Ormond St. Llundain. Mawr ddiolch i'r meddygon teulu Dr Williams a Dr Roberts, Waunfawr am eu gofal a'u parodrwydd ac hefyd Y Parch Alun Hawkins a'r Parch Gwynfor Williams am eu gwasanaeth. Diolch hefyd i Mr Myrddin Pritchard a Gwynfor am y trefniadau.

Dymuna Mrs Lizzie Jones, Eithinog, Coed, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a chyfeillion oll am y llu cardiau ac anrhegion a gafodd tra yn ysbyty Gwynedd ac hefyd am eu ffyddlondeb ar ôl iddi ddod adref.

Dymuna Neil Owen, Stryd yr Wyddfa, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ato tra yn ysbyty Gwynedd.

Dymuna Alison Edwards, Maes Padarn ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a dymuniadau da a ddangoswyd tuag ati ar achlysur ei phenblwydd yn ddeunaw oed.

"Dyma blant Capel Coch a gafodd gopi o'r Beibl Cymraeg Newydd, fore Sul, Mawrth 6ed. Cyflwynwyd y Beiblau er cof am y diweddar Mr John Samuel Thomas. Derbyniodd 45 o blant Feibl."

Ysgol Dolbadarn Llanberis?
Anfonwyd y lluniau gan Mair Davies, Corby. Doed dim enwau na dyddiad i'r un ohonynt. Oes rhywun yn eu hadnabod?

LLONGYFARCHIADAU: i Mrs Margaret Davies a fydd yn gant oed ar Ebrill 7fed. Ganwyd hi yn 10 Stryd yr Wyddfa, a bu'n byw yn Hafod Uchaf am drigain mlynedd cyn symud yn ôl i'w hen gartref. Bellach, mae'n ymgartrefu yng Nghaerdydd gyda'i hunig ferch, Marie. Llongyfarchion a chariad oddi wrth ei dwy chwaer, Ellen ac Esther, ac oddi wrth y teulu a'r ffrindiau oll yn Llanberis.

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Geraint, Erw Wen, Caernarfon.

HANES Y PENTREF: Cynhelir cyfarfod o Gymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa yn Festri Caeathro nos Fercher, 20ed Ebrill 1988. Amcan y noson yw casglu gwybodaeth a chreu ymwybodaeth o hanes y pentref. Ar wahan i gyfraniadau wedi eu paratoi ymlaen llaw gan unigolion o'r pentref bydd cyfle i bentrefwyr eraill ddangos hen luniau, mapiau, toriadau o bapurau newydd neu sôn amhen atgofion o'r pentref. Does dim rhaid bod yn aelod o'r Gymdeithas Hanes o gwbl. Bydd y noson arbennig hon yn gyfle gwych i gofio am yr ysgol bach, y plasdai, dechreuad y capel, mynd a dod ers talwm. Hefyd bydd arddangosfa o hen ddogfennau a lluniau.
Croeso i bawb.

CLWB GER Y TAN: Bu'r ddwy noson ddiwethaf dan ofal Mrs Manon Hughes. Cafwyd noson ddiddorol ym mis Ionawr ger y tân yn Nhy Mawr, yng nghwmni Mr Rol Williams, Waunfawr. Ar ddechrau Mawrth cafwyd noson Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r 'Black Boy'. Bydd y cyfarfod nesaf ddiwedd Ebrill yn 'Delfryn'.

CYDYMDEIMLAD: Fel pentrefwyr, cydymdeimlwn â Mr Eeley, Tŷ Newydd, ar farwolaeth sydyn ei wraig yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU: i John a Eirlys Pritchard, 8 Bryn Gôfar ddathlu eu priodasruddem yn ddiweddar.

I Ann Hughes, 7 Erw Wen a Iolo Roberts, 11 Erw Wen ar basio'u profion gyrru yn ddiweddar.

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR: Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir am bris i godi daugoleuad strydychwanegol ar yr hen lôn rhwng Cefn y Sof a Bryn Mawr. Doedd dim gwrthwynebiad i gais gan MANWEB i newid y lein trydan ger Cae Mawr. Bydd y Cyngor Cymuned yn cyfarfod yn y festri nos Fawrth 17 Mai a nos Lun 20 Mehefin a bydd croeso i etholwyr y pentref i fynychu'r cyfarfod. Atgoffir y pentrefwyr fod cyfleusterau Y Ganolfan yn y Waunfawr ar gael i bobl Caeathro, yncynnwys y mat bowlio o dan do newydd ar gyfer y Clwb Bowlio. Ceisir cael Syrfewr y Sir i lanhau'r arwyddion 'Caeathro' ar bob pen y pentref, creu pafin rhwng y Capel a Garais Gwalia a glanhau y gylis rhwng yr Hen Bost a'r hen Eglwys. Bydd Antur Waunfawr yn trwsio sedd y pentref cyn Sulgwyn. Gyda'r sôn am ail agor yr hen bost fel siop, pwysleisiodd yr aelodau bydd yn rhaid ceisio eto i atal parcio ar y gongl.

Merched . . .
Dynion . . .
Plant . . .
I gael trin eich gwallt yn eich cartref cysylltwch â
SIAN
MAIRANNEDD
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5366

J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol, Cerrig o bob math ar gael.
Ffôn: Caernarfon 2898 (dydd)
Y Felinheli 670124 (nos)

WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU, FFENSYS AC ATI AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI GWAIR
E. PUGH
WELDING & FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

Cledwyn Williams, Llanrug yn

COFIO TEULU'R "BUSH"

Mae hanes yn y cyhoeddiad diweddaraf o 'Eco'r Wyddfa' am ddamwain a ddigwyddodd yn Chwarel Dinorwig, yn 1908. Anafwyd dau bartner yn ddifrifol; – Roland G. Thomas o Gwm-y-Glo, ac Edward Jones o Fethel. Cafodd Roland Thomas "Compound Fracture of the Skull" a bu'n rhaid torri dwy fraich Edward Jones i ffwrdd. Cyflawnodd Meddyg y Chwarel wyrth ar Roland Thomas, yn ysbyty'r Chwarel, a oedd yn gyntefig iawn o'i chymharu ag adnoddau cyfoes, gosododd 'blat arian' ym mhen Roland Thomas. Bu'r llawfeddygaeth yn llwyddiant mawr, ail afaelodd yn ei waith yn y chwarel, a bu yn aelod o'r Lluoedd Arfog yn ystod y Rhyfel Byd cyntaf. Y meddyg oedd y Dr. Molls Roberts, Golgeidwad Preston North End yn 1889, pan lwyddwyd i gipio pencampwriaeth yr Adran Gynta heb golli yr un gêm, a'r Cwpan, heb i'r bêl fynd i'r rhwyd o gwbl. Gofynir yn yr adroddiad yn Eco'r Wyddfa, ai tybed fod disgynyddion i Edward Jones yn byw yn y cylch o hyd.

Mab i fferm y 'Bush' ar gyrion y Felinheli, oedd Edward Jones. Hen Dŷ Tafarn yn fwy na thebyg oedd y 'Bush' gan fod y gair yn arwydd unigryw o sefydliad o'r fath. Roedd y teulu, amaethwyr cefnog a galluog, wedi bod yno ers cenedlaethau. Fel llawer o feibion ffermydd, i'r Chwarel yr aeth Edward Jones.

Roedd gan Edward Jones dri o blant; Matie y ferch hyna' mab o'r enw Edward – Teddy, i'r teulu – a merch iau.

Gweithiai Katie ymhell o'r fro, cyn y ddamwain, ond bu'n rhaid iddi ddychwelyd adra, ar fyrder, i warchod y cartre, ac i edrych ar ôl ei thad. 'Roedd yn ofynnol iddi i wneud popeth drosto, gan ei fod yn hollol ddiymadferth. Cysegrodd Katie ei holl fywyd i wasanaethu, a gwarchod buddiannau ei thad.

Aeth Teddy i weithio i un o gwmniau'r Llynges Fasnach yn Hull, a buan y daeth i swydd o gyfrifoldeb. Anrhydeddwyd Teddy â'r O.B.E. gan y Brenin Sior VI. Priododd â geneth o Ddeiniolen, ond bu farw ei wraig yn weddol gynnar, ac ail briododd â merch o gyffiniau Hull. Deallaf y bydd ei blant yn dod i'r fro yn aml, ac mae lle i gredu fod un o'i feibion wedi bod a'i lygaid ar un o gyn gartrefi fy nheulu i, yn lled ddiweddar.

Gan fod cymaint o gyfrifoldeb ar Katie, a hithau ond yn ifanc, mabwysiadwyd y ferch 'fenga gan farsiandiwr cyfoethog o Warrington, a chafodd ei magu fel 'chwaer' i un o lawfeddygon amlycaf Dinas Lerpwl; Mr W.R. Williams o Ysbyty'r Southern. Roedd hi'n byw, yn briod, cyn y Rhyfel, yng nghyffinaiu Allerton, Lerpwl, ac 'rwy'n gwybod fod ganddi blant.

Wedi i Edward Jones farw, bu Katie yn byw ar ben ei hun, yn y cartre. Byw o dan yr unto ag Owen Gruffydd, cefnder i'r Athro W.J. Gruffydd. Ei wraig o deulu y Closiaid Nant Peris. Roedd dolen gydiol rhwng ei theulu a Syr John Rhys, athro Celteg, a chyn Brifathro Coleg yr Iesu, Rhydychen.

Yn ystod y blynyddoedd cynnar yma, ac i fyny i'r tridegau, roedd gŵr cringoch yn byw yn un o'r pentrefi cyfagos. Fel cymeriad, roedd hyd yn oed sôn am ei enw, neu fod ei gysgod wedi ei weld o fewn milltiroedd yn peri ofn, poen a braw ar ferched y broydd. O brofiad, 'roedd cyfiawnhad llwyr am yr arswyd yma.

Roedd Katie yn canlyn fy nghefnder, John. John Gruffydd Bodwyn i bobl Bethel. Pen Balenor, ar un adeg, yng Nghapel yr Annibynwyr.

Un noswaith, a Katie wedi bod yn cydgerdded â John, am bentref Bethel o'i chartref yn 'Penrhos' – ffarweliodd, a throi yn ôl am y tŷ. Roedd yn amser iddi i fynd i'w gwely. Wedi tacluso'r tŷ, aeth am ei hystafell wely – y siambr – ac er mawr fraw iddi, pwy a welodd yn sefyll yng nghornel yr ystafell, ond y 'gŵr cringoch'. Safodd Katie, megis mewn parlys. 'Roedd y gŵr wedi torri i mewn i'r tŷ, wedi i Katie a John fynd i fyny'r ffordd, gan y gwyddai y dychwelai Katie, ar ei ben ei hun, ac yn hollol ddi-amddiffyn. Roedd wedi gwneud paratoadau manwl i ymosod arni.

Ar amrant, ymosododd arni yn ffyrnig, a di-drugaredd. Trwy rin Dwyfol cafodd Katie nerth i amddiffyn ei hunan. Yn ystod *eiliadau o ryddid, curodd ar y pared* rhyngddi a'i chymydog er cael cymorth a gwaredigaeth. 'Roedd y curo a'r ymbiliau yn rhy egwan iddynt glywed. Dyna wyrth arall – nid oes modd arall i ddisgrifio'r ddihangfa – llwyddodd i ddianc o'i grafangau. Rhuthrodd am y drws ffrynt, a gwneud hynny gydag arswyd, gan y gwyddai yn dda y cawsai drafferth ac anhawster i'w agor bob amser. Atebwyd ei gweddiau; agorodd y drws yn rhwydd. Rhedodd Katie i dŷ cymydog, gyferbyn a derbyn noddfa a lloches.

'Roedd y 'cringoch' yn y tŷ o hyd. Pwy tybed, o'r dreflan oedd am fynd i wynebu y cringoch yn ei gynddaredd. Roedd gwirfoddolwyr yn barod, yn hollol ddidrafferth, a dewisiwyd dau o ddynion cyfrifol dros ben. Huw Morris; Tyddynnwr a Chwarelwr, gŵr cydnerth a chyhyrog, distaw a mwyn o'i anian; Huw Huws; ffarmwr gewynnog o'r 'Greuo'.

Aeth y ddau i'r tŷ, yn ddigon hyderus, ac yn ddigon sicr o fedru trechu'r 'cringoch' a phe bai angen, ei lyfetheirio. Tra'n disgwyl y tri i ddychwelyd o'r tŷ, 'roedd y distawrwydd ymysg y dyrfa fechan o'r tu allan yn llethol; pawb ofn yngan gair.

Daeth Huw Huws a Huw Morris yn ôl drwy'r drws, Huw Huws yn arwain, a thraethodd ddatganiad syfrdanol. Roedd y ddau wedi mynd i'r ystafell wely ar unwaith, ac er mawr syndod iddynt, cawsant y 'cringch' ar lawr yr ystafell yn gwaedu fel mochyn; roedd wedi torri ei wddf â rasal. Fe'i ymgeleddwyd cystal ag oedd dichon. Yn y cyfamser aethwyd i gyrchu'r Dr. Henry Edwards o'r Felinheli (taid y Dr. Owen o Gaernarfon, a'r Dr Harry Edwards Ysbyty Gwynedd). O weld y 'cringoch' a'r difrod a wnaeth ar ei hun, a'r anfadwaith a oedd yn bendant wedi ei drefnu i wneud ar Katie, sibrydodd y Meddyg eiriau o ddoethineb, rhwng ei ddannedd, a fuasai wedi gwneud cyfiawnder â'r brenin Solomon ar ei orau; 'Biti ar y Diawl na fuasat wedi ti wedi ei darfod hi' Pen Blaenor Bryn Menai, na fyddai byth yn rhegi; ond roedd y sefyllfa yn drech hyd yn oed na'r Meddyg mwyn. 'Pam, tybed', gofynnodd y Meddyg, 'y trefnodd i ddod a rasal gydag ef?'

Yn y man dedfrydwyd y 'cringoch' i benyd o garchar – llafur caled – ac am gyfnod, ond dim ond am gyfnod yn unig, y daeth gwaredigaeth i'r fro. Daeth y 'cringoch' i droedio ffyrdd y cylch unwaith yn rhagor, ac 'rwy'n cofio'n dda, 'roedd sibrwd ei enw yn unig yn taenu arswyd, a chodi ofn a braw ar y broydd.

John Jones oedd y brawd a arhosodd gartre i ffermio'r 'Bush' – gŵr oedd yn meddu ar allu anianol mwy na'r cyffredin. Bu John Huws, cyn yrrwr y Crosville, genedigol o Frynsiencyn, ond yn byw yng Nghaernarfon ers blynyddoedd, yn 'Canlyn Ceffylau' yn y 'Bush' a dyna'r lle, a'r meistr gorau a gafodd erioed.

Aeth David, mab arall y 'Bush', i weithio i Lerpwl, yn fachgen lled ifanc. Gwelodd hysbyseb yn y papur newydd yn gofyn am Junior Clerk yn yr Elder Dempster Shipping company. Ymgeisiodd amdani, a chafodd gyfweliad, ymysg llawer o fechgyn eraill am y swydd. Cawsant eu holi, yn unigol, i ganfod eu cymwysterau, a'r cwestiwn olaf a gafodd pob un oedd; 'If you were appointed to this post, when would you be prepared to commence?" 'Roedd rhai eisiau wythnos o wyliau, eraill am ddechrau y Llun canlynol, ond dyma ateb David Jones; "If you are prepared to appoint me, then I shall start right now" Yr ateb oedd; "The job is yours lad".

Dechreuodd David Jones y 'Bush' ar y gris isaf, ond cymaint oedd ei allu cynhenid, a'i gymhelliad naturiol i lwyddo, fel y cyrhaeddodd y brig; "Managing Director of the Elder Dempster Shipping company".

Rai blynyddoedd yn ôl, cyflwynodd disgynyddion David Jones, rodd i Eglwys y Santes Fair, Llanfairisgaer, uwchben y Fenai, fel coffadwiriaeth i'w hynafiaid, a arferent gerdded am genedlaethau lawer yr holl ffordd o'r Bush i'r Eglwys hynafol i addoli.

Priododd Katie gyda John fy nghefnder. Mae adlais o gyd-ddigwyddiad trist yma, gan i dad John, gŵr fy modryb Anne, golli ei fywyd yn Chwarel y Glyn, Llanberis, yn 1910. Collodd ei afael ar y rhaff, a syrthiodd i farwolaeth, i lawr y clogwyn.

Dim ond o ddiddordeb yn unig; digwyddodd daeargryn o sylwedd yn yr ardal y bore hwnnw. 'Roedd hi'n ddiwrnod 'Y Scholarship', ysgytwyd 'Ysgol Brynrefail' at ei sylfeini, gan achosi cyn bryder a dychryn i'r plant oedd yn eistedd yr arholiad.

'Rwy'n berffaith sicr nad oes ddisgynyddion i Edward Jones, na 'run o'i deulu yn byw ym Methel ar hyn o bryd.

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser gan
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.

TACSIS
WEBB
22 BRYNTIRION PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 870145
Gwasanaeth 24 awr – pell ac agos
Gwasanaeth Maes Awyr
a Phorthladd
Gwaith Contract

PWY BIAU'R SEIONT?

Dyma'r cwestiwn y ceisiwyd ei ateb ddydd Sadwrn, Mawrth 12fed pan ddaeth tua 60 o ganŵyr o bob rhan o Brydain i ddangos eu teimladau trwy ganŵio i lawr yr afon Seiont o Lyn Padarn i Gaernarfon. Roeddynt yn aelodau o "CRACK" – Cymdeithas sy'n mynnu hawliau canŵs a kayaks ar afonydd.

Roedd y Gymdeithas Bysgota leol hefyd am ddangos cryfder eu teimladau (mae datganiad swyddogol ganddynt ar y dudalen gefn) ac yn gwrthwynebu honiadCRACK fod hawl ganddynt i ddefnyddio'r afon ar unrhyw adeg.

Daeth y gwrthdaro i ben ym Mhont Crawia, pan orfodwyd y rhan fwyaf o'r canŵyr i ddringo dros y bont. Roedd yr heddlu'n bresennol i gadw golwg ar y digwyddiadau.

1

Arweinydd CRACK yn annerch yn canŵyr cyn cychwyn am Lanberis.

2



Y llif estron yn cychwyn ar eu taith o Lyn Padarn.

3

Y rhwystrau cyntaf ym Mhontrhythallt. Criw y canŵs yn hel at ei gilydd.

4

Cerdded a llusgo dan yr hen bont.

BRWYDR PONT CRAWIA

5

"Does dim ffordd trwodd" meddai'r wal o bysgotwyr.

6



"Wel, drosodd â ni" oedd ateb y canŵyr.

7

Ac ymlaen am Gaernarfon.

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W O Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

CYFARFOD CYHOEDDUS: Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd y Ganolfan am 7.15 p.m. Nos Fercher Ebrill 13. Yn y Cyfarfod byddwn yn trafod y gwelliannau diweddar a gyflawnwyd gan Gyngor Bwrdeistref Arfon i amgylchedd y pentref. Bydd ail hanner y Cyfarfod yn cael ei neilltuo yn arbennig i ystyried ymhellach y galw am Ganolfan Aml Bwrpas i'r pentref. Hyderir y bydd pobl ifanc y pentref yn presenoli eu hunain yn y cyfarfod hwn, a phwyswn yn wir ar bob haenen o'r pentrefwyr i wneud ymdrech i ddod i'r cyfarfod. Byddai'n dda pe llwyddai gwahanol fudiadau'r pentref i gymryd y cyfle i ddod i benderfyniad ar y mater, gan sicrhau cynrychiolydd i fynegi'r farn honno yn y Cyfarfod.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD 1990: Mae'r Pwyllgor Apêl Lleol yn brysur ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer cynnal cystadleuaeth Brenhines y Bryniau. Disgwylir oddeutu hanner cant o Frenhinesau o ardaloedd yng Ngogledd Cymru, ynghyd ag eraill o Loegr i gystadlu am y tlysau a gynigir gan y Pwyllgor. Cynhelir y gystadleuaeth yng Ngholeg Glynllifon, am bump o'r gloch, nos Sadwrn, 9fed o Ebrill. Disgwylir i feirniadu, John Ogwen a Maureen Rhys, Arwel (Hogiau'r Wyddfa), ac Einir Wyn (Rhiwlas). Cyfrennir eitemau ysgafn rhwng y cystadlaethau gan aelodau o Seindorf Arian Deiniolen, Edward Morris Jones, Porthaethwy ac eraill a daw y cystadlu i ben tua hanner awr wedi wyth. Bydd Gerddi'r Plas yn gwisgo lifrau'r Gwanwyn erbyn hynny, felly os am noson o fwyniant pur, a chyfle i fwynhau awyrgylch arbennig Glynllifon a hynny am dal mynediad o £1 i oedolion a 50c i blant, nodwch y dyddiad a chofiwch ddod a'ch ffrindiau i'ch canlyn. Bydd lluniaeth ysgafn yn cael ei werthu'n rhad, rafflau a stondinau, stondin arbennig i werthu nwyddau'r Urdd. Bydd pobl o bob cwr o'r wlad yno, gofalwn y bydd carfan dda o Ddeiniolen yn eu mysg.

CYNGOR EGLWYSI DEINIOLEN: Roedd y Sul, 6ed Mawrth yn un cofiadwy iawn i addolwyr Deiniolen. Bu Cyngor Eglwysi'r pentref yn trefnu oedfaon arbennig i ddathlu cyhoeddi'r Beibl Cymraeg newydd. Cynhaliwyd tair oedfa'r dydd yng nghapel Ebeneser. Oedfa Gymun gafwyd yn y bore gyda chynrychiolwyr o wahanol Eglwysi'r pentref yn cynorthwyo'r Parchg. Trefor Lewis i rannau'r elfennau. Dewisodd Mr Lewis bennod 53 o Lyfr y Proffwyd Eseia fel ei ddarlleniad cyhoeddus cyntaf allan o'r cyfieithiad newydd. Y plant oedd piau cyfarfod y prynhawn, roedd trigain ohonynt wedi eu ffurfio'n gôr i glodfori'r beibl (gwelir y llun). Cafwyd gandynt gyflwyniadau yn dangos yr Esgob William Morgan yn ymlafnio i gyfieithu Beibl 1588, adfer golwg Bartimeus ddall, a glanhau Naman y Syriad o'r gwahanglwyf. Lleisiwyd diolch diffuant i'r plant a'u hyffrddwyr am oedfa raenus, a braint yn wir oedd cael bod rhan ohoni. Thema oedfa'r hwyr oedd Duw a lefarodd wrth ei bobl. Unwaith yn rhagor cafwyd cynulliad da, ac roedd arddeliad amlwg ar y moli, ac ar y cyfraniadau unigol yn sôn trwy ddarlleniadau ac anerchiadau byrion am Dduw yn siarad yn y Greadigaeth; yn y Gyfraith; trwy'r Porffwydi; ac yn Iesu Grist. Fel y dywedwyd ar ddechrau'r nodyn hwn – Sul cofiadwy, parhaed y cyd-ddyheu a'r cydweithio rhwng yr Eglwysi.

Estynnir gwahoddiad cynnes i bawb i'r oedfa undebol nesaf sydd i'w chynnal yn Festri Disgwylfa, am saith o'r gloch, nos Iau, 31ain Mawrth, (Nos Iau Cablyd). Gweinyddir y Cymun yn yr oedfa honno.

EGLWYS LIBANUS: Mewn gwasanaeth arbennig yn Eglwys Libanus, pnawn sul, 20 Mawrth, neilltuwyd amser i gydanbod cyfraniad clodwiw y brawd John Emrys Morris, yn ei swydd fel diacon yr Eglwys am ddeugain mlynedd. I ddathlu'r amgylchiad cyflwynwyd copi o'r Beibl Cymraeg Newydd iddo gan y Gweinidog, Y Parchg. Ifor Williams. Soniodd Mr Williams am ffyddlondeb a theyrngarwch Mr Morris gydol y cyfnod hir hwnnw. Yn ei dro bu'n llenwi amryw swyddi yn yr Eglwys ac mae dyled fawr iddo am gymwynasau lu ac arweiniad diogel ar wahanol amgylchiadau. Wrth ddiolch am y rhodd dywedodd Mr Morris ei fod yn ei chyfrif yn uchel fraint iddo gael ei gadw i wasanaethu Eglwys Libanus cyhyd.

CLWB ELIDIR: Cynhaliwyd yr uchod yn y Caban ar Fawrth 1af. Gan fod y diwrnod yma yn ddydd ymddangosiad y Beibl Newydd cafwyd gwasanaeth i ddathlu dan arwieniad y Parchedig Trefor Lewis. Cafwyd darlleniadau o'r Beibl gan Mrs Eirlys Ll Jones, Mrs Alwen Jones, Mrs Jennie Williams,, Mrs Eirlys Williams a Miss Eileen Williams. Canwyd emynau o'r Atodiad a chyfeiliwyd gan Mrs Miriam Lewis. Rhoddwyd y te gan Miss Eileen Williams Mrs Nancy Rowlands, Mrs Eirlys Ll Jones a Mrs Eirlys Williams. Estynnwyd croeso i aelod newydd sef Mrs E Coles o Glwtybont. Cofiwyd am y cleifion a dymunwyd yn dda i Mrs Blodwen Parry oedd wedi bod yn yr ysbyty. Enillwyd y wobr gan Mrs Jane Jones. Diolchwyd i bawb a gymerodd ran ac i westeion y te gan Mrs Megan P. Morris.

Pnawn Mawrth, Mawrth 15ed cynhaliwyd cyfarfod yn Y Caban dan lywyddiaeth Mrs Miriam Lewis. Croesawyd pawb i'r cyfarfod a chafwyd sgwrs, ddifyr gan Mrs Brown, Ffordd Ddeiniol, yn dweud hanes ei bywyd cynnar ym Mirmingham ac yng Ngogledd Cymru. Yn dilyn cafwyd te rhoddedig gan y Parchedig a Mrs Trefor Lewis. Diolchwyd ar ran y clab gan Mrs Nancy Rowlands. Pasiwyd cydymdeimlad â theulu y diweddar Alun Davies, a chofiwyd am y cleifion, gan anfon ein cofion ar y rhai sydd yn y gwahanol ysbytai a chartrefi . Bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 29ain, pryd y bydd bwrdd Moes a Phryn i hybu ychydig ar gyllid y clwb.

Y SEINDORF: Enillwyr Clwb 200 y Seindorf am fis Mawrth: 1. Rhif 21 £20 D.W Evans, Tai Gweledfa, Deiniolen, 2. Rhif 3 £15 Alun Leiws, 36 Rhydfadog, 3. Rhif 38 £10 Mrs Georgina Davies, Tai Caradog.

Erbyn i'r rhifyn nesaf o'r Eco ddod o'r Wasg fe fydd y Seindorf wedi Cystadlu mewn dwy Gystadleuaeth. Y gyntaf yn Blackpool ar y 27ain o Fawrth a'r ail yn Pontins Southport ar ddydd Gwener y Groglith y cyntaf o Ebrill. Dyma'r Gystadleuaeth gyntaf i'r Arweinydd Newydd sef Mr Graham Sandhurst ers cael ei benodi yn arweinydd. Pob lwc i Mr Sanshurst a'r Seindorf.

Hefyd llongyfarchiadau i aelodau ieuengaf y Seindorf am eu llwyddiant yn Eisteddfodau Cylch yr Urdd. Fe fydd dau bedwarawd yn mynd i'r Drenweydd fis Mai, un dan 25ain oed a'r llall dan 15eg oed. Hefyd Iwan Williams, Cornet dan 25 a Stan Wyn dan 15eg oed. Pob lwc iddynt.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r sefydliad yn y ganolfan ar Fawrth 7fed o dan arweiniad Mrs J Erilys Williams y Llywydd. Cafwyd swper Gŵyl Ddewi wedi ei drefnu gan y pwyllgor.

Croesawyd y wraig wadd sef Mrs Lovatt, Lanrug cawsom noson ddifyr yn sôn am ganu gwerin. Diolchwyd i Mrs Lovatt gan y Llywydd a Miss Betty Williams, enillwyd y raffl gan Mrs Rita P Jones. Llongyfarchwyd merch Mrs Janice Land ar gael ei gwneud yn Frenhines y Carnifal. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 12 pan ddisgwylir Mr W Eames atom.

DIOLCH: Dymuna Clifford a Diana ddiolch yn fawr i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Arian. Diolch yn fawr i bawb.

Brenhines Carnifal Deiniolen 1988 Nia a'r Dywysoges Eiriona gyda Sion, Tanyia ac Andrea.

CARNIFAL: cynhaliwyd noson goffi nos Wener 26ain Chwefror, yno dewiswyd brenhines a thywysoges Carnifal Deiniolen am 1988. Gan mai dim ond dwy a roddodd eu henwau ymlaen penderfynwyd dewis brenhines a phrif weinyddes. Y Frenhines yw Nia Land a'r brif weinyddes yw Andrea Williams. Y weinyddes fechan yw Tania Thomas. Tywysoges y Carnifal yw Eiriona Williams a'r gweinyddfab yw Shaun Thomas. Diolchwn i Delyth a Sian Brenhines a Thywysoges llynedd am ddewis yr enwau a phob llwyddiant iddynt am y gweddill o'r tymor. Diolchiadau hefyd i Mr Elfed Williams a Mr John Thomas am gadw trefn ac i bawb a fu'n helpu ar y stondinau a'n cefnogi mewn amryw o ffyrdd eraill.

EISTEDDFOD CYLCH YR URDD 1988: Dyma restr o enwau buddugwyr o ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen yn Eisteddfod Cylch Arfon o'r Urdd a gynhlaiwyd dydd Sadwrn Mawrth 5ed 1988 yn ysgol Gyfun Brynrefial. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.
Unawd dan 8 oed: Alaw Mari 1af; Adrodd dan 8 oed: Alaw Mari 3ydd; Cerdd Dant dan 8 oed: Alaw Mari 1af. Unawd 8-10 oed: Elaine 1af; Lyndsey Vaughan 2il; Cerdd Dant 8-10 oed Lyndsey Vaughan 1af; Unawd 10-12 oed: Nia Land 3ydd; Cerdd Dant 10-12 oed Nia Land 1af. Unawd Pres : Euros 1af; Martin Stepehn 2il; Martin Llywelyn 3ydd. Côr Adrodd 1af; Parti Deulais 1af; Parti Cerdd Dant 1af; Parti Unsain: 3ydd; Côr Grŵp: 1af.

Ymddiheurwn nad ymddangosodd y penillion coffa i Mr Thomas Williams yn gyflawn o dan newyddion Deiniolen yn y rhifyn dwytha.
Carwn bwyso ar bob gohebydd lleol i oflau bod y newyddion yn cael eu trosglwyddo i'r golygydd AR Y DYDDIAD PENODEDIG gan nad yw'n hawdd golygu newyddion hwyr.

SELWYN MORRIS
Adeiladwr a Threfnydd Angladdau
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 2841

Gwasanaeth NEWYDD ar garreg eich drws
SEGONTIUM
CAR · VAN HIRE
Cerbydau Pickup, Luton, Cargo a Bysus Mini
Hefyd Gwasanaeth Glanhau Ceir
UNED 5, STAD CIBYN
CAERNARFON Ffôn: 2013

DEINIOLEN – parhad

MARWOLAETH: Ar Chwefror 26ain yn Ysbyty Gwynedd ar ôl blwyddyn o waeledd hunodd Owen John Jones (Now John) 1 Maes Gwylfa yn 58 oed. Chwarelwr oedd Now ac wedi gweithio yn y chwarel hyd 1960. Yna bu'n Beiriannydd sifil yn gweithio gyda Gleesons ac MBZ am 11 o flynyddoedd yng Ngorsaf Drydan Drinorwic. Ei brif ddiddordeb oedd Dartiau. Bu'r gwasanaeth yn Eglwys Llandinorwig ar Fawrth 1af, gyda'r Canon Richard Jones, Canon Glyndwr Williams a'r Parch Trefor Lewis yn gwasanaethu. Claddwyd ei weddillion yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaen.

Dymuna Jennie a teulu y diweddar Owen John Jones, 1 Maes Gwylfa ddiolch o galon am y caredigrwydd mawr a ddangoswyd atynynt yn eu profedigaeth o golli gwŷr, tad a thaid annwyl. Diolch i Feddygon a staff Ysbyty Gwynedd, llawer o ddiolch i bawb yn Ward Alaw.

GWELLHAD BUAN: Dymunwn wellhad buan i Mrs Hannah Edwards, Gerlan sydd wedi derbyn triniaeth llawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Gwyddwn fod Glyn a Cliff yn falch iawn o'ch cael adref Hannah.

DIOLCH: Dymuna teulu 39 Rhydfadog, Deiniolen, ddiolch yn ddiffunat i bawb am y cydymdeimlad a'r cymorth a dderbyniwyd yn ystod eu profedigaeth. Diolch am y llu cardiau a'r rhoddion hael tuag at 'Uned gofal Mc Millan', Ysbyty Bryn Seiont.

PRIODAS: Dydd Sadwrn, 27ain Chwefror priodwyd Yvonne Denise Jones, merch Jennie ac Owen John Jones, 1 Maes Gwylfa â Carl Phillipson, mab Marian a Roy Philipson, Pentre Berw Gaerwen. Priodwyd y ddau yng Nghaernarfon a thraddodwyd y Fendith yn Eglwys Llandinorwig gan y Canon Richard Jones. Byddant yn byw yn 3 Caradog Place, Deiniolen.

DIOLCH: Hoffai Yvonne a Carl ddiolch i'r teulu a'r ffrindiau oll am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

DEINIOLEN: Yn Ysbyty Llanelwy, ar y 25ain o Chwefror bu farw Mrs Irene Dobbins, Rhyl. Yr oedd yn enedigol o Glwtybont, yn ferch i'r diweddar Mr a Mrs Tom Befan Jones, Tŷ Mawr (lle'i ganed a'i magwyd)

CYMDEITHAS CHWIORYDD: Ar Fawrth 3ydd, cynhaliwyd Cyfarfod y Chwiorydd yn Festri Disgwylfa. Er ei bod yn bwrw eira'n drwm yr oedd y chwiorydd wedi dod at ei gilydd unwaith eto.

Agorwyd y noson gan y Llywydd, Mrs Miriam Lewis. Diolchwyd i'r chwiorydd am ddod a chydymdeimlwyd â Mrs Irene Davies yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr, Mr Alun Davies. Cawsom storïau byrion am yr Esgob William Morgan, William Salesbury, John Penny ac eraill ar achlysur dathlu 400 mlynedd cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg yn 1588, ac hefyd dathlu'r Beibl Newydd yn 1988. Darllenwyd darnau o'r hen Feibl a'r Beibl Newydd gan y chwiorydd. Bydd "Dydd Gweddi Chwiorydd Byd Eang" yn Ebenezer ar Fawrth y 4ydd.

NANT PERIS

Gohebydd; Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrigydrudion, 871327.

GWELLHAD BUAN: Da yw clywed fod Mrs Myfanwy Thomas, Bron-yr-Wyddfa, wedi dod adref o'r ysbyty ar ôl derbyn llawdriniaeth i'w choes. Gobeithiwn am wellhad buan iddi ac y bydd yn rhedeg o gwmpas yn fuan iawn eto.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Dafydd Emrys ac Annie Griffiths, 5 Bro Glyder ar ddathlu eu Priodas Aur, ac i Mr a Mrs Meirion a Rhian Pritchard, Tŷ Isaf ar ddathlu eu Priodas Arian. Gobeithio y caiff y ddau gwpwl lawer blwyddyn hapus eto.

PENBLWYDD: Roedd Neil Price, y Llythyrdy, yn dathlu ei ben-blwydd yn 21 yn ystod y mis. Pen-blwydd hapus i ti Neil.

DIOLCH: Dymuna Mrs Myfanwy Thomas, Bron-yr-Wyddfa ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau oll am bob arwydd o garedigrwydd a ddangoswyd iddi tra yn Ysbyty Gwynedd ac wedi troi adref. Diolch yn fawr iawn i chwi i gyd.

CYFARFOD GWEDDI: Cynhaliwyd Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd yn y Festri, Mawrth 4ydd. Llywyddwyd gan Mrs Miriam Lewis a chymerwyd rhan gan bawb o'r merched oedd yn bresennol. Cyfeiliwyd gan Mrs Jennie Wyn Jones.

FFILMIAU: Ar y ddau nos lau cyntaf o Fawrth cafwyd ffilmiau diddorol ac addysgiadol o wlad Canaan gan y Parch a Mrs Trefor Lewis. Y nos lau cyntaf cyflwynodd Mr Lewis gopi o'r Beibl Cymraeg Newydd i bawb oedd yn bresennol ac erbyn hyn mae pob aelwyd sydd yn perthyn i Rehoboth wedi derbyn y Beibl Newydd.

Rhai o aelodau capel Rehoboth Nant Peris wedi iddynt dderbyn copi o'r Beibl Cymraeg Newydd. Cyflwynwyd copi yn rhad i bob teulu o'r eglwys yn Rehoboth.

LLWYDDIANT ARHOLIADAU: Llongyfarchiadau i Gwen Griffiths, 6 Glanrafon ar lwyddo yn ei Arholiad I.S.T.D. mewn Dawnsio Modern, Gradd 3, yn Lerpwl yn ddiweddar. Mae Gwen yn ddisgybl yn Ysgol Ddawns Judy Hughes ym Mangor.

Bu'n llwyddiannus iawn yn ei arholiad Piano hefyd. Enillodd Dystysgrif Dosbarth Cyntaf gan Goleg Cerdd Llundain, Gradd 1. Mae'n cael ei hyfforddi gan Mrs Linda Griffiths LLCM, AMus LCM, Llanberis,

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Gwen eto am dderbyn diploma Arian am nofio ac i Emma Louise, hithau hefyd wedi derbyn diploma am nofio.

DYMUNIADAU GORAU i Nicola Ann Roberts, 3 Bro Glyder, a Gwen Elizabeth Griffiths, 6 Glanrafon. Mae'r ddwy wedi cael eu derbyn yn aelodau o'r Gerddorfa leuenctid yng Nghaernarfon ac mae'r ddwy yn chwarae'r clarinet.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD

BANGOR
354646

GŴYL SAUNDERS LEWIS

22-23 Ebrill 1988, Llyfrgell y Dref, Wrecsam

Mae'r Academni Gymreig yn trefnu Gŵyl benwythnos i ddathlu bywyd a gwaith y llenor a'r gwelidydd, Saunders Lewis ac fe'i cynhelir mewn cydweithrediad â Gŵyl '88 Gwasanaeth Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Clwyd yn Llyfrgell y Dref, Wrecsam, nos Wener a bore Sadwrn 22-23 Ebrill.

Bydd yr Ŵyl yn dechrau nos Wener am 7.30 p.m., gyda D. Tecwyn Lloyd yn cyflwyno'r cymeriad mewn darlith agoriadol a fydd yn cynnwys cyflwyniad cyffredinol gyda sleidiau o fywyd a gwaith Saunders ynghyd ag atgofion personol Tecwyn Lloyd. Ar y dydd Sadwrn byddwn yn troi at y to ifanc i gael dadansoddiad o Saunders Lewis y Llenor gan Gerwyn Wiliams am 10.00 a.m. a Saunders Lewis y Gwleidydd gan Robin Gwyn am 11.00 a.m.

Mae Tecwyn Lloyd yn ysgrifwr a beirniad llenyddol adnabyddus tu hwnt. Bu'n olygydd cylchgrawn yr Academi, Taliesin, am dros ugain mlynedd, yn is-olygydd Y Cymro am bum mlynedd a chyda Gwilym Rees Hughes, golygodd y gyfrol deyrnged "Saunders Lewis" (1975).

Mae Gerwyn Wiliams, sy'n enedigol o Bwllheli, yn uno'n beirdd ifainc mwyaf disglair. Graddiodd yn y Gymraeg ym 1984 o Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth ac mae newydd gwblhau ei waith ymchwil ar gyfer doethuriaeth ar 'Lenyddiaeth Gymraeg ynghylch y Rhyfel Byd Cyntaf'.

Brodor o Fangor yw Robin Gwyn a raddiodd mewn gwleidyddiaeth ym 1980 yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth cyn symud i Goleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor i wneud gwaith ymchwil ar "Agweddau ar Ysgrifennu Newyddiadurol Saunders Lewis 1939-51". Ar hyn o bryd mae'n athro ysgol yn Nyfed.

Bydd Uned Ymchwil yr Academi Gymreig yn paratoi arddagnosfa arennig i gyd-redeg â'r Ŵyl a fydd wedyn ar gael i'w theithio ar hyd a lled Cymru.

Y Foelas
CARTREF YR HENOED
CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG
CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN
THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS
Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon
(0286) 4652

TACSIS BETHEL
UNRHYW AMSER · UNRHYW BELLTER
Ffôn: (93) 670555

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

Priodas Aur: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs R.G. Jones, Hafan Elan ar achlysur dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.

CYMDEITHAS LENYDDOL: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas Lenyddol Capel Mawr nos lau 18fed Chwefror. Llywydd y noson oedd y Parch W.O. Roberts, y siaradwr gwadd oedd Mr A RRoberts, Caerceiliog. Testun ei sgwrs oedd "Drysau", a'r tri drws ddaru gil agor oedd drws ei gartre pan yn blentyn, drws y capel, a drws yr ysgol. Cafwyd y diolchiadau gan Mr Meuryn Roberts. Paratowyd paned gan Mrs Dora Jones, Mrs Betty Hughes, a Mrs Dorothy Jones, a diolchwyd iddynt gan Mrs J Parry, Morannedd.

I ddiweddu tymor llwyddiannus o'r Gymdeithas Lenyddol aeth yr aelodau i Westy Fictoria Llanberis i ddathlu Gŵyl Ddewi nos Wener 26ain o Chwefror. Llywydd y noson oedd Mr Eifion Roberts, ar ôl y ciniawa cafwyd adloniant ysgafn, detholiad o ganeuon gan barti o ferched; adroddiad gan Mrs M Williams; Meim y Sêt gan Mrs M Roberts, Mrs B Thomas, Miss S Jones, Miss H Parry, Mr E Roberts; Mein arall Hywel a Blodwen gan Miss H Parry a Miss S Jones; parti cydadrodd; gêm gan Mrs I Butler. Cyfeilydd y noson oedd Mrs M E Jones. Cyflwynodd y Parch W.O. Roberts y gŵr gwadd Mr Alan Lovatt, a chafwyd araith fer ganddo, rhoddwyd y diolchiadau gan Mrs N Roberts.

DIOLCHIADAU: Dymuna Mrs Mair Williams, Bron Haul, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau cymdogion, Meddyg teulu a staff Ward Dulas Ysbyty Gwynedd am bob arwydd o garedigrwydd a'r llu caridau a dderbyniodd tra yn derbyn triniaeth llaw feddygol yn yr Ysbyty yn ddiweddar ac wedi iddi ddod gartref.

GWELLHAD BUAN: Dymunwn wellhad buan i Mrs Mair Williams, Bron Haul a fu yn derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Brysiwch fendio Mair oddi wrth eich ffrindiau.

Y DIWEDDAR MR DAVID GLYNNE OWEN: Dymuna Tudor a Dafydd Owen a'u teuluoedd, ddiolch i'w ffrindiau a'u cydanbod yn Llanrug a'r cyffiniau am y caredigrwydd mawr a brofasant yn eu profedigaeth ddiweddar. Diolchant hefyd am bob rhodd a dderbyniwyd er budd eglwys Pontrhythallt. Gofidiant na fuasent wedi datgan eu diolchgarwch cyn hyn; amryfusedd, nid anniolchgarwch, a barodd yr oediad.

MERCHED Y WAWR: Ar Fawrth 8fed daeth aelodau'r gangen ynghyd i "Rannu a Blasu". Cafwyd noson arbennig o flasus gan fod pob aelod wedi paratoi rhywbeth ar gyfer y wledd. Bwriadwyd cael dawnsio gwerin gyda Bethanne Williams, ond yn anffodus, roedd pawb wedi bwyta gormod ac ym methu symud!

Llongyfarchwyd mrs Iola Butler ar ddod yn nain eto dymuniadau gorau i ddi hi, i'w merch Dilys ac i Nia Elisabeth ei hwyres fach newydd. Diolchwyd i Joan Griffith a Menna Williams am drefnu'r nsoon gan Mair Lloyd Huws. Enillwyd y raffl gan Olwen Llywelyn a Joyce Jones. Ar Ebrill 12fed byddwn, unwaith eto ynghanol bwydydd o bob math yng nghwmni Mrs Antoinette Hughes o Goleg Glynllifon.

LLONGYFARCHIADAU: i David a Nia Roberts, 18 Talybont ar enedigaeth merch fechan, Sofie Angharad yn ddiweddar.

MAM O FIL: Dyna yw Mrs Nia Lloyd Hughes i'w merch 10 oed, Rhiannon. Mewn cystadleuaeth wedi ei threfnu gan Boots y fferyllwyr, hi enillodd y wobr gyntaf am wneud llun o'i mam ac ysgrifennu brawddeg i ddweud pam ei bod yn ddynes mor arbennig yn ei golwg. Dywedodd Rhiannon bod gan ei mam amser i chwarae efo hi, dim gwahaniaeth pa mor brysur ydyw.

DEFNYDDIO'R BEIBL NEWYDD YN Y GWASANAETH GŴYL DDEWI

Aelodau o Safon 3, Ysgol Gynradd y pentref fu'n cynnal gwasanaeth Gŵyl Ddewi. Uchafbwynt yr achlysur oedd datod y parsel yn cynnwys y Beibl Newydd o flaen y plant a darllen ohono.

CROESO: Estynnwn groeso cynnes i'r heddwas Dewi Thomas, ei wraig Susan a'u mab bychan Aaron i Dŷ'r Heddlu. Gobeithio y byddant yn hapus yma yn Llanrug.

PRIODAS: Dydd Sadwrn Mawrth 19 yng Nghapel Pontrhythallt, priodwyd Geraint Wyn Jones, Beaumaris â Karen Jones, Bro Rhyddallt. Gweinyddiwyd y briodas gan y Parch John Morris. Cafwyd y brecwast priodas yng ngwesty Dolbadarn, Llanberis. Dymuniadau gorau iddynt.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Bryn a Diane Jones, Bro Rhyddallt ar golli eu mab bychan, Gavin Bryn ar ei enedigaeth. Cynhaliwyd gwasanaeth ym mynwent Deiniolen dan ofal y gweinidog y Parch John Morris.

PLAID CYMRU: Noson i'r teulu. Daeth nifer dda iawn o aelodau, eu teuluoedd a'u ffrindiau ynghyd yng Nglangwna Caeathro ar Fawrth 2, i ddathlu Gŵyl Ddewi. Roedd y grŵp Y Cynghorwyr a Dafydd Iwan yno i'n diddori a chafwyd noson hwyliog iawn gyda pawb yn mwynhau eu hunain. Diolch i Gwyndaf Jones a Goronwy Hughes am drefnu'r noson. Enillwyd y raffl gan Llion Pritchard a Ieuan Green.

Cynhelir y Ffair Wanwyn yn yr Ysgol Gynradd, Llanrug ar Nos Fercher Ebrill 13 am 7.0 o'r gloch. Bydd yr actores boblogaidd Mari Gwilym yn agor y Ffair. Fel arfer, bydd amryw o stondinau, raffl, gemau a phaned a sgwrs. Derbynir unrhyw gyfraniadau i'r stondinau gan aelodau'r pwyllgor neu cysylltwch â Waunfawr 200 neu Caernarfon 5668.

Ar nos Wener Ebrill 22, estynnir gwahoddiad i'r aelodau gan gangen Waunfawr i gyfarfod agored yn yr Institiwt Caernatfon i drafodaeth ar 'Preifateiddio Dŵr Cymru'. Y siaradwyr fydd John Elfed Jones, Cadeirydd Bwrdd Dŵr Cymru, a Dafydd Wigley A.S. Y Cadeirydd fydd Eurig Wyn a'r cyfarfod i ddechrau am 7.30 o'r gloch. Cofiwch am y cyfarfod pwysig yma – Nos Wener Ebrill 22.

"GRÊT O FOI"
Ar ôl deuddeng mlynedd o weithio fel arweinydd Clwb Ieuenctid Llanrug mae Michael Roberts wedi penderfynu terfynu ei swydd ar ddiwedd y mis yma. O dan ei arweiniad mae'r clwb wedi datblygu i fod yn un o'r rhai mwyaf llwyddiannus yng Ngwynedd.

'Rwyf wedi cael y pleser o weithio yn y clwb gyda Michael yn ystod y deng mlynedd diwethaf a mae wedi dangos dawn arbennig wrth ymdrin â phobl ifanc. Mae'n drefnydd heb ei ail, brwdfrydig bob amser ac yn bwysicach mae'r ddawn ganddo o ennill parch a hyder person ifanc dan ei ofal. Llawer gwaith mae ei gyngor doeth wedi bod yn gymorth i lawer un. Gwnai hyn mewn ffordd ddihafal a diymhongar.

Ie, colled aruthrol i ieuenctid Llanrug ond i'r rhai sydd wedi bod yn ffodus o'i gwmpeini, atgofion hwyliog a hapus fydd ganddynt. Efallai mai'r clod mwyaf iddo yw, os gofynnwch i unrhyw berson ifanc sy'n ei adnabod sut fath o berson yw Michael Roberts yr ateb fel arfer fydd "Grêt o foi ydi Meic Youth Club". Mae hynny i mi yn destament yn ei hun, ac felly ar ran ieuenctid Llanrug dros y deuddeng mlynedd ddiwethaf, hoffwn ddiolch i Meic am ei wasanaeth a'i arweiniad goleuedig a dymuno pob lwc iddo a'i deulu yn y dyfodol.

Howyn P. Jones.

GWELLHAD BUAN: Dymunir gwellhad buan i Mrs Hughes-Jones, Bryn Afon (gynt o Sŵn y Gwynt) sydd wedi bod yn Ysbyty Eryri, Caernarfon.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi yng Ngwesty Gwynedd Llanberis.

Llywydd y cyfarfod oedd y Parch Erfyl Blainey a'r gŵr gwadd oedd Mr Robert Williams, Llain Gwta. Cafwyd pleser o wrando arno yn rhoi o'i atgofion am gyfnod plentyndod yn ardal Tanycoed, ac yn yr ysgolion lle yr addysgwyd ef. Talwyd diolch iddo gan Mr Ifor Williams, Hafan Elan.

Ail etholwyd y swyddogion am dymor 1988-89: Llywydd: Mr Ifor Williams; Trysorydd: Mrs Jennie Williams, Bod Fair; Ysgrifenyddes: Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar.

W.J. GRIFFITH
PLYMAR A GOSODWR GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248

Gosodwyr Nwy Cofrestedig Corgi

CORGI GAS IN SAFE HANDS

Aelod o'r Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR SEAT YNG NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

ENNILL AR DYNNU LLUN

Dyma Gerallt Dion Hughes o Crawia Llanrug a enillodd y wobr gyntaf am dynnu llun ar y thema "Siopa gyda mam". Roedd Gerallt yn cystadlu yn yr adran dan 7 oed yn y gystadleuaeth a drefnwyd fel rhan o ddathliadau blwydd oed siop Leo's, Caernarfon. Enillodd ddwy wobr ariannol sef un iddo'i hun ac un i'w ysgol.

ATODIAD LLANRUG

Llongyfarchiadau i Adran Ysgol Gynradd Llanrug ar ennill y Darian am y mwyaf o farciau yn yr Eisteddfod Gylch a gynhaliwyd ddechrau fis Mawrth.

YN EISIAU . . .

TREFNYDD HYSBYSEBION ECO'R WYDDFA

Cyfle diddorol i ddod i adnabod busnesau'r fro. Cysyllter â'r Golygydd - Caernarfon 3515 neu'r Trefnydd presennol - Caernarfon 5605.

LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Dylai'r llyfrau yma fod ar silffoedd eich llyfrgelloedd a'ch siopau llyfrau lleol.

Beibl i Bawb 1588-1988
Pwyllgor Cyhoeddusrwydd Gŵyl Gerdd Dant Pwllheli a'r Cylch, 1988 £1.00
Llyfr lliwio yn adrodd hanes y Beibl Cymraeg.

Y Babi NewyddMynd i'r Ysgol Symud Tŷ
Anne Civardi (Addas. Roger Boore)
Gwasg y Dref Wen £1.35 yr un.
Cyfres sy'n cyflwyno plant bach i nifer o sefyllfaoedd newydd a all ddod i'w rhan.

Pobl, Protest a Gwleidyddiaeth
David Egan (Addas. Catrin Stevens)
Gwasg Gomer £4.75
Golwg ar fudiadau poblogaidd yng Nghymru'r 19eg ganrif.

Cysgod y Cryman
Islwyn Ffowc Elis
Gwasg Gomer £4.95
Talfyriad gan Basil Davies ar gyfer oedolion sy'n dysgu Cymraeg. Un o'r gyfres Cam at y Cewri.

Y Beibl a Droes i'w Bobl Draw' 'The Translating of the Bible Into the Welsh Tongue'
Geraint Gruffudd BBC £2.95
Darlith ddwyieithog a chasgliad o gerddi mawl i William Morgan.

Picnic Cyntaf Smot
Smot yn Ymweld â'r Ysbyty
Eric Hill (Addas. Dilwen M. Evans)
Gwasg Gomer £1.50
Hanesion Smot a'i ffrindiau wrth iddynt symud o un antur i'r llall (Llyfrau Darllen Smot)

Y Boehm i Ddechreuwyr:
Tiwtor i Bob Clarinet Llyfr 1
Harri Jones (Addas. Sw Gerallt Jones)
Crowe's Music £2.95
Y llyfr cyntaf mewn cwrs cyflawn o ddau lyfr ar gyfer y rhai sy'n dysgu chwarae'r Clarinet Boehm.

Antur a Menter Cymry Lerpwl
John Edward Jones
Cyhoeddiadau Modern Cymreig Cyf £2.00
Hanes Eglwysi Presbyteraidd Cymraeg Webster Road, Heath Field Road a Bethel o 1887 hyd 1987.

Clicio'r Camera:
Dyddiadur Naturiaethwr
Ted Breeze Jones
Gwasg Dwyfor £4.95
Cofnodion T. Breeze Jones am y pymtheng mlynedd y bu'n byw mewn tŷ ar lethrau'r Manod.

Defnyddiau £2.00
Addurniadau Personol £2.50
Cyfathrebu Gweledol £2.50
Cyfathrebu Technegol (Cardiau Gwaith) £4.95
T. Eric Sharp
Adran Gymraeg CBAC
Tri llyfryn a phecyn o gardiau gwaith. (Prosiect Defnyddiau ac Adnoddau y Swyddfa Gymreig: Crefft, Dylunio a Thechnoleg)

Alun Llywelyn-Williams
Gwyn Thomas
Gwasg Pantycelyn £2.50
Y gyfrol ddiweddaraf mewn cyfres sy'n edrych ar fywyd a gwaith rhai o'n prif lenorion (Cyfres Llên y Llenor)

Diwrnod Ffair
Mary Williams
Gwasg Gomer £1.95
Cyfrol o gerddi i blant.

LLYFRAU PRINT BRAS
Seren Gaeth
Marion Eames
Gwasg Gomer £8.75
Nofel.

CABS LLANRUG

C'FON 5951

Prisiau cystadleuol. Gwaith contract pell ac agos

MENTER FACHWEN
(Parhad o'r dud. flaen)

'Roedd y diddordeb a'r brwdfrydedd y tu hwnt i'w gobeithion gyda chanolfan Gymuned Dinorwig yn orlawn. Yn bresennol 'roedd oddeutu 70 o drigolion lleol yn cynrychioli diddordebau amrywiol. Gyda chefnogaeth mor frwd, hawdd iawn oedd dennu gwirfoddolwyr i ffurfio Pwyllgor Llywio i'r cynllun ac yn wir daeth 27 ohonynt ymlaen i sicrhau gweithrediad ar y cynllun arfathedig.

Y gamp nesaf fu sicrhau caniatâd cynllunio amlinellol cyn datblygu'r prosiect ymhellach. Nawr a hyn wedi ei sicrhau mae'r ffordd yn glir i fwrw 'mlaen i wireddu'r amcanion. Yn ôl Dick Jones, y Cadeirydd, y gobaith yw gweld cychwyn ar waith yn ystod y flwyddyn hon ar ôl sicrhau strwythur cyfreithiol o ffynonhellau ariannu i'r prosiect. Y dasg gyntaf i'r gweithlu bychan fydd atgyweirio ac adeiladu'r lôn drol sy'n arwain i'r bwthyn cyn atgyweirio ac ail-addasu'r bwthyn ei hun. Wedi cwblhwu y gwaith yma gellir bwrw 'mlaen i'r dasg nesaf gyda'r gweithlu sef, ad-ennill y tir o amgylch yr adeilad trwy reoli'r goedwig i hybu anifeiliaid a phlanhigion cynhenid i'r ardal i ail ymgartrefu. Yn ystod y ddau gyfnod hyn bydd yr hyfforddiant a gynigir yn paratoi y gweithlu bychan at y cyfnod ar ôl sefydlu'r safle fel eu bont wedynyn gallu cynnig eu gwasanaeth, trwy waith contract, i unigolion ac asiantaethau sydd angen ad-ennill tir gyda'r pwyslais ar gadwraeth ac hefyd gwaith sy'n mynnu sgiliau sy'n brysur ddiflannu.

O'r cychwyn cyntaf cynllun yn deillio o'r gymuned leol yw Menter Fachwen ac er mwyn parhau â'r ddelwedd hon bwriad y pwyllgor llywio yw ffurfio Cwmni cyfyngedig drwy Gwarant i reoli'r cynllun yn ei ddatblygiad ac yna pan yn weithredol. Cofrestrir y Gwmni gyda'r Comisiwn Elusen a gwarantir uchafswm cyfrifoldeb ariannol aelodau'r cwmni i £1 yr un. Bydd gwahoddiad felly i driolion o fewn ffiniau plwyfi Llanddeiniolen, Llanberis a Llanrug i ddod yn aelodau o'r fenter gyda hawl i bleidliesio yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol. Yn ychwanegol at hyn bydd cyfle i unigolion â diddordeb o'r tu hwnt i'r ardal i fod yn aelodau cydymeithiol heb bleidlais. Bydd rhyddid i unigolion gyfrannu unrhyw swmar ddealltwriaeth mai dim ond un bleidlais fydd ar gael i unrhyw unigolyn.

Dylid cyfeirio unrhyw gais am aelodaeth neu gais am wybodaeth pellach at Philip V. Edwards, Hafod-y-Braich, Deiniolen (Llanberis 870118). Po fwyaf fydd yn dangos diddordeb yna bydd yn haws sicrhau ffyniant y prosiect.

Philip V. Edwards.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gostau cynhyrchu'r Eco.

£25 Cyngor Cymdetihas Llanberis.
£10 Mr a Mrs Ralph Lewis, Arlas, Penrhosgarnedd, Bangor.
£5 W.W. a G.M. Jones, Y Dalar Deg, Llanrug.
£5 Mrs Dorothy Williams, Meirionfa, Talybont, Llanrug.
£3 Mrs Bessie Williams, Llys Myfyr, Penisarwaun.
£3 Mr John E Hughes, Gwynfryn, Racca, Penisarwaun.
£3 Teulu'r diweddar Mrs Annie Jones, e Maes Eilian, Dinorwig gynt.
£2 Mrs Mari Oritchard, Llanruf.
£2 Mrs Dora Jones, Brynhyfryd, Dinorwig
£2 Miss Alison Jones, Foel Gron, Dinorwig.
£2 Teulu 39 Rhydfadog, Deiniolen
£2 Mr William Jones, Ffordd Capel Coch, Llanberis
£1 Eilir ac Eleri Parry, PenBont, Llanbeirs
£1 Mr Gwilym Irfon Jones, Tan Buarth Uchaf, Deiniolen.

Emyr Jones

PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI

Cynnal Boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau

44 Glanffynnon LLANRUG Caernarfon 3513

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION

Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

ECO'R IFANC

GWERSYLL PENWYTHNOS

Pump o genod o Lanrug yn mwynhau eu hunain yng Ngwersyll Penwythnos yr Ysgol Sul yn Nefyn. Buont yn trin a thrafod hanes Daniel ond roedd digon o amser ganddynt hefyd i gael mynd am dro i Uwchmynydd ac i Bwllheli a buont yn chwarae ar y traeth.

Gyda un o'r trefnwyr, o'r chwith i'r dde mae Nia Griffith, Nia Gwawr Jones, Ellen Parry, Wendi Thomas a Ffion Williams — y bump ar eu blwyddyn gyntaf yn Ysgol Uwchradd Brynrefail.

COLIN YN CYNRYCHIOLI CYMRU

Ymateb Caroline, ei chwaer 11 oed i'r newyddion da.

Roedd Colin wedi mynd i'r Drenewydd i gynrychioli Gwynedd mewn ras redeg Traws Gwlad. Ac roeddwn i wedi mynd i aros gyda Anti Pat, Yncl Huw, Steffani, Christopher a Lindsey sydd ddim yn un eto. Roeddem ni wedi bod yn Eisteddfod Cylch yr Urdd ac roeddem ni yn ôl yn nhŷ fy Anti ac Yncl. Clywsom gnoc ar y drws a daeth Mam, Dad a Colin i'r tŷ i fy nôl. Dywedais wrthynt fod ein hysgol ni wedi ennill y darian fawr. Ond doedd neb yn gwrando arnaf heblaw am y babi, Lindsey. Rhoddais y gorau iddi a dechreuais wrando ar Colin a'i stori o. Roedd o wedi cael chweched yn ei ras ac roedd yr wyth cyntaf yn cael mynd i'r alban i gynrychioli Cymru. Dechreuodd fy ngalon deimlo'n rhyfedd ac roeddwn i'n teimlo fel rhoi hyg mawr iddo ond wnes i ddim chwaith.

Aethom i gyd adref yn wen o glust i glust. Roedd mam wedi bod yn prynu diodydd er mwyn i ni gael dathliad bach i ni ein hunain. Rhywsut roeddwn yn teimlo rhyw awyrgylch llawen yn y tŷ. Roedd dad wrth ei fodd. Roeddwn i wrth fy modd fod Colin wedi cael chweched, a hefyd ein bod ni fel teulu yn mynd i'r Alban i roi cefnogaeth iddo. Mae hi'n ddydd Gwener yr 25ain fory ac fe fyddwn ni i gyd yn cychwyn am yr Alban. Rydyn ni yn aros mewn lle gwely a brecwast ac fe fydd Colin yn rhedeg dydd Sadwrn.

Diolch i Caroline am ei hymateb gonest i lwyddiant ei brawd mawr – mae ganddi le i wirioni, 'does?

Deallwn ei bod hithau yn brysur ddilyn ôl troed Colin – fel rhedwraig. Mae yn barod wedi ennill dipyn o rasys lleol. Pwy a ŵyr, efallai y bydd hithau'n gwisgo'r crys rhedeg coch yn y dyfodol agos.

CYSTADLEUAETH 'YR HEDYN MWSTARD'

Darluniwch (tynnu llun, peintio, neu 'collage') ar bapur maint A4 neu A3 y testun a danlinellir yn adnod 32 o ddameg "Yr Hedyn Mwstard" Sant Mathew pennod 13: 31-32 gan ofalu cadw y cyd-destun mewn cof yn wastad:

"Y mae teyrnas nefoedd yn debyg i hedyn mwstard, a gymerodd dyn a'i hau yn ei faes. Dyma'r lleiaf o'r holl hadau, ond wedi iddo dyfu, ef yw'r mwyaf o'r holl lysiau, a daw yn goeden, fel bod adar yr awyr yn dod ac yn nythu yn ei changhennau."

Rhowch gynnig arni mewn un o'r tri dosbarth: i) plant hyd at 6 oed; ii) 7 i 10 oed; iii) 11-15 oed. Gwobrau: Bydd y buddugol o bob dosbarth yn derbyn tocyn llyfr gwerth £10. Yn ychwanegol bydd gwobr arbennig i'r gorau o blith y cystadleuwyr. Anfonwch eich cais (gan amgau amlen wedi'i stampio os ydych am gael eich llun yn ôl) yn cynnwys eich enw, cyfeiriad a'ch oedren cyn 30ain o Fehefin 1988 i: Cystadleuaeth yr Apêl, 3 Tyn-y-Mwd, Abergwyngregyn, Gwynedd LL33 OLF. Hysbysir y buddugwyr, a chyhoeddir y canlyniadau cyn mis Medi 1988, pryd y cyflwynir y gwobrau.

HWYL DDA I CHI AR Y DARLUNIO



Os ydych rhwng 7 a 13 oed, gallwch CHI ymuno â CHLWB 400!

Mae pob aelod yn derbyn cerdyn aelodaeth a phecyn antur CLWB 400, efo cardiau lliwio, siart y Beibl, llythyr newyddion, a rhifyn 1 o GLWB 400. Cesglwch sticeri'r clwb, ac y mae nwyddau ar gael i aelodau'r clwb yn unig.

Ymunwch â CHLWB 400 i ddathlu penblwydd 400 oed y Beibl Cymraeg.

Gellir trefnu DIWRNOD CLWB 400, neu NOSON CLWB 400 yn eich ardal chi.

I ymuno â'r clwb, anfonwch y manylion fel eich enw, cyfeiriad a dyddiad geni, ac anfon £1 tâl aelodaeth i'r "Cyngor Ysgolion Sul", Canolfan Addysg Grefyddol, Santes Fair, Bangor, LL57 1DZ.

DAWNSIO GWERIN

Parti Dawnsio Gwerin o Adran yr Urdd Penllyn fu'n diddanu Sefydliad y Merched Brynrefail yn eu cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Victoria, Llanberis.

PÔS MIS EBRILL – Y PASG

1. I ba ardd aeth Iesu a'i ddisgyblion i weddio?
2. Pwy fradychodd yr Iesu gyda chusan?
3. Pwy wadodd yr Iesu dair gwaith?
4. Am sawl darn o arian y bradychodd Jiwdas yr Iesu?
5. Pwy gynorthwyodd yr Iesu i gario'r groes?
6. Beth a roddwyd ar ben yr Iesu?
7. Beth ddigwyddodd rhwng hanner dydd a thri o'r gloch y prynhawn?
8. Pan aeth Mair Magdalen a Mair gwraig Cleopas at y bedd – Beth oedd wedi digwydd?
9. Sawl disgybl oedd yn cerdded i Emeus?
10. Pa ddisgybl oedd yn amau fod yr Iesu wedi cyfodi?

ATEBION:

1. Gethsemane 2.Jiwdas 3. Seimon Pedr 4 Deg ar Hugain 5. Seimon o Gyrene 6. Coron ddrain 7. Bu tywyllwch ym mhobman 8. Roedd y garreg wedi symud, ac roedd y bedd yn wag. 9. Dau 10. Thomas neu Didymus.

CORNEL Y PLANT IAU

Annwyl Gyfaill,

Penderfynwyd mewn cyfarfod o'r *Pwyllgor leuenctid ac Adloniant yn ddiweddar i gynnal cystadleuaeth i lunio arwyddlun ac enw i'r babell leuenctid a fydd ar faes yr Eisteddfod yn 1990.*

Fel y gwyddoch rwy'n siŵr, mae'n arferiad bellach i gael pabell adloniant ar faes prifwyl yr Urdd, e.e. Urddgrug (Wyddgrug), Ffrwydro Ffrancon (Bethesda) etc.

Gwahoddir plant a phobl ifanc dalgylch yr Eisteddfod i:

1. Ddyfeisio enw addas ar gyfer y babell adloniant

A NEU

2. Llunio arwyddlun addas ar gyfer y babell adloniant.

RHEOLAU:

1. Dylai'r enw a'r arwyddlun fod yn berthnasol i'r Eisteddfod.

2. Dylai'r gwaith fod yn ymgais ddilys plant a phobl ifanc dan 25 oed sy'n byw yn nhalgylch yr eisteddfod.

3. Dylid meddwl am arwyddlun tri neu bedwar lliw.

4. Dylid rhoi enw, oedran, a chyfeiriad yr ymgeisydd yn eglur ar bob ymgais.

5. Bydd gan y pwyllgor hawl i addasu unrhyw enw neu arwyddlun, a bydd hawlfraint yr enw a'r arwyddlun yn eiddo i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Dyffryn Nantlle ac Arfon.

6. Os nad yw'r Pwyllgor yn gwbl hapus ar yr enw neu'r arwyddlun buddugol, cedwir yr hawl i beidio â'u mabwysiadu fel rhai swyddogol.

GWOBRAU: Rhoddir gwobr o £15 am yr enw gorau, a £15 hefyd am yr arwyddlun gorau (neu £30 am gyfuniad o'r ddau), yn ogystal â thocyn wythnos i'r Eisteddfod.

Anfoner y cynnyrch at John Bryn Owen, 12 Cae Bryn, Y Groeslon, erbyn Mai 20, 1988.

Gobeithio y cawn enw ac arwyddlun arbennig o dda, ac y caiff holl blant a phobl ifanc y dalgylch hwyl wrth baratoi'r gwaith.

Diolch yn fawr iawn am eich cydweithrediad.

Yr eiddoch yn gywir,
John Bryn Owen,
(Cadeirydd)

LLIWIWCH Y LLUN



MYND AM DRO

Beth am fynd am dro yn ystod y gwyliau. Sylwch yn fanwl ar yr holl dyfiant newydd sydd o'ch cwmpas. Edrychwch ar y gwrychoedd — Ydy'r drain duon yn llawn blodau gwynion eto? Ydy'r coed yn dechrau deilio? Beth am flodau — Ydych chi wedi dod o hyd i friallu eto? Wel os nad ydych wedi dod o hyd i rai 'go iawn' — dyma lun i chi ei liwio'n ofalus.



Ydych chi'n cofio'r llun o Elinor yr Eliffant yn y rhifyn diwetha o'r Eco? Wel mae Lyndsey wedi anfon llythyr i'r Gornel yn gofyn am eich help! (Da iawn ti Lyndsey – Roedd y llun wedi'i liwio'n arbennig o dda!

Eliffant pinc yn gwneud triciau di-ri.
Pel yn yr awyr a'i drwnc i fyny fry,
Sefyll ar un goes ar ddrwm mawr tri lliw

Oes unrhyw un sy'n darllen yr Eco yn gallu fy helpu i orffen y bennill hon?
Diolch yn fawr,

dyma ddarn o farddoniaeth am y 'Briallu".

Y BRIALLU

Mi welais heddiw'r bore
Yr aur melyna'r 'rioed:
Roedd rhai o dan y perthi,
Ac eraill yn y coed;
Pwy meddwch chwi a'u collodd,
Mewn llwyn, a phant a ffos?
Mae nain yn dweud mai'r tylwyth teg,
Wrth ddawnsio yn y nos.

Eifion Wyn

Lyndsey Vaughan (8 oed), 11 Porth y Gogledd, Deiniolen.

Wel, dyna i chi her ynte? Anfonwch eich llinell chi i'r Gornel, Eco'r IFANC Pant Bryn Gwyn, Tan y coed, Llanrug, – Fe fydd 'na wobr i'r llienll goll orau!

FFŴL EBRILL

"Roedd 'na eliffant mawr yng Nghoed-y-Bryn
Y bore 'ma," meddai Sam,
"Roedd o'n gorwedd o dan y dderwen
O ble ddaeth o, ys gwn i, a pham
Y dewisodd o aros yng Nghoed-y-Bryn?
Eliffant pinc a dau ddant gwyn."

"Eliffant pinc?" gofynnais yn syn.
"O dan dderwen yng Nghoed-y-Bryn",
Ac yno yr euthum yn frysiog fy ngham
A rhyw wen ddireidus ar wyneb Sam.

Cerddais am oriau o dan y coed
Ond welais i mo'no nac ôl ei droed,
Ac adre yr euthum yn ara' fy ngham,
Ac yn ddigon siomedig, i ddweud wrth Mam
Fel y chwiliais am oriau yng Nghoed-y-Bryn
Am eliffant pinc hefo dau ddant gwyn.

"Rel Sam", meddai mam, gan chwerthin yn iach,
"Mae'n gyntaf o Ebrill heddiw Wil bach."

Selwyn Griffith

GALW DDOE I GOF

(Parhau â phytiau o atgofion Edith Michael, fel y'u llefarodd i'w merch, Mrs Mem Pritchard). Y drydedd a'r rhan olaf y stori a ymddangosodd yn y ddau rifyn diwethaf.

Penderfynais edrych ar yr awyr fel yr hen longwyr, a dewis pa ffordd i fynd. Mynd dros walia, a thrwy gae ar ôl car a dros hen gorsydd gwlyb. Ymhen hir a hwyr dyma fi yn cyrredd chwarel lechi. Rydw i wedi deall pen blynyddoedd wedyn mai Chwarel y Glyn oedd hi. Mi oedd hi yn edrych yn anferth i mi y noson honno, a fy nghlocsia yn gwneud twrw mawr ar y llechi.

Dal i fynd ymlaen ac ofn mawr arna i. Mi oedd na gytia llechi ym mhob man, a finnau ofn bod na dramps yn cysgu ynddynt. Wnes i ddim crio o gwbwl, ond doedd gen i ddim syniad yn y byd lle yr oeddwn i. Oedd rhaid i mi wisgo fy nghlocsia er eu bod yn nhw yn gwneud gymaint o dwrw, neu buasai fy nhraed yn dipia wrth gerdded ar y llechi.

Dal i fynd heb ysbaid ac yn ysu i gael gweld diwedd ar y chwarel. Gweld wal lechi o fy mlaen. Edrych drosti a gweld y lôn yn bell, bell i lawr, a'r ochr yn rhy syth i mi fedru mynd i lawr ati.

Ail gychwyn chwilio am ddiwedd y chwarel; mi oedd run fath a "Taith y pererin". Ymhen hir a hwyr mi gyrhaeddais ei diwedd, ac wedi blino yn arw a ddim yn gwybod pa ffordd i fynd. Cychwynais eto gan edrych ar yr awyr, a toc dyma fi yn gweld tŷ. Dringo eto gan edrych ar yr awyr, a toc dyma fi yn gweld tŷ. Dringo dros y giât i'r iard, achos mi oeddwn i yn mynd fel 'bulldozer" rwan yn union am Bethel yn fy meddwl. Fferm bach oedd yna a dyma yr anifeiliaid yn dechrau gwneud twrw – ieir a phopeth wedi deffro. Dyn y tŷ yn dwad i'r drws hefo lamp yn olau yn ei law a golwg ofnus arno, ac yn troi ei ben i siarad hefo rhywun arall yn y tŷ. Cuddiais innau yn ddistaw bach yng nghysgod y wal, a toc dyma fo yn mynd yn ôl i'r tŷ a cau y drws, a dyma finnau yn cychwyn eto.

Ar ôl mynd am hir dyma fi yn dwad ar draws lein tren bach y chwarel. Fuo fi erioed mor falch achos mi oeddwn i yn gwybod fod y lein bach yn mynd i Fethel. Cerddais yn hapus iawn ar ei chanol hi nes cyrraedd Glascoed, ond pan welais i y lôn yn fan honno, fedrwn i ddim peidio a mynd ar y lôn.

Mi oedd yna sôn amser honno fod na rhyw hen ddyn o Glascoed yn rhedeg ar ôl pbol er mwyn ei dychryn hwy, felly mi eisteddais ar ochor y lôn a tynnu fy nghlocsia, eu clymu nhw yn sownd i'w gilydd hefo'r cria, ac wedyn eu cario dros fy ysgwydd.

Ymlaen â fi yn hapus iawn achos doeddwn i ddim yn bell o adra. Cyn hir roeddwn yn troi i lawr wrth Gapel Cysegr am y pentre, ac i lawr a fi yn nhraed fy sana, a rheini wedi malu yn dipia mân. Cyrraedd ffenest y siambr lle roedd mam yn cysgu, a curo ar y ffenest a gwaeddi "Mam". Clywais Mam yn ffraeo y plant eraill "Be sydd yn mater arna chwi", meddai "Cerwch i gysgu mewn munud". Curais ar y ffenest wedyn a gwaeddi "Mam agorwch y drws fi sydd yma".

Brysiodd Mam i agor y drws wedi dychryn yn arw, a pan welodd hi fi dyma hi yn beichio crio, a finnau yn sefyll ac yn edrych arni yn methu deall pan roedd hi yn crio. Roeddwn i wedi blino yn ofnadwy, ac mi gysgais yn sownd am oriau. Y bore wedyn mi oedd y creadur dyn o Lanberis yn chwilio amdanaf, ond awn i ddim yn ôl hefo fo am ddim pris yn y byd.

1988 BLWYDDYN MATHEMATEG GYNRADD

Lawnsiwyd Blwyddyn Mathemateg Gynradd yng Nghymru ar ffurf arddangosfa yn y Swyddfa Gymreig ddechrau fis Mawrth.

Cof llawer o oedolion am fathemateg yn yr ysgol yw gwneud rhesi o symiau, a'r rheini heb lawer o synnwyr yn perthyn iddynt. Bellach mae ysgolion yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar fagu dealltwriaeth, ar waith ymarferol ac ar feithrin agweddau positif at fathemateg.

Mae 1988 yn flwyddyn arbennig iawn yn hanes dysgu mathemateg yn yr ysgol gynradd. Yn ystod y flwyddyn hon bydd ysgolion ledled y wlad yn tynnu sylw rhieni a'r cyhoedd i'r datblygiadau sydd wedi digwydd a'r hyder newydd a'r mwynhad sydd bellach yn rhan o brofiadau plant wrth ddysgu am fathemateg.

Yng Ngwynedd bydd ysgolion cynradd ar hyd a lled y sir yn cynnal gweithgareddau i fynd â'r neges i'r cyhoedd. Mae cynlluniau ar droed i gynnal arddangosfeydd o waith plant, gweithdai i rieni, dyddiau agored a llwybrau mathemategol lleol.

"Y nod yw dangos cymaint y gall plant fwynhau mathemateg a datblygu'n hyderus yn y pwnc," yn ôl Mr Ronald Williams, Prifathro y Coleg Normal, Bangor, cadeirydd panel sy'n llywio'r gwaith yn y sir, "Bydd ardaloedd Gwynedd yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau yn ystod y flwyddyn."

Pôs i'r darllenwyr:

Gan ddefnyddio'r pedwar rhif

1 9 8 8

sawl rhif pedwar digid gwahanol fedrwch chi ffurfio?

DEWCH I'N HELPU

Rydym angen rhywun i drefnu plygu'r Eco. Am fanylion, cysylltwch ag unrhyw un o'r Golygyddion.

ACTORION LLANBERIS

Cwmni Drama Llanberis a fu'n perfformio'r ffars 'Awel Dro' ym mro'r Eco yn ystod y mis a aeth heibio.

OSMOND SHAW
DEINIOLEN
Gwerthu
a Thrwsio
Teledu Lliw Newydd
ac Fel Newydd
GWASANAETH
FFON 24AWR
LLANBERIS 870545

Aled Jones
Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio
4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047

HOME IMPROVEMENT CENTRE
FFORDD YR ORSAF, LLANRUG
Ffôn: C'fon 2212
ar gyfer...
Paent, Papur wal, Anghenion addurno, Coed, Tywod, Gro, Brics, Blociau, a Sment, Offer plymio
Anghenion Tŷ, Garddio, Hadau Unwin, Hardware, nwyddau Ironmonger Teganau

Y Bistro
Glandŵr
43-45 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: LLANBERIS 871278
(Danny a Nerys Roberts)
CURIAD CALON CYMRU
CURIAD CALON CYMRU

"TRIAWD"

gan Y Gwalch

I mewn yn y tir ychydig filltiroedd o Cap Gris Nez yn Ffrainc, mae pentref bychan o'r enw Peuplinques (Pyplanc). Pan oeddem ni yno roedd yn nodweddiadol o bentrefi gwledig Pas de Calais; eglwys o faint, gweithdy gof, tafarn, siop, sywddfa bost fechan, ac ar y cyrion, ffermydd lled fawr yn perthyn i'r un gymuned. Daethom i gysylltiad â'r gymdeithas yma yn fuan ar ôl y Rhyfel, a hynny am fod ein cyfaill Jean Claude o Galais wedi priodi â Bernadette, un o enethod Peuplinques, ac un o ferched Monsieur Talleux – Vasseur, y gof a'r tafarnwr, a chyn aelod o'r fyddin gel.

Yn ystod ein arhosiad yno cawsom gyfle i gyfarfod trigolion eraill y pentref a gwylio gweithgareddau'r efail. Nid oedd gwasanaeth ceffylau mawr gwynion y Boulognais wedi ei lwyr hepgor oddi ar y tir, a deuai un neu ddau o'r anifeiliaid hardd yma i gael eu pedoli o dro i dro, a chefais unwaith y gorchwyl o ddychwelyd un i'w berchennog.

Ymysg y trigolion â oedd yn ffurfio fframwaith y pentref roedd y curé a gynhaliai wasanaethau pabyddol mynych yn yr eglwys, y llythyrgludydd doniol a lysenwyd yn Gagarin am ei fod yn gwibio yn ôl a blaen i Galais i mofyn negesau, y meddyg teuluaidd, a'r hen fachgen hwnnw oedd wedi gwasanaethu gyda'r Foreign Legion.

Deuai rhain yn rheolaidd i'r 'buvette' i oedi uwchben gwydriad o absinthe neu cognac neu creme de menthe, ac i chwarae pŵl ar y bwrdd bregus. Eisteddai eraill y tu allan yn gwylio'r llanciau yn chwarae bwls yn y llwch.

Ymysg y rhain roedd ffermwr, nas gallaf, am resymau amlwg eu henwi. Roedd yn cadw fferm laeth a ffrwythau helaeth ar gyrion y pentref. Roedd ei ddulliau mor chwyldroadol yr adeg honno fel y deuai minteioedd yno mewn cerbydau i weld ei eiddo. Cyflogai amryw o ferched i wneud y gwaith tymhorol, teneuo blagur, impio a hel y ffrwythau fel yr aeddfedent. Merched lleol oeddent am y mwyaf, ond yn eu mysg roedd geneth o Galais o'r enw Hoelle; merch dal osgeiddig a'i gwallt tywyll yn disgyn tros ei hysgwyddau.

Yn ystod ein hymweliad treuliasom beth amser yng nghwmni'r bobl hyn, a chawsom groeso gan wraig y fferm ei hun. Dynes weithgar ddiwyd ydoedd a'i bryd ar ddim ond llwyddiant y fferm. Yn wir yr oedd y gŵr a'r wraig yn adlewyrchu cymdeithasgarwch a ffyniant yr ardal.

Synnwyd ni felly ar ôl bod adre am gyfnod, pan welsom yn ddamweiniol baragraff wedi ei wasgu i waelod dalen yn un o bapurau Llundain. 'Ffermwr o Peuplinquea, Pas de Calais wedi llofruddio ei wraig yn Cap Gris Nez'. Soniais am y peth wrth ysgrifennu i Jean Claude a Bernadette. Cawson yr hanes yn eu hatebiad ond ni ddaeth y manylion i'r amlwg nes i ni wedyn ymweld â Pheuplinques.

Yn yr adroddiad swyddogol, roedd gwraig y ffermwr un bore yn y plygain wedi derbyn ei her i fynd i ymdrochi yn y môr ar draeth Cap Gris Nez. Boddodd hi, a haerai ef iddi fynd i anhawsterau mewn dŵr dwfn, a'i fod er ei holl ymdrechion wedi methu ei hachub. Yn ddiweddarach, wrth gael ei groesholi yn y llys, cyfaddefodd ei fod wedi dal ei wraig o dan y dŵr yn fwriadol nes iddi foddi, ac yn ôl tysytiolaeth rhai eraill, nid hwnnw oedd y tro cyntaf iddo geisio rhoi terfyn ar ei bywyd. Roedd unwaith wedi gosod nodwydd wedi ei throchi mewn gwenwyn yn sedd ei char, a bu hi o ganlyniad yn ddifrifol wael.

Daeth y meddyg i dystio fel y daeth y wraig ato yn cwyno gan boenau a salwch dieithr. Roedd ef yr adeg honno yn amau ei bod wedi bwyta bwyd aflan. Daeth yr hen filwr o'r Lleng Ffrengig ymlaen i ddweud fel y daeth y ffermwr ato un noson i ofyn am ychydig o curare i'w gymysgu â chyffuriau eraill fel moddion i anifail sâl. Tystiodd Gagarin hefyd fel y daeth â nodwyddau o Galais ar arch y ffermwr, ac yn olaf, ac yn fwyaf damniol efallai bu raid i'r curé dorri rheol gyfrinachol ei gyffesfan. Dywedodd fel y darfu i'r ffermwr ddod ato i gyfaddef fel yr oedd yn cynnal carwiriaeth â'r ferch Joelle, ac i ofyn ei gyfarwyddid a'i gyngor.

Cafwyd y ffermwr yn euog o lofruddio ei wraig trwy foddi, a bu'n ffodus meddir i osgoi'r Guillotine. Am a wn, mae'n dal i ddihoeni yng ngharchar y Santé ym Mharis. Aeth y fferm rhwng cŵn a brain. Yn ddiweddarach priododd Joelle a sefydlodd deulu.

Mae hanes y triawd bellach yn rhan o chwedloniaeth Pas de Calais.

ÔL NODYN: Mae'r stori **SINFFI** a fu yn yr 'Eco' ers dim llawer, yn ymddagnos yn y rhifyn cyfredol o'r 'Countryman' dan y teitl *The Gypsy in the Wood.*

COFIWCH AM GYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL YR ECO

Manylion ar y dudalen flaen

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

YSGOL YRRU OFALUS

* **Gwasanaeth 7 diwrnod**
* **O ddrws i ddrws**
* **Control Deuol**

D L PRITCHARD

43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

PENBLWYDD: Llongyfarchiadau i Mrs Mair Griffiths, Ael-y-Bryn ar ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar Fawrth 12fed. Yn anffodus, cafodd Mrs Griffiths ddamwain yn ei chartref wythnos yn ddiweddarach. Anfonwn ein cofion ati gan ddymuno iddi adferiad llwyr a buan iawn.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn â Mr Thomas Jones, 2, Ffrwd Madog yn ei brofedigaeth yn ddiweddar o golli ei chwaer yn y Waunfawr. Mae ein cydymdeimlad hefyd â MrsBetty Owen, Tros yr Afon yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd Mr Owen Glyn Foulkes, Penygroes.

Dymuna Betty a Glyn Owen,Tros yr Afon a'r teulu ddiolch i bawbam eu galwadau a'u geiriau caredig yn ystod eu profedigaeth o golli brawd, Owen Glyn Foulkes mor frawychus o sydyn. Hefyd diolch i'r Parch John Morris am ei wasanaeth.

SEFYDLIAD Y MERCHED:Nos lau, Mawrth 3ydd, yngNgwesty'r Victoria, Llanberis cafwyd cinio i ddathlu Gwyl Ddewi. Agorwyd y noson gyda chyflwyniad gan Barti Dawnsio Gwerin o Adran Bentref yr Urdd Penllyn. Wedi mwynhau lluniaeth draddodiadol Gymreig, cyflwynwyd gŵr gwadd y noson sef Mr John Owen Hughes, Waunfawr gan Mrs Ifanwy Jones. Twysodd ni i fyd ofergoeliaeth a dylanwad gwrachod ar rai agweddau o'r ffordd o fyw yn yr amser a fu. Diolchwyd i Mr Hughes am sgwrs mor ragorol a chynhyrfus gan Mrs Pat Jones. Nos Lun, Mawrth 21ain, cyfarfu aelodau'r gangen yn y festri. Treuliwyd y cyfarfod i wneud trefniadau gogyfer a'r Wŷl Wanwyn a gynhelir yn Ysgol Brynrefail ar Fai 6ed. Ymhlith gweithgareddau eraill yn y dyfodol agos mae cystadleuaeth moduro gofalus ar Faes Parcio Ferodo dan nawdd yr Heddlu a Sefydliad y Merched ynghyd a Thwmpas Dawns ar Ebrill 22ain. Paratowyd lluniaeth y noson gan Mrs Eirlys Williams a Mrs Ironwy Roberts ac enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Jennie Roberts, gan Mrs Jennie Maxwell.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss M Humphreys, 4 Tai Tan y Coed (Llanberis 870030)

CYFARFOD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD: Prynhawn dydd Gwener cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd (Rhyngwladol) yng Nghapel Tan-y-Coed.

Trefnwyd y gwasanaeth eleni gan Chwiorydd Cristnogol Brazil – Thema y gwasanaeth oedd 'Drysau Agored'. Arweinydd y cyfarfod oedd Mrs Megan Williams, Dwyfor. Traddodwyd anerchiad ar y thema 'Drysau Agored' gan Miss Megan Humphreys, Cadnant. Y cyfeilydd oedd Miss Enid Roberts, Minafon.

Cymerwyd rhan hefyd gan Mrs K Griffiths, Mrs E Whiteside Thomas, Mrs J.C Williams, Mrs C Williams, Mrs C Owen a Mrs A Smith o Gapel Pontrhythallt. O Gapel Mawr Llanrug cymerwyd rhan gan Mrs J Davies, Mrs J Parry, Mrs N Roberts,Miss M Roberts a Mrs B Thomas. Oherwydd gwaeledd methodd Mrs Jones Evans a chynrychioli Capel Hermon.

Dydd Sul Mawrth 209fed yng ngwasanaeth y prynhawn yng Nghapel Tan-y-coed, darllenwyd tocynnau aelodaeth Mrs Jane Humphreys, Las Ynys, Rhos Rhug a Mr a Mrs David Roberts 18 Tal-y-bont. Croesawyd y teulu gan y gweinidog Y Parch John Morris. Croesawyd hefyd yn ei habsenoldeb, merch fach bum wythnos oed Sofie Angharad, merch Mr a Mrs Roberts. Ein dymuniadau gorau i Sofie a'i theulu.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr a Mrs Wynne Gelliod ar enedigaeth ŵyr arall iddynt, Mark Alun Shepherd. Dymuniadau gorau i'r mab bychan a'i deulu.

Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Iola Butler, Haddef ar enedigaeth ei wyres Nis Elizabeth. Dymuniadau gorau hefyd i Nia a'i theulu.

YMADAEL: Yn ddiweddar symudodd aelod ffyddlon o Gapel Tan-y-Coed i fyw i Waunfawr. Bydd colled fawr ar ôl Mrs Margaret Owen Is y Bryn, Tai Trefor. Dymunwn bob bendith iddi yn ei chartref a'i chylch newydd.

CYDYMDEIMLAD: Y mis hwn eto mae galw am ddatgan ein cydymdeimlad diffuant â Mrs Nance Williams a'i nai Mr Michael Williams, Cartref a'r teulu oll yn enwedig chwaer Miss Williams, Mrs Winnie Meredith, Caernarfon a'i phlant Mary George a David, yn eu profedigaeth sydyn ym marwolaeth Mr Ivor John Meredith, priod a thad annwyl. Bu Mr Meredith farw yn Ysbyty Gwynedd Mawrth 13eg. Boed i'r teulu oll wybod nerth a chysur yn eu galar a'u hiraeth.

LLWYDDIANT Eisteddfodol: Ffion John Williams, Fferm Minffordd enillodd y wobr gyntaf am ganu Unawd Cân Werin (15-19) ym Mhenygroes Dydd Sadwrn Mawrth 19eg. Bydd Ffion ynawr yn mynd ymlaen i'r ornest derfynol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Y Drenewydd.

Llongyfarchiadau i Ffion a dymuniadau gorau am fwy o lwyddiant eto yn y Genedlaethol.

Enillodd Siwan Eurgain, Pant Bryngwyn y wobr gyntaf am adrodd dan 12 oed yn Eisteddfod yr Urdd Cylch Arfon ym Mrynrefail. Bydd yn cystadlu ymhellach yn Eisteddfod y Sir. Yr oedd Siwan a'i chwaer Gwenan ymhlith y partion dawnsio enillodd yn yr un Eisteddfod. Byddant hwythau yn mynd ymhellach yn Eisteddfod y Sir. Siwan ym Mharti dan 12 a Gwenan dan 10. Pob hwyl eto iddynt hwythau.

APÊL Y GALON

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol o Gangen Caernarfon a'r Cylch, Apêl Ymchwil y Galon nos lau 10fed o Fawrth. Estynnodd y Cyngh. Miss M Richards, Y Cadeirydd groeso i Mr Alan Ware, Trefnydd newydd tros Wynedd a Chlwyd, hefyd croesawyd tair aelod newydd. Mae Apêl wedi ei lansio gan y gangen i brynu (defibrilliator) peiriant calon at wasanaeth yr Ambiwlans lleol, mae un peiriant yn costio £4,000 i £5,000 ac mae angen dwy o'r rhain yng Ngorsaf Ambiwlans Caernarfon. Hysbyswyd y pwyllgor fod un peiriant wedi ei archebu yn barod, hyn drwy gyfraniad o £2,000 gan bwyllgor lleol apêl y galon, a'r gweddill gan y gwŷr ambiwlans lleol. Os dymuna rhywun gyfrannu tuag at yr Apêl gellir anfon i'r Trysorydd Mrs J Whittaker "Lynton" Ffordd Bangor, Caernarfon. Bydd stondin gacennau ar y maes yn Caernarfon dydd Sadwrn 30ain Ebrill. Cynhelir y casgliad o dŷ i dŷ o'r 6ed Mehefin i'r 18ed. Llynedd casglwyd y swm o £1,699.95 y swm mwyaf a gasglwyd hyd yma.

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

Fe ddechreuaf gasglu'r newyddion at ei gilydd y tro hwn tra mae tymor y 'ffliw' a'r 'bronchitis' yn dirwyn i ben. Rhyw dymor o golli awch am fwyd a fu hwn, a phob un ohonom yn rhyw led obeithio gweld gwanwyn newydd yn ymaflyd yn ein hardal. Fe glywsom yr 'heicopter' yn ateb i gais wardeiniaid y mynyddoedd i gludo anffodusion a fu mewn damweiniau ar y mynyddoedd a'u cludo i ofal ysbyty Gwynedd. Fe ddaw nifer o ddringwyr heb baratoi yn ddigon trwyadl gyda'r canlyniad bod rhai ohonynt yn colli eu bywydau, a'r achubwyr bywydau yn gorfod mentro i leoedd peryglus iawn er ceisio eu hachub. Yn anffodus nid oes ganddynt y profiad chwarelyddol sydd ym meddiant pobl lleol. Wrth gwrs rhaid cydnabod bod ysbryd mentro yn rhan o fywyd yr ifanc ymhob cenhedlaetrh ond fe dry rhai braidd yn rhy ryfygus.

TYMOR TYFU: Nid rhwydd y gellir garddio mewn ardal sydd mor uchel i fyny yn y mynyddoedd ac eithrio pan mae Tŷ gwydr wrth law. Mae gwyrthiau'n digwydd mewn lleoedd mor anhygyrch a phridd heb fawr dyfnder ynddo. Fe ellir etifeddu ffydd a all symud mynyddoedd o anhawsterau.

UNO: A minnau wedi bod yn sôn mewn rhifynnau blaenorol am y praidd yn ein capeli a'n heglwysi ni allwn chwaith lai na phryderu oherwydd bod anhwylder ambell dro yn taro ein gweinidogion. Diolchwn serch hynny, bod ysbryd cydweithio yn cael ei feithrin yn ein plith a'r enwadau crefyddol yn tynnu at ei gilydd i rannu profiadau a breintiau. Fe dynnodd ein cyndadau fath o 'Seiat Profiad', ac fe fu hwnnw'n gyfrwng i'w cynnal ar y daith. Oni chlywsom am rywrai'n gorfoleddu ynghanol anhawsterau.

DATHLU: Ym mlwyddyn dathlu pedwar canmlwyddiant cyfieithiad yr Esgob William Morgan o'r Beibl, onid rhagorol a fuasau darganfod o'r newydd ramant y gwyliau Eglwysig a sylweddoli eu neges unwaith yn rhagor. Fe hoffem gredu bod oes aur ein crefydd o'n blaen, ac nid yn unig yng nghreiriau'r gorffennol. Perthynwn i garfan gref, ac ymffrostiwn yn ein treftadaeth. Ni fu ein crefydd ar yr uchelfannau bob amser ac ar bob achlysur, ac er i ni gael trai a llanw fe fu'n sicrwydd o'n ffydd yn yr anweledig. Cofier mai'r Apostol Paul oedd yn cyflwyno i'r Atheniaid grefyddol y Duw nid adwaenir, ond fe roddwyd adnabyddiaeth llawn i'n hynafiaid. Fe ymddiriedwyd y neges i'r iselrai a deimlai'n 'fwy na choncwerwyr'. Oni sylweddolwn bod yr ehedydd bach yn mwynhau esgyn i entyrchion neu gan seinio gorfoleddus gân. Y 'llef ddistaw fain oedd yn cario neges orau meddai un o broffwydi Hen Destament, ac nid swn y daran a thwrf yr holl bobloedd. Er holl floeddio proffwydi Bae, nid y gau Dduw a orfu, ond Duw a thad yr holl genhedloedd. Y gair olaf oedd 'yr arglwydd Efe sydd Dduw'. Crynodd Jesebel ac Ahas ond roedd 'Eleias ar ben i Garmel'. Er ei byliau o ddigalondid fe gafodd brofi buddugolaieth ar ei holl elynion.

DYDD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD: Y blynyddoedd diwethaf hyn fe gynhelir hwn yn Eglwys St. Mair ac eleni roedd ar ddydd Gwener Mawrth 4ydd. Thema'r oedfa oedd 'Drysau Agored' ac fe gymrwyd rhan yn y gwasanaeth gan Mrs Alice Griffith, Mrs Medwen Griffith, Mrs Katie Lloyd Jones, Mrs Megan P Morris, Mrs Maggie Pleming, Mrs Nellie Williams, Mrs Eileen Thomas, Mrs Beti Lloyd Roberts a Mrs Beti Roberts. Y cyfeilydd oedd Mrs Jennie Williams.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Dirwyn i'w derfyn mae tymor y Gymdeithas Lenyddol, ac er i rai ohonom golli nosweithiau diddorol, eto fe ellir tystio i'r tymor fod yn fuddiol ac adeiladol. Hyfryd yw gweld rhai o'r Saeson yn ein plith yn ymdaflu i mewn i draddodiadau cynhenid yr ardal, ac ni ellir eu cyhuddo chwaith o'n troi yn Saeson. Collodd llawer ardal ei Chymreictod yn y gorffennol gyda'r perswad bod ffordd y Saeson yn well! Ataliwyd y duedd hon ers nifer o flynyddoedd bellach a da hynny. Nid gwrth Seisinigrwydd sydd tu ôl i'r Sylwadau hyn chwaith.

Fe ddiweddwyd tymor y Gymdeithas Lenyddol gyda 'Chawl a Chân' a'r Saeson sy'n dysgu Cymraeg oeddd yn gofalu am y difyrrwch. Yn anffodus fe fethais i a bod yn bresennol. Collais un neu ddau o gyfarfodydd ail hanner tymor, a rhaid dibynnu ar gofnodion ysgrifennydd Swyddogol y Gymdetihas i'm cynorthwyo i lenwi'r bylchau. Un noson yr oeddwn yn absennol oedd Chwefror 4ydd pryd y cafwyd drama gan gwmni leuenctid o Lanberis a gyflwynodd 'Awel Bro'. Serch hynny roeddwn yn bresennol ar Chwefror 18 pan gafwyd noson hynod ddiddorol gan Mr Lesli Larsen, Penisarwaun. Y llun cyntaf a daflwyd ar y sgrîn oedd o gapel 'Sardis', ond fe gafwyd nifer o ddarluniau o driluniau a lluniau o gyfeillion o fewn cylch eang. Tystiai'r sylwadau i nifer werthfawrogi'r noson.

LLONGYFARCHIADAU: Hyfrydwch yw cael cofnodi geni plentyn arall i Annette Bryn a Gwyn Parry, Cynefin, Deiniolen. Annette wrth gwrs yn un o deulu Tŷ'r Ysgol. Enw'r mab yw Ynyr Gwyn – brawd i Heledd. Aiff ein llongyfarchiadau iddynt a'u rhieni yma yn Ninorwig.

GWAELEDD: A ninnau'n llongyfarch Mrs Maggie Evans, Dublin House yn ein rhifyn diwethaf, gyda chryn chwithdod y clwysom iddi gael ei chludo i Lerpwl i dderbyn triniaeth ar y galon. Fe fu ar hyn a elwir Pace Maker. Dymunwn iddi hithau wellhâd llwyr a buan.

DIOLCH: Dymuna Mrs Dora Jones, Bryn Hyfryd ddiolch yn fawr iawn i'w chymdogion a llu ffrindiau am y cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd yn ystod ac ar ôl ei harosiad yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd dymuna Mr Gwilyn Irfon Jones, Tan y Buarth uchaf ddiolch i'r teulu a ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben blwydd yn ddeunaw oed. Derbyniwyd cais cyffelyb oddi wrth Alison, Foel Gron a James am gardiau ac anrhegion dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu dyweddïad.

CANOLFAN GYMDEITHASOL: Mewn cyfarfod diweddar o bwyllgor y Ganolfan penderfynwyd estyn gwahoddiad i rieni plant y pentref a phwy bynnag arall sydd a diddordeb mewn chwarae snwcer, i gyfarfod ag aelodau y pwyllgor ar ddechrau eu cyfarfod nesaf sydd i'w gynnal ar **nos Fawrth, Ebrill 12fed am 7.00** yn y Ganolfan. Pwrpas y cyfarfod fydd ceisio cael trefn ar yr ystafell snwcer a dod i benderfyniad ynglŷn â rheolau defnyddio'r lle. Mae'r pwyllgor yn mawr obeithio y bydd nifer ohonoch yn medru dod i drafod y mater yma gyda hwy.

NOSON O HWYL A CHÂN: Ar ôl llwyddiant ysgubol yr Eisteddfod Bentref ceisiwyd cario'r brwdfrydedd hwnnw ymlaen i'r flwyddyn newydd a chyda hynny mewn golwg mae rhai o'r dysgwyr a Chymry Cymraeg lleol wedi bod wrthi yn ystod misoedd y gaeaf yn paratoi eitemau ar gyfer eu llwyfannu mewn noson o hwyl a chân. Felly erbyn i chwi ddarllen y nodiadau hyn bydd y noson honno wedi ei chynnal ers nos Fercher – 23ain o Fawrth. Wrth baratoi yr ychydig nodiadau hyn mae'n rhaid dweud bod pethau yn argoeli yn dda gyda nifer fawr yn edrych ymlaen at y noson, Cawn gyfle yn y rhifyn nesaf o'r Eco i adrodd yn llawn am y noson.

GWEITHGAREDD CHWARAEON: Y gweithgaredd nesaf ar y gweill yw cynnal prynhawn o weithgareddau chwaraeon rywbryd yn ystod misoedd yr haf – dyweder mis Mehefin neu Orffennaf. Mae'n anodd bod yn fanwl ar hyn o bryd, ond os oes gennych ddiddordeb i gynorthwyo gyda'r trefniadau, yna buasai Mr Glyn Tomos yn falch iawn o gael clywed gennych. Felly cofiwch gysylltu ag ef o fewn y dyddiau nesaf – bydd yn falch o bob cymorth. Gyda llaw, fel gyda'r Noson o Hwyl a Chân, bydd elw cynnal y gweithgaredd yma yn mynd tuag at gronfa leol apêl Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Dyffryn Nantlle ac Arfon, 1990.

DYDD GWENER Y GROGLITH: Fel y llynedd gobaith plant Ysgol Sul Eglwys St. Mair, o dan arweiniad Glyn Tomos, yw mynd o gwmpas y pentref yn cario croes bren er mwyn cofio am yr aberth a wnaed gan Grist dros bob un ohonom. Y bwriad yw cychwyn o Eglwys St. Mair am 2.00 a dychwelyd am 3 o'r gloch ar ôl bod o gwmpas y pentref, yna cynhelir gwasanaeth syml o flaen yr Eglwys. Mae croeso i unrhyw un ymuno â hwy – yn blant neu oedolion.

HER NEWYDD I BLAID CYMRU

Bydd Etholiad Ewrop ym 1989 yn cynnig her newydd a chyffrous i Blaid Cymru, yn ôl Llywydd y Blaid, ac ymgeisydd Ewropeaidd Gogledd Cymru, y Dr. Dafydd Elis Thomas.

Wrth annerch cyfarfod cyntaf pwyllgor "Gogledd Cymru yn Ewrop" y Blaid, a gynhaliwyd yng Nghorwen, ddiwedd Chwefror, honnodd y Dr. Thomas fod "rhaid i'r ymgyrch Ewropeaidd gynrchioli dim llai na newid hanesyddol yn swyddogaeth Plaid Cymru – yr amser iddi ddod yn Blaid Cymru yn Ewrop."

Gan gyfeirio at yr Un Ddeddf Ewropeaidd, a fydd yn dileu ffiniau a thollbyrth o fewn y Gymuned Ewropeaidd ym 1992, dadleuodd Llywydd Plaid Cymru y bydd y wladwriaeth Brydeinig yn dechrau dadfeilio bryd hynny.

"Ni all neb gyhuddo Plaid Cymru o geisio bod "ar wahân" byth eto, gan na fydd gwladwriaethau ar wahân yn bod o fewn yr Ewrop newydd. Dyma'n cyfle ni i arwain Cymru i mewn i Ewrop, er mwyn i ninnu rannu'r manteision y mae rhai o genhedloedd bychain eraill Ewrop wedi eu mwynhau ers llawer o flynyddoedd.

"Etholiad Ewrop 1989 yw'r cyfle gorau y gallem ni yng Nghymru fod wedi gobeithio amdano i sicrhau grym gwleidyddol go iawn, a dim ond Plaid Cymru all sicrhau'r grym yna i Gymru yn Ewrop."

Dewisodd pwyllgor "Gogledd Cymru yn Ewrop" o'r Blaid y swyddogion canlynol: Dr. Carl Clowes yn Gadeirydd, Mr Elfed Roberts yn Drefnydd, Mr. Barry Hills yn Drysorydd, a Mr Eifion Lloyd Jones yn Swyddog Cyhoeddusrwydd.

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES
17 BRYN TIRION
PENISARWAUN
Ffôn: LLANBERIS 872421

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

DEWIS EANG O
WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC – ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

ADLAIS O'R DIWYGIADAU

Y mae adleisiau o'r Diwygiad yn llenwi'r awyrgylch y dyddiau hyn gyda'r Beibl Cymraeg newydd. Dyma hen benillion ac emynau a glywais gan y diweddar Mrs Mary Jones Pantglas.

Y mae rhyw swyn rhyfedd ynddynt i ni sy'n Gymry ac yn cofio rhai o'r hen orfoleddu a'r hen gymeriadau gonest.

Y mae'r waedd hanner nos bron a dyfod
Gest ti d'olchi yng ngwaed y Groes
Wyt ti'n barod?
Paid a hepian gyda chwant
Nes mynd yno
Cais yr olew yn dy lamp
Wedi ei thrwsio.

Emyn Diwygiad 1859 oedd hon. Byddai gorfoledd pan fyddai taid Mary Jones yn ei dweud, meddai hi. 'Wmffra Pritchard, hen ŵr Penfras oedd taid. Yr oedd teulu Penfras wedi byw yno am bedwar can mlynedd', meddai hi. Yn ymyl Fourcrossess yr oedd Fferm Penfras. Dyma'r dyddiad pan oedd Mary Jones yn dweud yr hen benillion yng Nghanolfan y Weinidogaeth Iachau yng Nghaernarfon, 17 Mai 1974. Gwledd oedd gwrando arni.

Dyma benillion allan o Hen Lyfr Emynau y Methodistiaid. Dywedir mai Thomas Ellis, Carnguwch ger fferm Yr Hafod, Llithfaen, fyddai'n dweud y pennill wrth gerdded heibio'r Hafod ar ei ffordd i Gapel M.C. Llithfaen. Dywedir fod y pennill yn ddisgrifiad Cywir o'r daith a phrofiad Thomas Ellis. Clywais Ioan Mai Evans yn ei chanu.

Galaru'r wyf mewn dyffryn du
Wrth deithio i dŷ fy Nhad
Ar ben y bryniau'n llawenhau
Wrth weled cyrau'r wlad.
'Rwy'n ddu fy lliw a'm gwisg yn wen
'Rwy'n llawen ac yn brudd,
'Rwy'n agos iawn ac eto mhell,
'Rwy'n waeth, rwy'n well bob dydd.

O Fethlem Juda i Galfaria
Y daeth Ei yrfa hardd i ben,
Nid oedd ond tair ar ddeg ar hugain
Yn dweud 'gorffennwyd' ar y pren;
Deulu Seion, cymerwch gysur,
O'ch dyledion dowch yn rhydd,
Y ddraig sy'n crynnu a'r wraig yn canu
A'i had hi wedi cario'r dydd.

Ar y ffôn y cefais hon gan Mary Jones 20.5.74

Cofio'r wyf yr awr ryfeddol
Awr wirfoddol oedd i fod
Awr a drefnwyd cyn bod amser
Awr a'i diben wedi dod
Awr wynebu ag un aberth
Awr fy Nuw i wirio nerth
Hen awr annwyl prynnu enaid
Awr y Gwaed pwy wŷr ei gwerth?

Mae sobrwydd yn y Nefoedd
A sobrwydd ar y llawr,
A sobrwydd perffaith gwbwl
Yn uffern dân yn awr,
Am hynny sobrwn ninnau
Tra byddom yma'n byw,
Rhag ofn i'n gael ein sobri
A llid digofaint Duw.

Mrs C Roberts, Hedsor Villa adroddodd y pennill yma wrthai wrth sgwrsio ar y ffordd o flaen y tŷ Tachwedd 22, 1974.

Canwyd llawer iawn ar y penillion canlynol yn ystod y Diwygiad 1904.

Tôn Capel y Ddôl

Gelwaist Mair a gelwais Martha
Gyda Lazarus eu brawd,
Yn ei ddilyn a'r ddwy hatling
Wele'n dod y weddw dlawd.

Cytgan:
Glaw finnau, Galw finnau,
Iesu Annwyl ar dy ôl.

Daeth y gwragedd ar y cyfddydd
I'th groesawu Iesu hardd:
Pan gadewaist byrth marwolaeth
Pyrth y bedd oedd yn yr ardd
Galw finnau etc.

Ar Dy alwad daeth y gwragedd
I Dy ddilyn yn ddi-len;
Daeth Joanna a Susanna
Hithau'r Fair o Fagdalen.
Galw finnau etc.

Gelwaist Mathew wrth y dollfa,
Gelwaist Pedr ger y lli;
Gelwaist Iago gyda Ioan
Hen bysgotwyr Galili.
Galw finnau etc.

Gelwaist Dy alwyliaid tirion
Pan ar ffordd y Ddwyfol loes
Dac Simon o Cyrene
A'i ysgwyddau dan Dy Groed
Galw finnau, Galw finnau
Iesu annwyl ar Dy ôl.

Os gwyddoch pwy ydyw awduron y penillion buaswn yn falch o gael eu henwau. Anfonwch at Dafydd Whiteside Thomas, Y Golygydd. Diolch ymlaen llaw.

Gan y diweddar Mr Gwilym Jones, Bethel, ger Caernarfon y cefais y pennill canlynol 11.11.76

A glywasit ti son am Iachawdwr y Byd
Fu farw o'i foddi ar y Groes?
Fe yfodd y Cwpan i'r gwaelod i gyd
Ei fywyd yn aberth a roes:
A welaist ti ef, hynafgwr diwerth,
A glywaist ti sôn am breswylydd y Berth
Mae'n disgwyl am danat
Mae'n digwyl am danat
Mae'n disgwyl am danat yn awr.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

SIMNEIAU GWAEL? CRACIAU? MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFLUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG
Ffôn: Llanberis 871376

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

YSGOL YRRU: Yn rhifyn diwethaf yr *"Eco"* cyfeiriwyd at agor busnes siop sglodion ym Methel. Y mis yma 'rydym yn llongyfarch ac yn dymuno'n dda i Mr Richard Hughes ar ddechrau busnes dysgu gyrru.

Oherwydd gwaeledd bu rhaid i Mr Hughes roi'r gorau i'w waith gyda Awdurdod Dŵr Cymru ond, ar ôl cyfnod yn ddiwaith, gyda chymorth y Cynllun Lwfans Menter mae Mr Hughes bellach wedi mentro i fusnes ar ei liwt ei hun drwy agor Ysgol Yrru Bethel. *Mae Richard yn cynnig gwersi am £6.50 yr awri'r di-waith, y rhai sydd ar gyrsiau'r Y.T.S, myfyrwyr a phlant ysgol sydd mewn oed gyrru.*
Am fanylion pellach ffoniwchRichard a'r Felinheli 671009.

LLONGYFARCHIADAU: i Bethan Fôn Jones "Bro Dawel" Rhoslan ar ddod yn gyntaf yn Eistaeddfod Trefriw ac ail yn Eisteddfod Marianglas ar ganu dan 8 oed.

ADRAN URDD: Treuliodd cangen yr Urdd nosweithiau difyr iawn yng nghwmni Miss Glenys M. Parry, Llanberis a Mr Oscar Evans, Bethel. Bydd y tymor i ddod i ben ar nos Wener 15fed Ebrill gyda ymweliad â'r Ganolfan Hamdden Caernarfon. Bws yn gadel yr ysgol am chwarter i saith. Dychwelyd 8.30 o'r gloch.

Cafwyd noson Goffi lwyddiannus iawn at yr Adran Leol nos Wener, Mawrth 4ydd yn y Neuadd. O dan arweiniad Mr Geraint Elis cawsom gynerdd gan y plant oedd wedi bod yn cynrychioli'r gangen leol yn Eisteddfod Cylch dan 12 a dan 15 oed. Cyflwynwyd tusw o flodau i Mrs Glenys Griffith a Mrs Rita Williams ar ran aelodau y Côr dan 12 oed a'r party Cerdd Dant dan 12 oed.

Enillwyr y raffl oedd Mrs Beti Owen a Mr Geraint Elis ac enillwyr y gemau "Sgwariau" oedd Mrs Glenda Jones a Mrs Sian Hughes.

Dymuna Mrs Rita Williams, fel ysgrifenydd y gangen ddiolch yn fawr iawn i bawb am gefnogaeth deilwng i'r noson, a diolch yn arbennig i'r pwyllgor am weithio'n galed i sicrhau llwyddiant.

EISTEDDFOD GYLCH: Llongyfarchiadau i Bethan Fôn Jones, Rhoslan am ddod yn 3ydd ar ganu dan 8 oed. Hefyd i'r Côr a'r plant dan 12 oed a'r parti adrodd dan 15 oed. 'Rwyn siwr y daw ein tro ni i ddod i'r brig yn y dyfodol. 'Roedd y partion wedi eu dysgu gan Mrs Mair Price, Mrs Glenys Griffith a Mrs Rita Williams.

Dymuna Glenys a Rita ddiolch yn fawr iawn i'r rhieni gyfranodd at y blodau hardd ac i Mrs Sian Robinson am drefnu.

Y NEUADD GOFFA: Fel yr adroddwyd yn y rhifyn diweddaf o'r Eco cynhelir cyfarfod cyhoeddus arall yn y Neuadd nos Fercher Ebrill 20ed, i drafod cynlluniau i wella'r Neuadd. Yn y cyfarfod diweddaf penderfynwyd ystyried cynlluniau fyddai yn costio hyd at £60,000. Os byddwn yn llwyddo i gael grantiau byddai hyn yn golygu casglu £15,000 yn lleol.

Agorwyd y gronfa gyda rhodd anrhydeddus o £125 yn dilyn y mini marathon noddedig a redodd Richard Ll. Jones Y Ddôl. Diolch yn fawr i Richard am roi cychwyn mor dda i'r gronfa.

LLONGYFARCHIADAU: i Gwyn a Pat Jones, Tan y Buarth, ar enedigaeth merch fach.

Llongyfarchiadau hefyd i Alwynne a Janet Morris, 10 Y Ddôl, ar enedigaeth eu plentyn cyntaf.

CLWB Y RHOS: Nos Lun, Mawrth 21ain yn yr ysgol cynhaliwyd cyfarfod olaf y tymor Clwb y Rhos. Cafwyd noson difyr iawn yng nghwmni Mr Medwyn Williams, Llanfairpwll. Dangosodd sleidiau o gynyrch ei ardd llawer ohonynt wedi ennill gwobrau mewn sioeau ar hyd a lled Cymru a Lloegr. Diolchwyd i Mr Williams gan Geraint Elis.

Dewiswyd Mr Siencyn M. Griffith yn Is-lywydd am y tymor nesaf gyda J.E. Thomas a Dafydd Williams yn parhau yn Ysgrifennydd a Thrysorydd.

Bydd y tymor nesaf yn agor ym mis Medi gyda'r noson yng ngofal Alwyn Williams, Seion.

YSGOL SUL Y CYSEGR: Bu tair ar ddeg o aelodau Ysgol Sul y Cysegr yn Nefyn yn bwrw'r Sul yn ddiweddar. Roedd y daith yn cychwyn o Fethel Nos Wener, Mawrth 18fed ac er fod y tywydd yn wlyb iawn roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn ac wedi blino yn lan erbyn cyrraedd adref ar y pnawn Sul.

GWILYM H. WILLIAMS
BRYN DAIRY
2 BRYNHYFRYD
BETHEL
Ffôn
Port Dinorwig 670786

Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

YR URDD, ADRAN BENTREF: Nos Fawrth Mawrth 1af daeth Mr Len Jones atom a chafwyd cwis diddorol dros ben, diolchodd Susan Williams.

Nos Fawrth Mawrth 8fed bu'r plant yn brysur iawn yn gwneud gwahanol gardiau ar gyfer Sul y Mamau dan hyfforddiant Mrs Pat Jones, Brynrefail. Diolchodd William Lewis iddi am ddod atom.

Nos Fercher, Mawrth 16, dyma noson y mae pawb yn edrych ymlaen ati bob blwyddyn sef ymweliad â'r Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon. Bu rhai o'r plant yn nofio, diolch i Rhian Cae'r Bythod, Auntie Ellen, Auntie Nant, Auntie Janice ac Auntie Carolyn am ofalu amdanynt yn y pwll. Aeth gweddill y plant i'r gampfa i chwarae pêl droed. Cyfartal oedd y sgôr a diolch i Uncle David Pen Dinas a Uncle Tony Elliot am drefnu'r gêm a gofalu am y plant.

Nos Fawrth, Mawrth 22, cafwyd Parti i orffen gweithgareddau wythnosol yr Urdd, ond mae'n bur debyg y bydd rhai gweithgareddau yn cael eu trefu yn ystod yr haf. Diolch i chwi blant am fod mor ffyddlon yn mynychu'r cyfarfodydd bob wythnos drwy'r gaeaf, a diolch i'r oedolion am roi eu hamser i ofalu amdanoch.

EISTEDDFOD YR URDD: Roeddem yn falch iawn o weld cymaint ohonoch wedi cystaldu yn yr Eisteddfod cylch dan 12 a dan 15 oed, rhai yn gwneud hynny am y tro cyntaf. Llongyfarchiadau i Nia Lewis am lwyddo i fynd i'r Eisteddfod Sir hefo dawns werin unigol, Dyfed Jones gyda'r Unawd Bechgyn, Dafydd Glyn Jones Unawd dan 8 oed. Lois Dafydd adrodd 8-10 oed. Dymunwn bob llwyddiant iddynt.

Da hefyd oedd gweld Sioned Lewis yn dawnsio ar lwyfan yr Eisteddfod Cylch a'r Parti Dawnsio Gwerin, diolch i Mrs Bethan Williams am hyfforddi'r parti a Mrs Carys Jones am gyfeilio iddynt. Roedd gan y plant ddillad newydd i ddawnsio eleni, roeddynt yn edrych yn ddel iawn ac mae'n amlwg fod llawer o amser wedi ei roi i wneud y dillad. Ein diolch i Mrs Ellen Lewis, Mrs Jean Jones, Bryn Tirion a Mrs Mary Elliot, a phawb a gynorthwyodd mewn unrhyw fodd.

Roedden ym falch iawn fod llawer wedi cystadlu yn yr adran gwaith llaw ac arlunio, llongyfarchiadau i Gwenllian ac Owen Turner am ddod yn fuddygol yn y cylch.

Balch iawn oeddem fod Adran Bentref Penisarwaun wedi llwyddo i ddod yn drydydd am y darian yn yr Eisteddfod Cylch dan 12 oed.

CAPEL BOSRA: Adroddiad gan **Mrs Pat Larsen** am wasanaeth **Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd.**
Daeth nifer o chwiorydd yr ardal ynghyd i Gapel Bosra, nos Wener, Mawrth 4ydd i gynnal gwasanaeth i ddathlu Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd.

Llywydd y cyfarfod oedd Mrs Elizabeth Jones, Bryntirion a rhoddwyd anerchiad feddylgar, ardderchog gan Mrs Ann Ifans tra'r oedd Mrs Nansi Jones yn cyfeilio. Bu i gynifer o'r chwiorydd gyfrannu at yr oedfa yn eu plith Mrs Nansi Jones, Mrs Mary Davies, Mrs Eirlys Jones, Mrs Percy Williams, Mrs Eluned Porter, Mrs Betty Hughes, Miss Mair Foulkes, Miss Phyllis Ellis, Mrs Eleanor Jones a Mrs Pat Larsen. Diolch yn fawr i bawb am y parodrwydd i genfogi'r oedfa o flwyddyn i flwyddyn.

CYFLWYNO BEIBLAU: Fore Sul y Mamau sef Mawrth 13eg cyflwynwyd Beibl Cymraeg Newydd ar ran yr Ysgol Sul gan Mrs Eluned Jones, Cae Corniog at wasanaeth boreol yr ysgol Sul.

Rhoddwyd rhodd o Feibl Cymraeg newydd, er cof am y diweddar Miss Ceridwen Griffiths, Commerical i Gapel Bosra gan Miss Marina J Roberts a Mrs Brenda Richardson. Cyflwynwyd y Beibl i'r Capel 'bnawn Sul Mawrth 20fed gan y Gweinidog y Parch Erfyl Blainey.

Cynhelir dwy gymanfa ar Ebrill 24ain. Bydd y plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yn y ddwy gymanfa – Yr Annibynwyr yn y 'pnawn yng Nghapel Jeriwsalem Nant Peris am 2.00 p.m. ac yng Nghapel Jerusalem, Bethesda gyda'r hwyr. Trefnir bws i'r ddwy gymanfa.

GWELLHAD: Y mae nifer o'r pentrefwyr wedi bod yn sâl y mis hwn eto. Deallwn fod Gwenllian Parry, Eurwyn Jones, Nathan Jones, Owen Thomas, Rosie Jones a John E Hughes, Racca wedi derbyn triniaeth yn yr Ysbyty. Gobeithio eich bod i gyd yn well a phawb arall sy'n dioddef anhwylder iechyd.
Gobeithiwn i gyd, fel pentrefwyr, fod Mrs Pat Owen yn gwella ar ôl yr artaith o wynebu dyn arfog yn gwisgo mwgwd. Cafodd Mrs Pat Owen ei wynebu gan y lleidr arfog amser cinio ddydd Sadwrn Mawrth 11 am 11.55 a.m. Bu'n brofiad erchyll iddi hi a Gail ei merch ac rydym i gyd yn anfon ein cydymdeimlad atoch ac yn gobeithio y dowch dros y cynnwrf yn fuan.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr Owen Thomas, Tai Newyddion ar ddathlu ei benblwydd yn 89 yn ddiweddar. Pob bendith i chwi Mr Thomas.

Llongyfarchiadau i Ffion a Derec Roberts, Bryn Eglwys ar enedigaeth eu merch fach Catrin Glyn - chwaer fach i Manon Glyn ac wyres arall i Myfanwy a Dic Parry, Tawelfa.

DIOLCHIADAU: Dymuna John Hughes, Gwynfryn, Racca, Penisarwaun, ddiolch o galon i'w deulu, cyfellion, cydweithwyr a chymdogion am eu caredigrwydd, cardiau a rhoddion tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac yna wedi dychwelyd gartref. Diolch yn fawr.

Dymuna Mrs Bessie Williams, Llys Myfyr, ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl garedigrwydd a ddagnoswyd tuag ati yn ystod ei thirniaeth yn Ysbyty Gwynedd Bangor. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Yr un modd dymuna Eurwyn Jones, Camelot ddiolch i bawb am y llu cardiau, ymweliadau a galwadau ffôn yn ystod ei lawdriniaeth yn ddiweddar.

PWYLLGOR NEUADD BENTREF: I ddathlu Gŵyl Ddewi, Treuliwyd noson hwyliog dros ben, Nos Wener Chwefror 26ain yng Ngwesty Fictoria Llanberis. Noson ddiddorol iawn gydag ambell ŵr a gwraig yn datgan llawer cyfrinach am eu cymar mewn cystadleuaeth Siôn a Siân. Arwel Jones oedd yr holwr, Phyllis y galwr a Delyth ac Alwyn, Douglas a Iola, Heulwen a Deiniol, a Helen a Dafydd oedd y parau priod dewr. Ni chafodd neb y jacpot! Cafwyd cystadleuaeth llinell goll hefyd a ffraeth iawn fu beirniadaeth y bardd Selwyn Grffith. Arwel Jones oedd y bardd buddugol. Diolch o galon i bawb a gyfrannodd ar lwyddiant y noson. Enillwyd y raffl, yn roddedig gan Delyth Williams ac Ann Ifans oedd 1. Myfanwy Parry, 2. Eifion Harding. Enillwyr Clwb Cant oedd 1. Mrs E. Williams, 23 Bryntirion; 2. Delyth Williams; 3. Siân Bethan, 45 Pentre Newydd. Tynnir Clwb Cant, Ebrill yn Sycharth.

Y mae plant dosbarth Mrs Ifans, a phawb arall yn yr ysgol yn hynod o falch fod Mrs Owen yn ddi-anaf. Dyma'r dosbarth canol gyda Mrs Owen ar ôl treulio 'pnawn bendithiol iawn yn ei chwmni — yn dilyn gwaith thema ar y Post — rhyw bythefnos cyn y digwyddiad. Diolch i chwi Mrs Owen am roi eich amser inni fel dosbarth. Diolchwn hefyd i Yncl Mike am orig hynod o ddiddorol a gwerthfawr yn olrhain ei ddiddordeb fel Ffilatellwr — ac am ddangos ei gasgliad arbennig o Stampiau.

Tîm Rygbi o Gymry hyderus yw rhain yn dathlu dydd Gŵyl Ddewi. Tîm a'u gobaith am ennill y Gamp Lawn — ond yn berffaith fodlon bellach o'r Goron Driphlyg.

Cynhelir Ffair Wanwyn, nos Wener Mai 29ain am 6.30 p.m. yn Neuadd yr Eglwys. Y mae ticedi raffl ar werth gan aelodau'r pwyllgor.

YR EISTEDDFOD BENTREF: Bydd yr Eisteddfod Bentref eleni ar Nos Wener, Mehefin 24ain a chynhelir Ffair Wanwyn yn Neuadd yr Eglwys, Nos Wener, Ebrill 22ain am 6.30 er budd yr Eisteddfod. Bydd pob math o stondianau yno, eliffant gwyn, teisennau, teganau, bwydydd, gwaith llaw a phlanhigion heb sôn am y raffl a'r tombola. Cefnogwch y Ffair er mwyn sicrhau parhad a llwyddiant i'r Eisteddfod Bentref.

YR YSGOL FEITHRIN: Bydd yr Ysgol Feithrin yn ail agor ar y 12fed o Ebrill. Ar wahân i'r gwyliau hanner tymor byddwn yn cyfarfod am 10.30 a.m. bob bore Mawrth a bore lau yn Neuadd yr Eglwys hyd nes y bydd yr ysgolion yn cau am yr haf. Edrychwn ymlaen at gyfarfod eto wedi seibiant dros y gaeaf. Os oes unrhyw blentyn eisiau ymuno o'r newydd byddwn yn falch o'i groesawu – o'r baban ieuengaf i'r plant sydd bron yn bedair oed. Mae croeso i chi gyd-chwarae, ac i'w fam, nain neu warchodwr i ddod am baned a sgwrs.

YSGOL TAN-Y-COED: Noson Goffi – Gwnaed elw o £158 yn y Noson Goffi ddiweddar. Dymunwn ddiolch i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd mewn unrhyw fodd.

HAFOC (S4C): LLongyfarchiadau i Wena, Caerbleddyn ar ddod i'r brig mewn cystadleuaeth arlunio a drefnwyd gan Hafoc, y rhaglen i blant ar S4C. Derbyniodd fel gwobr 'becyn' o anrhegion yn ymwneud â'r rhaglen. Da iawn Wena, dalier ati.

EGLWYS SANTES HELEN: Ar fore Sul, 13eg o Fawrth cysegrwyd tri Beibl Cymraeg Newydd gan y Parchedig Ganon R.D. Roberts. Rhoddion Miss Mair Foulkes oedd dau o'r Beiblau ar gyfer yr Eglwys a rhodd Mrs Mary Davies i'r Ysgol Sul oedd y llall. Yn ystod yr un gwasanaeth (Sul y Mamau) cyflwynwyd tusw o flodau i bob plentyn ac i nifer o'r plwyfolion i fynd adref gyda hwy. Diolchwn i Miss Mair Foulkes a Mrs Mary Davies am ofalu am y blodau a'u trefnu'n duswau mor dlws.

GWASANAETHAU'R PASG: Cynhelir Awr Dawel a Myfyrdod Ddydd Gwener y Groglith rhwng 2 a 3 o'r gloch y prynhawn gan y Parch Tegid Roberts.
Sul y Pasg bydd Cymun Bendigaid am 10.30 am. Gweinyddir gan y Parchedig Ganon R.D. Roberts.

Wavell Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

HANES ANHYGOEL RHOSTIO YCH YN LLANBERIS

Ar ddydd Llun, Gorffennaf 5ed, 1954 daeth dros 3,000 o bobl ynghyd i Lanberis i flasu tafell o fara a chig wedi ei rostio arni. Dyna'r digwyddiad y cyfeiriwyd ato yn y rhifyn diwethaf o'r Eco. Daeth y wybodaeth am yr achlysur i law'r golygyddion oddi wrth Mair Davies, 4 Scarbororugh Walk, Corby, a Mrs Routledge, hefyd o Corby, ond gynt o Ddol Elidir Llanberis. Dyma grynodeb o'r hanes, a mwy o luniau.

Syniad Mr Kushner, perchennog Gwesty'r Fictoria oedd dathlu diwedd y dogni drwy rostio ych cyfan ar dir y gwesty, a rhannu tafelli o'r cig i bawb a ddeuai yno. Rhostiwr ych proffesiynbol o Stratford-on-Avon oedd yn gyfrifol am y gwaith. Roedd ganddo brofiad o dros 50 mlynedd o rostio tu cefn iddo. Roedd ei dad a'i daid wedi bod yn y gwaith am flynyddoedd cyn hynny. Dyma ymweliad cyntaf Mr G.F. Tyler â Chymru. Dechreuodd ar ei waith am 4.00 o'r gloch y bore.

Roedd yr ych yn pwyso deuddeg cant, wedi ei fagu ym Môn, a'i brynu a'i baratoi gan gigydd o Gaernarfon, R.M. Jones. Roedd olwyn o faint olwyn trol ei hangen i droi'r ych a chai ei ddal yn ei le gan bolyn o goeden onnen. Roedd angen tunnell o goed a glo i gynneu'r tân. Bu Mr Tyler wrthi'n ddyfal yn troi ac yn ail-osod sgiweri yn y cig am wyth awr. Am hanner dydd, roedd y cyfan wedi ei rostio yn ôl ei fwriad.

Rheithor Llanberis, Y Canon J.H. Williams gafodd y fraint o dorri'r tafelli cyntaf o'r cig. Yna, aethpwyd ati o ddifri i dorri a rhannu'r cig i'r bobl oedd wedi casglu i wylio. Dywedir y gellid arogli'r cig yn rhostio o tua chwarter milltir i ffwrdd. Roedd y rhan fwyaf o'r gwaith cerfio yng ngofal 'chef' y Fictoria, sef Mr J Fenton.

Yn ystod y pnawn, daeth Mr Antoni Widelski, 'chef' mewn gwesty arall o eiddo Mr Kushner yn Ynys Wyth, ar ymweliad â Llanberis. Cafodd ei hedfan yno'n arbennig mewn awyren a laniodd ym Mhwllheli. Bu yntau hefyd yn helpu i dorri'r cig, ac aeth yn ei ôl i Ynys Wyth gyda digon o gig i'w roi ar fwydlen y gwesty yno **yr un noson.!**

Cafodd gweddill y cig ei rannu rhwng gwahanol Ysbytai Bangor a Chaernarfon.

1. Y Rhostiwr G.F. Tyler yn egluro'i waith i Mr Bennet a'r Canon J.H. Williams. Ond pwy tybed yw'r bobl yn y cefndir?

2. Rhannau o'r dorf yn gwylio Mrs Carswell yn torri darn o'r cig, yn cael ei chynorthwyo gan Mrs Bennet.

CASGLU HEN LUNIAU

Mae Pwyllgor Rhanbarth Cyngor Gwlad Gwynedd yn awyddus i drefnu arddangosfa o hen luniau o Ddyffryn Peris neu Ardal Eco'r Wyddfa. Y gobaith yw cynnal yr arddangosfa yn Oriel Eryri, Llanberis rhywdro ym mis Medi nesaf.Trefnodd Pwyllgor Arfon o'r Cyngor Gwlad yr un math o beth yn ardal Lleu yn 1983. Cynhalwyd arddangosfa yng Nghapel Soar Penygroes a throdd allan i fod yn llwyddiant ysgubol. Dangoswyd dros 500 o wahanol luniau yn ymwneud ag amrywiol agweddau o fywyd yr ardal a thyrrodd lluoedd i'w gweld. Beth am wneud yr un peth yma yn ardal Eco'r Wyddfa? Oes ganddoch chi hen luniau yn eich meddiant? Os oes a ydych yn fodlon eu herddangos? Mae Pwyllgor Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wydfa wedi cytuno i ymgymeryd a'r dasg o gasglu'r hen luniau. Y prif gasglwr a threfnydd yr ymgyrch ywArwel Jones, Pant Hywel,Penisarwaun, rhif ffon Llanberis 871274.Bydd rhestr o bobl y gellwch ymgysylltu â hwy yn eich pentrefiyn ymddangos yn y rhifyn nesasf o Eco'r Wyddfa. Yn y cyfamser dewch i gysylltiadac Arwel Jones.O ganlyniad i'r ymdrech a'r diddordeb a ddangoswyd yn ardal Lleu fe gyhoeddwyd llyfryn yn cynnwys rhai o'r lluniau mwyaf diddorol.Dyna'r nod yma yn ardal Eco'rWyddfa hefyd. Ewch ati da chi, ble bynnag y bo'ch, yn ddiymdroi, i chwilota drwy'r hen focsys yna yn yr atic, twll dan grisiau neu'r sied fel y cawn glamp o arddangosfa ym mis Medi. Rhowch y lluniau mewn amlen neu fag a gwnewch yn siwrfod eich enw a'ch cyfeiriad wedi ei gynnwys ar y cefnau. Gwneir pobymdrech posibl i'w diogelu. Bydd y lluniauyn cael eu dychwelyd i chi ar ddiwedd yr ymgyrch. Cynhwyswch hefyd unrhyw wybodaeth berthnasol am y lluniau (achlysur, blwyddyn, enwau ac yn y blaen). Soniwch wrth eich perthnasau a'ch ffrindiau am yr ymgyrch. Gwnewch o'n destun siarad fel y caiff ddigon o gyhoeddusrwydd. Gallwn wedyn ymfalchio yn y ffaith ein bod wedi gwneud rhyw ymdrech fechan i ddangos i'r oesoedd a ddel y glendid a fu.

STRYD FAWR, DEINIOLEN Ffôn Llanberis **871210**

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.

A dewis rhagorol o Fideos i'w benthyg

Hefyd yn Siop

FFYN A CHERRIG, STRYD FAWR, LLANBERIS

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO . . .

BWSIAU ARFON

LLANRUG

(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175

CWM-Y-GLO

Gohebyd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)

Aelodau'r Clwb Ieuenctid ac aelodau Phab yn mwynhau eu hunain ar y 10fed o Fawrth.

CLWB IEUENCTID: Mynd o nerth i nerth mae gweithgareddau yn y clwb y dyddiau hyn. Daeth Eryl Wyn Jones o siop trin gwallt 'Bodytalk', Caernarfon atom ar y 25ain o Chwefror ac fe gafodd y merched bleser mawr yn ei chwmni. Does dim byd gwell i blesio merched medda nhw na chael cyfle i wybod am steiliau gwallt diweddaraf a dyna yn union a ddigwyddodd gyda'r merched wrth eu bodd. Yna ar y 3ydd o Fawrth daeth Mrs Daphne Roberts o Waunfawr i'r clwb gyda arddangosfa o waith gemau. Yn wir gymaint oedd y diddordeb fel y gobeithir cael Mrs Roberts yn ôl i'r clwb cyn diwedd y tymor presennol. Un a ddaeth yn ôl atom eto mis yma oedd Len Jones o Ddeiniolen gyda'i offer codi pwysau. Fel clwb hoffem longyfarch Len a'i dîm o fechgyn ifanc am eu llwyddiant yn ddiweddar mewn pencampwriaeth codi pwysau Cymru. Yna ar y 10fed o Fawrth daeth rhai o aelodau a threfnwyr Clwb Phab o Gaernarfon atom. Fel y gwelir o'r llun a dynnwyd ar y noson, cafodd pawb noson wrth eu bodd. Fel y dywedodd Richard Williams, – trefnydd Gogledd Cymru o Phab ar ddiwedd y noson, da o beth fyddai gweld clybiau eraill yn estyn gwahoddiad iddynt ymweld â hwy gan mai dod i Cwmn oedd y tro cyntaf iddynt gael cyfle i ymweld â chlwb ieuenctid. Paratowyd lluniaeth ysgafn ar eu cyfer a'r gobaith yw y byddwn yn gallu rhoi gwahoddiad iddynt ddod atom yn flynyddol o hyn ymlaen. Hefyd yn ystod yr wythnosau diwethaf bu rhai o'r bechgyn yn cynrychioli'r clwb mewn cystadlaethau pêl droed (5 bob ochr) a pŵl yn ddiweddar. Fe wnaeth yr hogia gyfrif da ohonynt gyda ychydig bach o lwc efallai y buasent wedi llwyddo i fynd drwodd i'r ffeinals. Beth bynnag yr hwyl oedd y peth pwysicaf.

Ar gyfer y mis sydd i ddod mae oddeutu deg o'r aelodau yn bwriadu mynd i lawr i Gaerdydd ar y 5ed o Ebrill i weld rhaglen pobl ifanc STID yn cael ei recordio o stiwdio H.T.V. Yn garedig iawn mae John Williams, Arweinydd Clwb Ieuenctid Llanberis sydd yn bennaf gyfrifol am y trefniadau yn gobeithio trefnu y bydd bws yn cychwyn ben bore fel y bydd pobl ifanc yn cael cyfle i fynd o gwmpas Caerdydd yn y prynhawn cyn mynd i'r stiwdio ar ôl te. Dylai fod yn ddiwrnod i'w gofio. Gyda llaw dal i obeithio yr ydym y cawn fynd i weld tîm pêl droed Lerpwl yn chwarae yn Anfield ac er sawl ymdrech nid ydym wedi bod yn llwyddiannus hyd yma. Nid yw hyn yn syndod i neb gan bod Lerpwl yn dîm llwyddiannus iawn y tymor yma a chymaint o bobl mor awyddus i'w gweld.

Gan fod yr ychydig nodiadau hyn yn cael eu paratoi ychydig o ddyddiau ar ôl clywed am farwolaeth Mr O. Glyn Foulkes o Benygroes mae'r Clwb yn awyddus i estyn pob cydymdeimlad i'w weddw a'i deulu. Daeth Mr Foulkes atom i'r clwb cyn y Nadolig ac fel arfer roedd yn llawn bywyd ac yn awyddus fel bob amser i estyn pob cefnogaeth i ni. Nid oedd dim yn ormod iddo. Bydd y gwasanaeth ieuenctid yn dlotach iawn hebddo oherwydd cymaint ei gyfraniad di-flino dros y blynyddoedd. 'Roedd yn fraint cael ei adnabod.

MARWOLAETH: Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd Chwefror 18fed, ar ôl cystudd blin bu farw Mr Franklyn Jones, 24 Dol Afon yn 63 oed. Bu gwasanaeth yn Eglwys Sant Gabriel y dydd Llun canlynol ac yna ym Mynwent Llanrug. Gweinyddwyd yn yr angladd gan y Deon Gwlad y Parch Richard Jones a Mrs Ruth Charles. Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod Mrs Esmme Jones a'r plant Arfon a Ruth yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Dymuna Mrs Esmme Jones, Arfon a Ruth ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn eu profedigaeth.

CYDYMDEIMLAD: Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf a Mr a Mrs Len Pritchard a'r teulu, 6 Dôl Afon yn eu profeidgaeth o golli chwaer, Mrs Glenys Moore.

DIOLCH: Dymuna Alison, Arosfa, Fron Gader, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn 18 oed.

ADREF O'R YSBYTY: Dymunwn wellhad llwyar a buan i Mr Hugh Pritchard, Bryn Gwynedd ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

LLONGYFARCHIADAU i Sioned a Tony, Isfryn ar enedigaeth eu mab bach, Llion brawd bach i Arwyn a ŵyr i Mr a Mrs Hubert Roberts, Bod Gwynedd.

CROESO'N ÔL I GWM: i Mr a Mrs B Jones, 1 Maes Gerddi. Pob dymuniad da iddynt yn eu cartref newydd, hefyd i Mr a Mrs Cepas sydd wedi dod i lawr o Bwlch ac wedi ymgartrefu yn 2 Maes Gerddi.

DIOLCH: Dymuna Cynthia ddiolch i'w theulu cymdogion a'i ffrindiau am y cardiau, anrhegion ag arian a dderbynodd ar achlysur ei phenblwydd yn un ar hugain oed.

UNDEB Y MAMAU: Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid yn Eglwys Sant Gabriel Nos Fawrth Mawrth 8 gan y Parch Alun Hawkins, Rheithor Llanberis. Ar ôl y gwasanaeth cafwyd paned wedi ei threfnu gan aelodau Cwm y glo yn yr Ysgol Gymuned. Diolchodd Mrs Taylor, Llanrug i'r Parch Alun Hawkins am y gwasanaeth ac am y lluniaeth. Enillwyd y raffl gan Mrs M Barlow, Llanrug.

CLWB POBOL Y CWM: Yng ngyfarfod pnawn lau Chwefror 25 croesawodd y Llywydd Mr Llew Hughes ein gwŷ gwadd sef Mr John H Hughes, Llanberis cyn brifathro Ysgol Dolbadarn. Cawsom ddisgrifiad bywiof o'i amrywiol brofiadau personol ei ddyddiau cynnar wedi eu cyflwyno mewn ffordd ddiddorol a derbyniol. Roedd blas ar ei hiwmor iach gyda'i ddawn gynhenid i fynnu gwrandawiad. Diolchodd Mrs G Chick iddo am bnawn hynod bleserus ac adloniadol. Cyfeiriodd y llywydd at Waeledd Mr Hugh Pritchard, Bryngwynedd a dymunwyd adferiad buan iddo. Gofalwyd am y te gan Mrs R H Parry a'r raffl gan Mrs K Watkins a enillywd gan Mr Richard Roberts.

Pnawn i ddathlu Gŵyl Dewi oedd cyfarfyddiad yr aelodau dydd lau, Mawrth 10, ac fe wnaed yn y ffordd arferol gyda'r byrddau yn denu'r llygaid a hyfryd oedd blasu danteithion traddodiadol wedi eu darparu gan yr aelodau. Dilynwyd gyda amrywiaeth o adroddiadau a sgyrsiau perthnasol i'r Ŵyl. Cymerwyd rhan gan Mrs K Watkins, Mrs G Chick, Mrs H M Roberts, Mr Richard Roberts, Mr R.H. Parry, Mr Llew Hughes. Rhoddwyd y ddwy raffl gan Mrs G Chick a Mrs K Watkins a enillwyd gan Mrs R H Parry a Mrs Mair Williams.

CULHWCH AC OLWEN

Ar 22 o Fawrth cyhoeddir **Culhwch ac Olwen** gan Wasg Prifysgol Cymru. Comisiynwyd y llyfr gan Gyngor y Celfyddydau yn chwaer-gyfrol i'r llyfr hynod boblogaidd Y Mabinogi, a gyhoeddwyd yn 1984 gan yr un Wasg. Bydd Gwasg Victor Gollancz cyn bo hir yn cyhoeddi argraffiad newydd clawr meddal o'r fersiwn Saesneg, *Tales from the Mabinogion*.

Bu disgwyl hir am y cyfaddasiad newydd hwn o chwedl Culhwch ac Olwen gan y llenor a'r ysgolhaig dawnus Gwyn Thomas, sy'n athro yn Adran y Gymraeg Coleg Prifysgol Gogledd cymru, Bangor. Mae arddull fywiog a chyfoes y testun yn gweddu i'r dim i natur afiaethus yr hen chwedl draddodiadol. Adroddir hanes ymdrechion marchogion y Brenin Arthur i gynorthwyo Culhwch i gyflawni nifer o anoethau (campau) a orfodir arno gan Ysbaddaden Bencawr cyn y gall ennill Olwen yn wraig.

Paratowyd y saith llun lliw a'r nifer fawr o luniau du a gwyn sydd yn y llyfr gan Margaret Jones. Mae hi'n byw yng Nghapel Bangor ger Aberystwyth ac yn adnabyddus am ei dehongliad unigryw o fytholeg Geltaidd a byd y Mabinogion.

Pris **Culhwch ac Olwen,** cyfrol hardd a fydd yn apelio ar bobl mewn oed yn ogystal â phlant yw £6.95.

Dewisodd The ChildrenS Book Foundation yr argraffiad Saesneg, *The Quest for Olwen*, a gyhoeddir gan Lutterworth Press, i'w gynnwys ymhlith Llyfrau Plant y Flwyddyn 1988. Bydd y lluniau gwreiddiol yn cael eu harddangos yn y National Theatre a'r Barbican yn Llundain ym mis Awst.

BRYN
(B & K Williams)
Hen Ysgol Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)
Gwneuthurwyr Ffenestri, Drysau, Grisiau neu unrhyw fath o gynnyrch coed. Y coed meddal wedi derbyn triniaeth arbennig i wneud iddynt bara.

CRIB COCH
Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 76772
TRIN GWALLT I BAWB O'R TEULU GAN JEN
Ffoniwch neu galwch i drefnu amser

BECWS DEINIOLEN
(D.E. & R.P. JONES)
Ffôn: LLANBERIS 870232
BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS
Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

GERAINT OWEN
Gosodwr carpedi a phob math o loriau
Cil-y-Mynydd WAUNFAWR
Ffôn: Waunfawr 552

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn, Waunfawr 626.

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR: Danfonwyd llythyr at yr Heddwas Thomas yn diolch iddo am ei gynnig caredig i ymweld â'r Cyngor yn rheoladidd i weld ym mha ffyrdd y gellid gwella plismona yn yr ardal. Roedd yr aelodau'n siomedig ar cyn lleied o gyhoedd yr ardal ddaru ymweld â charafan atal troseddau'r heddlu pan leolwyd hi'n ddiweddar ar dir y Ganolfan. Cytunodd pawb fod yr ymweliad wedi cael cyhoeddusrwydd da. Penderfynodd y Cyngor i drosglwyddo'r cyfrifoldeb o edrych ar ôl offer chwarae Gerddi Bach i Gyngor Arfon. Etholwyd Eurig Wyn i gynrychioli'r cyngor ar Gymdeithas Cynghorau Cymuned Arfon ac Ifor Huws i Gynrychioli Caeathro. Danfonwyd llythyr at Swyddog Cynllunio Mewn Argyfwng Cyngor Gwynedd yn ei hysbysu y gellir defnyddio adeiladau cyhoeddus y pentref mewn unrhyw argyfwng ar wahân i drychineb ryfel niwclear, am ein bod yn byw mewn ardal ddi-niwclear.

PLAID CYMRU: Cynhelir Noson Agored i drafod Preifateiddio Dŵr Cymru, efo John Elfed Jones, Cadeirydd Dŵr Cymru a Dafydd Wigley A.S. yn yr Institiwt, Caernarfon ar Nos Wener Ebrill 22 am 7.30 y.h. Eurig Wyn fydd yn cadeirio. Dewch i gefnogi'r drafodaeth bwysig hon.

Clwb 100 Plaid Cymru: Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fis Chwefror: 1. Mrs Mary Vaughan Jones, Hafod y Coed; 2. John Huws Roberts, Pant Teg; 3. Mrs Mwynwen Jones, 2 Tref Eilian.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma rest o enillywr y Clwb 300 am fis Chwefror: 1. £40 Celyth Williams, 9 Stâd Tŷ Hen; 2.£25 Helen Jones, 7 Dol Erddi; 3. £10 Bryn Griffith, Gorphwysfa.

CYDYMDEIMLO: Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mr Eric Wyn Williams a'r teulu, Bro Waun, yn eu colled fawr o golli priod a mam annwyl a gweithgar, sef Mrs Maria Williams. Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Doris Roberts, Dwyros, yn ei phrofedigaeth hithau o golli chwaer.

YSBYTY: Y mis hwn eto bu nifer o drigolion y pentref yn cwyno yn yr ysbyty a rhai wedi derbyn triniaeth llaw feddygol. Croesawn gartref gyda'n dymuniadau gorau am wellhad buan a llwyr, Mrs Lewis, Tŷ Ysgoldy, Mrs D. Jones, Lynnfod, Mrs S. Williams, Bro Waun, Gareth Cadwaladr, Rhes Glyn Afon, Mrs Elaine Jones, 2 Pant Waun, Rhys Sion, Pant Teg, Mrs M Jones, Shinfield a Mr Idris Owen Llys Awel.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Greasley, Min Afon ar fod yn daid a nain am y tro cyntaf, ganwyd merch fach i'w merch Janet a'i gŵr Alwynne.

Ac i Mr a Mrs Ron Turner, Collfryn, ar ddathlu eu priodas Arian.

I Mr a Mrs G Thomas, Ty'r Heddlu ar enedigaeth mab bychan, a croeso cynnes iawn iddynt fel teulu i'r pentref.

YR URDD: Bydd tymor yr Urdd yn dod i ben fel arfer ar ddiwedd tymor y Pasg. Cafwyd blwyddyn ddifyr ac amrywiol eto eleni, diolch i Gareth Jones, Glyn Ceris, yr arweinydd ac i Nan Wyn am ei gynorthwyo. Byddant yn mynd â'r plant i'r pwll nofio i gloi gweithgareddau'r flwyddyn.

Bu cystadlu brwd yn yr Eisteddfodau cylch a Sir eto eleni. Yn yr Eisteddfod cylch dan 12 daeth parti adrodd Huw a'r parti recorders yn ail, ac Osian yn ail dan 15 gyda'r sacsoffôn. Yn yr Eisteddfod Sir, daeth Elin yn ail am adrodd, Joanna a Kevin ail gyda'u hofferynau. Daeth y grŵp pop 'Bron a Methu' yn gyntaf, felly byddant yn mynd i'r Eisteddfod yn y Drenewydd. Pob lwc i'r hogia.

CYNGERDD PWYLLGOR APÊL EISTEDDFOD YR URDD 1988; Cynhelir cyngerdd yn y Ganolfan, Nos Wener Ebrill 15 am 7.30 o'r gloch. Yr artistiaid fydd, Lleisiau Mignedd, Côr Plant ysgol Waunfawr a phlant yr Urdd.

YSGOL FEITHRIN: Ar ddiwedd tymor y Pasg roedd plant yr Ysgol Feithrin yn ffarwelio â'i hathrawes, Anti Lyn. Mae Mrs Lyn Lewis o Fethel yn mynd i gymryd swydd fel athrawes yn Ysgol Feithrin y Bethel. Rydyn ni'n flin iawn o'i cholli, ond yn diolch yn fawr iddi am ei gwaith ffyddlon efo'r plantos ac yn dymuno'n dda iddi efo'r Ysgol Feithrin ym Methel.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod cangen Waunfawr o Sefydliad y Merched, Nos lau y 3ydd o Fawrth gyda Mrs Pat Parry yn Llywyddu. Croesawodd Mrs Parry ddarpar aelod newydd, sef Mrs Ann Turner i'r cyfarefod.

Llongyfarchwyd Mrs Katie Wyn Jones ar ei phenodiad yn ysgrifenyddes Pwyllgor Ffederasiwn Gwynedd, Mrs Peggy Jones ar fod yn nain, a hefyd y tîm dartiau ar gyrraedd rownd cyn-derfynol y grwpiau dwbwl yn y Ganolfan Hamdden, Caernarfon ar Chwefror y 25ain.

Y gŵr gwadd oedd Mr Iolo Huws Roberts a draddododd sgwrs ddiddorol ar Ddiwylliant Cymreig. Diolchwyd iddo gan Mrs Catherine Jones ac ymunodd Mr Iolo Huws Roberts yn y wledd ar derfyn y cyfarfod. Rhodd gan Miss Missen oedd y raffl ac fe'i henillwyd gan Mrs Pat Parry.

Etholwyd Mrs E Jones fel cynrychiolydd i gyfarfod Blynyddol Sefydliad y Merched sydd i'w gynnal yn yr Albert Hall, Llundain ym Mis Mehefin. Cynhelir y cyfarfod nesaf Dydd Iau y 14eg o Ebrill . Y gŵr gwadd fydd Mr Tom Alun Roberts, swyddog gyda British Telecom.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd swper Merched y Wawr i ddathlu Gŵyl Ddewi yn y Ganolfan nos lau Chwefror 25ain pryd y cafwyd Noson o Rannu a Blasu a phigion o Steddfod Waunfawr, a darllenwyd gwaith yr enillywr gan wahanol aelodau o'r Gangen. Diolchwyd i bawb gan Mrs Mary Vaughan Jones. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Heulwen Hughes a'r enillydd oedd Mrs Glenys Williams. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Fawrth 24ain – Noson ym mysg ein gilydd 'Brethyn Cartre.

DIOLCHIADAU: Dymuna Jean Jones, Llwyn Onn ddiolch o galon i bawb am y caredigrwydd a ddagnoswyd tuag ati yn dilyn ei thriniaeth yn yr ysbyty, yn enwedig i'w chymdogion caredig am eu cymorth gyda'r plant.

CANOLFAN WAUNFAWR: Siomedig oedd gweld fod y Bylbiau oddi ar y goeden Nadolig o flaen y Ganolfan wedi eu cymeryd. Bydd Pwyllgor y Ganolfan yn falch iawn o dderbyn y bylbiau yn ôl gan y sawl a'i cymerodd.

CLB GWYRFAI: Trefnwyd y cyfarfod gan Mr Griffith, Llys Helen a cymerwyd rhan gan Mrs Morgan Jones, Panthaidd, Dr. Miles a Mr Griffith. Cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mrs Morgan Jones ar hen arferion a chymeriadau pentre Waunfawr. Roedd wedi dod a hen Feibl teulu oedd yn cofnodi'r briodas gyntaf yng ngapel Croesywaun ar ddechrau'r ganrif. Cafwyd sgwrs fer gan Dr Miles ar y pwysigrwydd o fyw a bwyta'n iachus i bobl mewn oed. Darllenodd Mr Griffith rannau o'i hoff farddoniaeth yn Gymraeg a Saesneg. Diolchodd Mrs Owilda Williams i bawb gymerodd ran.

Mawrth 3ydd: Ar wahoddiad Mr L Jones, prifathro a'r staff aeth aelodau'r Clwb i'r ysgol i glywed y plant mewn cyngerdd dathlu Gŵyl Ddewi. Hefyd roedd pasiant wedi ei drefnu gan Mrs Eames ar achlysur trosi'r Beibl i'r Gymraeg 400 mlynedd yn ôl gan yr Esgob William Morgan. Cymerwyd gwasanaeth crefyddol gyda mawl a chân gan y dosbarthiadau uwch ac adloniant hwyliog gan y plant ieuengaf o dan ofal Mrs Rita Williams a Miss Hugheston Roberts. Mwynhawyd te ardderchog – cyfraniad disgyboion dosbarth IV, wedi ei baratoi gan staff y gegin. Diolchodd y Parch Barry Thomas ar ein rhan am y gwahoddiad blynyddol ers 12 mlynedd o gael dod i'r ysgol i ddathlu Gŵyl Ddewi ac am y cysylltiad cynnes rhwng yr ifanc a'r henoed yn y pentre.

Mawrth 17: Mr John Roberts y Groeslon cyn ysgrifennydd yr Eisteddfod Genedlaethol oedd ein gwestai a cafwyd hanes difyr o'i aml deithiau rhwng y De a'r Gogledd.

GŴYL WANWYN MERCHED Y WAWR – RHANBARTH ARFON: Dowch i'r Ŵyl Ddrama yn ysgol Brynrefail **Mai 27 am 7.30 p.m.** Amser yn ôl bellach bu cystadleuaeth ysgrifennu dramau byrion, a'r ddwy a wobrwywyd oedd 'Gwahanu' a gynhyrchir gan Gwen Pritchard Jones o gangen Dinas, a 'I'w gadw yn y teulu' a gynhyrchir gan Mat Pritchard i gangen Caernarfon. Aelodau o wahanol ganghennau Arfon yw'r actorion, trefnwyr y llwyfan a' colurwyr. Yn yr ysbaid rhwng y ddau berfformiad fe fydd siawns am sgwrs a phaned. Dowch a'ch ffrindiau.

YN EISIAU: Athrawes i Gylch Meithrin Waunfawr i ddechrau ar ôl Gwyliau'r Pasg. Cysyllter â Mrs Sylvia Jones, Waunfawr 592, neu Mrs Ann Jones, Waunfawr 763.

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yn Ysgol Gynradd Waunfawr, Nos Fercher 23 Mawrth 1988. Yn ogystal ag aelodau'r Cyngor roedd ein cynghorydd sirol Cyng. Henry Owen, yn bresennol er mwyn ceisio rhoi mwy o gefnogaeth y tu ôl i'r nifer mawr o geisiadau'r Cyngor Cymuned i wella diffygion gwasanaethau'r Cyngor Sir yn y gymuned. Ers y cyfarfod diwethaf roedd Mr Robert Jones, Bryn Gwylan wedi trwsio'r ddau fwlch yng nghlawdd y fynwent ym Metws Garmon a tho'r cwt. Hefyd derbyniwyd pris am dorri'r tyfiant ym mynwent y plwyf am y flwyddyn nesaf gan Mr Robert Jones, sydd wedi gwneud gwaith ardderchog yn y gorffennol. Derbyniwyd addewid gan y Cyngor Sir y bydd y cwlfert ger Tai Isa yn cael eu trwsio unwaith y bydd y llafurlu ar gael. Ar ôl arweiniad gan Surfewr y Sir penderfynwyd gofyn am brisiau er mwyn trwsio llwybr Cae'r Waun. Cafwyd trafodaeth a phenderfynwyd dechrau'r broses o ryddhau'r Cyngor o'i gyfrifoldeb ynglŷn â defnydd y cyhoedd o Ffynnon Pen Dŵr Oer, uwchben Groeslon oherwydd cyflwr y dŵr. Ar ôl cael ei trwiso gan y Clwb Ieuenctid bydd y pyst gôl at y Gerddi Bach yn ôl yn eu lle priodol cyn y Pasg. Penderfynwyd rhoi £20.00 at gronfa Arbed y Plant a £250.00 at bwrcasu mat at gyfer Clwb Bowlio Dan do yn y Ganolfan, ar yr amod y bydd yr offer ar gael ar gyfer holl drigolion y gymuned y tu allan i oriau'r Clwb. Gobeithio bydd yr Awdrudod Dŵr yn gorffen trwsio Ffordd Glan 'Rafon ar y cyd gyda Adran Priffyrdd y Sir cyn bo hir.

CAEAU CHWARAE: Yng nghyfarfod diwethaf o Lywodraethwyr yr Ysgol penderfynwyd rhoddi hawl i blant yr Ysgol Gynradd yn unig i ddefnyddio Cae Chwarae'r ysgol gan fod cae arall ar gael i blant yr Ysgol Uwchradd tu ôl i'r Ganolfan. Gofynnir am gefnogaeth rhieni i gadw'r rheol yma.

AGE CONCERN: Trwy gymorthdal llywodraeth ganol mae sôn am sefydlu Clwb Cinio ar gyfer yr henoed yn y Ganolfan ddwywaith yr wythnos yn dechrau diwedd mis Ebrill. Côst pryd fydd £1 y pen gyda'r fantais hefyd o gymdeithasu. Bydd manylion pellach ar gael cyn bo hir.

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiampl o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod

Ffoniwch am bris i

J R PRITCHARD, 14 Glanrafon, Bontnewydd

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpedi

PASG HAPUS I BAWB

NODDWR

Y mae HTV yng Nghymru yn cynhyrchu 9 awr o raglenni Cymraeg a 7 awr o raglenni Saesneg bob wythnos - rydym hefyd yn gefn i nifer helaeth o sefydliadau a chymdeithasau ledled Cymru - mewn hindda a drycin...

Yr Urdd, Sioe Amaethyddol Cymru,
Gŵyl Gerdd Gogledd Cymru, Gŵyl Abertawe,
Gŵyl Abergwaun, Cyngor yr Ysgolion Sul,
Mudiad Ysgolion Meithrin, Cartref Bontnewydd,
Gŵyl Cwm Rhymni, Gŵyl Ddrama Casnewydd,
Apêl Byd Natur Cymru, Cwmni Opera Cymru,
Cymdeithas Cerdd Dant Cymru, Nant Gwrtheyrn,
Urdd er Hyrwyddo Cerddoriaeth yng Nghymru,
Gŵyl Ddrama Gymraeg Abertawe, Coleg Cerdd
a Drama Cymru, Y Cyngor Llyfrau Cymraeg,
Cymdeithas Ddrama Cymru...i enwi ond ychydig

Ac yn arbennig eleni -

Pwyllgor Dathlu Pedwarcanmlwyddiant Cyfieithu'r Beibl.

"Ryden ni yma...

Dyddiadur y Mis

Ebrill

8. Gwener Llanberis. Te yr Henoed

9. Sadwrn Glynllifon. Apêl Yr Urdd 1990 cystadleuaeth 'Brenhines y Bryniau'.

12. Mawrth Deiniolen Sefydliad y Merched

Llanrug Merched y Wawr

Penisarwaun Ysgol Feithrin yn ail agor

13 Mercher Llanrug Plaid Cymru – Ffair Wanwyn

Deiniolen Cyfarfod Cyhoeddus yn y Ganolfan

14. Iau Waunfawr Sefydliad y Merched

15. Gwener Waunfawr Cyngerdd Pwyllgor Apêl yr Urdd

Bethel Yr Urdd – mynd i'r ganolfan hamdden.

20. Mercher Bethel Cyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd.

Caeatrho Cymdetiihas Hanes Bro Eco'r Wyddfa yn y Festri.

22. Gwener Llanberis Te yr Henoed

Caernarfon yn yr Institiwt am 7.30 o'r gloch cyfarfod agored i drafod 'Preifateiddio Dŵr Cymru' gyda John Elfed Jones a Dafydd Wigley

Penisarwaun Ffair Wanwyn yn neuadd yr eglwys.

24 Sul Nant Peris Cymanfa Ganu

30 Sadwrn Maes Caernarfon Stondin gacennau gan Bwyllgor Apêl y Galon.

FFERMWYR IFANC CAERNARFON

Ar nos Fawrth, Chwefror 23ain cafwyd ffilm yn y clwb.

Mr Len Porter o Benisarwaun oedd Gwestai nos Fawrth y 1af o Fawrth. Dangosodd rhai o'r ffyn hardd roedd wedi'i gwneud dros fisoedd y gaeaf, a sut yr oedd yn mynd ati i wneud y ffyn crefftus. Diolchwyd gan Myfanwy Jones.

Treuliwyd nos Fawrth, Mawrth 8fed yn chwarae addasiad o'r gem 'Give us a clue'.

Cynhaliwyd cystadleuaeth flynyddol tenis bwrdd a dartiau y clwb ar y 15ed o Fawrth. Andrew Jones a enillodd y gystadleuaeth dartiau ac Andrew Kettle a enillodd y tenis bwrdd.

Cafwyd noson goffi lwyddiannus yn y Neuadd Goffa ar nos Fawrth y 22ain o Fawrth. Enillwyd y gystadleuaeth Trysor Cudd gan Sheila Roberts. Enillwyr y raffl oedd: Cacen Pasg – Joane Griffith; Ŵy Pasg – Dafydd Jones; 3 mwg coffi – Gwen Jones; Bisgedi – Sheila Roberts; Papur Ysgrifennu – Llinos Williams; Albwm Lluniau – Teulu Pengelli Isaf. Talwyd y diolchiadau gan Ellen Hughes. Bydd y clwb yn cynnal disgo i blant a phobl ifanc y pentref ar nos Wener Ebrill 8fed. Elw'r noson yn mynd tuag at Apêl Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990.

CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

Mae Pwyllgor Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa wedi penderfynu newid blwyddyn y Gymdetihas fel ei bod yn rhedeg o Fedi i Awst fel y rhan fwyaf o gymdeithasau yn hytrach nag o Ebrill i Fawrth fel ar hyn o bryd. Bydd pawb a ymaelododd am y flwyddyn 1987-88 yn parhau'n aelodau tan Awst 1988.

Apelir ar aelodau hen a newydd i ymuno â'r gymdeithas yn ei blwyddyn newydd ac i fynychu'r tri chyfarfod ychwanegol, Ebrill, Mai a Mehefin. Ceir y manylion amdanynt yn yr hysbyseb gerllaw.

CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA RHAGLEN EBRILL – MEHEFIN 1988

Ebrill 20: 7.30 yn y Festri, Caeathro:– **Noson o hanes lleol** gan drigolion Caeathro.

Mai 18: 7.30 yn Oriel Eryri Llanberis:– **Darlith ar T.H. Parry-Williams** gan **Robin Williams** (Cyfarfod blynyddol)

Mehefin 17: nos Wener:– **Taith i Tŷ Mawr Wybrnant** a phryd ysgafn ar y ffordd yn ôl Trefnir bws os bydd galw. (Enwau i unrhyw un o swyddogion y Gymdetihas)

Ni chynhelir cyfarfodydd yng Ngorffennaf ac Awst. Bydd y Gymdetihas yn ail-gychwyn ar dymor newydd ym Medi. Cofiwch ymaelodi!

Croeso i aelodau hen a newydd i'r cyfarfodydd.

LLEOLIADAU'R SGIPIAU CYMUNEDOL

BETHEL
Ebrill 12,13, 14, 1988

1. Lle parcio – Ystad Bro Rhos – ger rhif 37.
2. Rhwng cefn Bro Rhos a Chremlyn.
3. Ar balmant galswelltog ar Ystad Y Rhos tu ôl i rhif 6.
4. Tir ar gyffordd ffordd fawr, ffordd Crawia.
5. Minffordd – tir yn y gwaelod gyferbyn â Noddfa.
6. Tu ôl i Ystad y Ddôl – ar y tir gyferbyn Chilgeran.
7. Tan y Buarth – ar gornel chwith wrth fynd i mewn i Ystad Tan y Buarth.
8. Ymyl glaswelltog Ystad Tan y Ffordd.
9. Ger mynedfa hen ysgol Llanddeiniolen.
10. Seion – Tai Cae Rhos.

LLANRUG
Ebrill 5,6,7, 1988

1. Ar ddiwedd y lôn gyferbyn â Chartref Mamaeth Tyddyn Elan.
2. Ystad Nant-y-Glyn tir diffaith.
3. Maes Parcio Tafarn Pen-y-bont.
4. Yng nghanol Ystad Bro Rhythallt.
5. Ymyl glaswelltog gyferbyn â rhif 10 Rhos Rug.
6. Ystad Minffordd – tir diffaith.
7. Y fynedfa i Glan Moelyn.
8. Ystad Glanffynnon.
9. Maes Parcio Modurdy Groeslon Marc.
10. Ymyl glaswelltog cyffordd Glanffynnona Gwel Fynydd.

CADWCH Y FRO YN DACLUS

Y BEIBL CYMRAEG NEWYDD

O £6.50
dim llawer i'w dalu ar ôl 400 mlynedd

AR GAEL MEWN SIOPAU LLYFRAU DA LED LED CYMRU

CYMDEITHAS Y BEIBL

Am waith
PLASTRO
ac ADEILADU
yn ardal Eco'r Wyddfa,
cysylltwch â
GARY CASEY
20 Cae Swigin
Talybont
Bangor
Ffôn: 93-601228

Un o gartrefi brafia'r fro
CARTREF PRESWYL HENOED

BRON ERYRI
LLANBERIS, Ffôn: 870142 neu 870391

PERCHENNOG
MRS. EIRIAN MALI S.R.N.

- Stafelloedd sengl a dwbl
- Gofal 24 awr
- Gwres canolog trwy'r adeilad
- Yr holl staff yn siarad Cymraeg
- Golygfa hardd
- Lifft at bob stafell sy' ddim ar y llawr gwaelod
- Rhagofalon tân priodol
- Lolfa teledu lliw
- Pwyntiau teledu ym mwyafrif y llofftydd
- Bath-medic

Cofrestrwyd gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd

CHWARAEON

CYFIEITHIAD O ADRODDIAD I'R WASG AR RAN CYMDEITHAS PYSGOTWYR SEIONT, GWYRFAI A LLYFNI

Syr,

Fe ŵyr y mwyafrif o'ch darllenwyr am ddigwyddiadau ddydd Sadwrn 12fed o Fawrth ar Afon Seiont ple gwelwyd trigain o ganŵyr yn tresbasu arni mewn ymgyrch a drefnwyd gan CRACK (Campaign for River Access for Canoes and Kayacks). Ychydig ddyddiau yn unig o rybuddd a dderbyniwyd gan y Gymdeithas am yr hyn oedd i ddigwydd.

Bu'n rhaid gwneud rhai penderfyniadau ar fyr rybudd. Ein prif amcanion oedd:

1. I osgoi unrhyw weithred a allai achosi niwed corfforol i unrhyw berson.
2. I leihau effaith y propaganda a obeithient ei ennyn drwy eu gweithred.
3. I gyflawni'r uchod, roedd tri chwrs yn agored i ni, sef

a) gwneud dim. Yn sicr byddai hyn yn lleihau y cyhoeddusrwydd a chwennychid ganddynt.

b) Trefnu gwrthwynebiad cryf. Byddai hyn yn debygol o greu y math o wrthdaro corfforol y dymunem ei osgoi.

c) Trefnu gwrthdystiad gyda chyn lleiad â phosibl o gysylltiad corfforol tra'n pwysleisio ein hawliau cyfreithiol i'r afon, hyn er mwyn pylu arf propaganda y canŵyr a sicrhau na ddeuai niwed i neb.

Penderfynwyd mai'r cwrs olaf fyddai'r dull mwyaf gwareiddiedig o gyfarfod ein amcanion.

Fe gysylltwyd â'r Heddlu gan ofyn am eu cyngor a'u presenoldeb ar y dydd. Fe gadarnhawyd ganddynt ein hawl 'i fwrw allan unrhyw dresbaswr ar ein eiddo gan ddefnyddio grym rhesymol'. Ychwanegwyd y byddent yn cymeryd camau i atal unrhyw anrhefn ymhlith y cyhoedd gan gadarnhau nad oedd y weithred y'i mabwysiadwyd gan y Gymdeithas yn anghyfreithiol.

Yn ail, cymerwyd y penderfyniad dadleuol mai'r gorau cyn lleied o gysylltiad a fyddai rhyngom â'r cyfryngau, hyn er mwyn lleihau y cyhoeddusrwydd a gredem oedd prif bwrpas CRACK, ac er mwyn cadw ein cynlluniau yn gyfrinachol. Fel y digwyddodd pethau, ystyriwn fod safon yr adroddiadau yn y wasg o'r radd uchaf ac yn hollol ddi-duedd. Roedd y lluniau yn adrodd eu storiau eu hunain, a thri 'sgotwr oedd yr unig rai a anafwyd.

Celwydd noeth yw'r haeriad gan CRACK fod y Gymdetihas wedi gwrthod trafod â hwy. Rhoddwyd gwrandawiad teg i Swyddog 'Mynedfa i'r afon' Undeb y Canŵyr ychydig flynyddoedd yn ôl, ond methodd a gwarantu y byddai ymddygiad y canŵyr yn dderbyniol i ni. Credaf fod y mwyafrif o ganŵyr yn bobl call a chydwybodol ond fod ganddynt yn eu plith rai ffyliaid a hwliganiaid.

Yn 1984, gwnaeth y Cyngor Chwaraeon Cymru gynrychioliad ar eu rhan, ac yn dilyn trafodaethau hir â phennaeth Plas Menai fe luniwyd cytundeb a brofodd yn foddhaol i'r ddwy ochr. Golygai mai gyda chaniatâd Plas Menai yn unig y deuai neb i ganŵio ar yr afon, ac na chaent fynd ar y dŵr ond oddi ar fannau glanio a baratoid gan y Gymdeithas, hynny ar gyfnodau yn unig y tu allan i'r tymor pysgota a phan fo lefel y dŵr yn uchel. Byddai'n rhaid i bod perchen canŵ dalu am ei daith ar yr afon. Byddai'r cyfyngiadau hyn yn sicrhau na ddeuai niwed i amgylchfyd nag ecoleg yr afon ac na fyddai aelodau CRACK yn dinistrio epilfan y pysgod fel y gwnaethai wrth dynnu eu canŵs drwy ddyfroedd bâs y rhannau uchaf.

Ar eu rhan hwy, cytunodd y Cyngor Chwaraeon i chwyddo'r grant a dderbynid gan y Gymdeithas. Cynnigir grant i bob clwb chwaraeon cydnabyddedig i gyfarfod â chostau arbennig, ac fe'i derbyniwyd gan lawer o glybiau golff a chanŵio. Ple bwriedir y grant ar gyfer dau sbort, yna fe ystyrir ychwanegu eto. Yn anffodus, â'r cytundeb wedi ei dderbyn gan y ddwy ochr, fe bednerfynodd rhywun yng Nghaerdydd na ellid chwyddo'r grant, ac felly fe ddiddymwyd y cytundeb.

Tasg anodd iawn fyddai perswadio ein aelodau i dderbyn unrhyw gutundeb fyddai'n caniatáu canŵio ar yr afon ar ôl y profiad hwn a gweithred ddiweddaraf CRACK.

Ar ran Y Gymdeithas, Mr M.M. Jones, Cadeirydd.

CYNRYCHIOLI EI WLAD

Llongyfarchiadau i Colin Jones o Bontrug, disgybl yn Ysgol Brynrefail, ar gael ei ddewis i redeg yn nhîm Traws Gwlad Ysgolion Cymru yn yr Alban ar y 26ain o Fawrth. Fe sicrhaodd ei le yn y tîm drwy gynrychioli Ysgolion Gwynedd ym Mhencampwriaethau Ysgolion Cymru yn gynharach yn y mis. Daeth yn chweched yn y ras i fechgyn dan 15eg oed, a hynny'n hen ddigon da gan mai'r wyth cyntaf a ddewiswyd i gynrychioli eu gwlad yn erbyn yr Alban, yr Iwerddon a Lloegr.

Uchelgais Colin, sy'n aelod o glwb Eryri Harriers, yw cystadlu rhyw ddydd ym Marathon Llundain.

YSGOL BRYNREFAIL
PEL-DROED

Ysgol Dyffryn Nantlle (gartref)

Timau Dosbarth 1:	Tîm A	ennill 17-1
	Tîm B	ennill 8-2
Blwyddyn 2:		ennill 3-2
Blwyddyn 4:		colli 4-2
Bechgyn Hŷn:		colli 5-1

Ysgol Glan y Môr, Pwllheli (oddi cartref)

Timau Dosbarth 1:	Tîm A	ennill 2-1
	Tîm B	ennill 6-1
Blwyddyn 2:		colli 10-3
Blwyddyn 4:		cyfartal 5-5
Bechgyn Hŷn:		cyfartal 3-3

TRAWS GWLAD

Brynhawn dydd Mercher, Mawrth 23ain, fe gynhaliwyd Pencampwriaethau Traws Gwlad yr ysgol. Dyma'r canlyniadau:

Bechgyn Ieuengaf (dan 13eg oed)

1.	Gwion ap Llwyd	Gwyrfai	10 pt (18m.04eil)
2.	Aaron Wagg	Elidir	9pt
3.	Gavin Williams	Gwyrfai	8pt

Bechgyn Iau (dan 15eg oed)

1.	Colin Jones	Gwyrfai	10pt (14m.26eil)
2.	Paul Hughes	Eilian	9pt
3.	Mathew Powell	Eilian	8pt

Bechgyn Hŷn

1.	Dylan Jones	Eryri	10pt (21m.14eil)
2.	Dylan Cole Jones	Gwyrfai	9pt
3.	Rodney Roberts	Gwyrfai	8pt

Genethod Ieuengaf

1.	Nicola Houston	Eryri	10pt (20m.3eil)
2.	Catrin Thomas	Eilian	9pt
3.	Donna Evans	Elidir	8pt

Genethod Iau

1.	Gaynor Griffiths	Eryri	10 pt (19m.54eil)
2.	Llinos Williams	Elidir	9pt
3.	Stephanie Jeavons	Eilian	8pt

Genethod Hŷn

1.	Jennifer Clarida	Elidir	10pt (21m.27eil)
2.	Julie Bayliss	Eilian	9pt
3.	Katy Grant	Eilian	8pt

Cyfanswm Pwyntiau'r Tai

Gwyrfai 119; Eryri 94; Eilian 85; Elidir 85.

Y Bechgyn leuengaf yn ychydig lathenni cyntaf eu ras

HEN LUNIAU

Derbynnir ymateb pur galonogol o dro i dro i'r hen luniau a gyhoeddir ar y dudalen ôl, nid yn unig restrau o enwau'r chwaraewyr, ond yn ogystal ychwaneg o luniau.

Drwy law Mair Davies, 4 Scarborough Walk, Corby, y derbyniwyd yr isod, ac nid yn unig mae'n egluro mai tîm dartiau a ddangosir, ond mae'n eu henwi: Ned Green; Will Mona; Arthur Green? A. Morris; Will Emwd; Ruth L. Greenwood; Bill Denbigh; W.B. Jones a Len Jones.

1956 oedd y flwyddyn – ond tîm o ble oedd hwn?